# Cyngor Sir Caerfyrddin

# Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd 2025–2030

**Cynllun ar gyfer rheoli perygl llifogydd ledled Sir Gaerfyrddin**

Mehefin 2025

carmarthenshire.gov.wales

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

# Gwirio'r Ddogfen

| | |
|---|---|
| **Teitl y prosiect** | Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd 2025–2030 Cyngor Sir Caerfyrddin |
| **Teitl y ddogfen** | Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd |
| **Rhif swydd** | |
| **Cyfeirnod y ddogfen** | Drafft fersiwn 2 |
| **Cyfeirnod y ffeil** | |

| **Diwygiad** | **Dyddiad** | **Enw'r ffeil** | FRMP Drafft Cyngor Sir Gaerfyrddin fersiwn 04 | | |
|---|---|---|---|---|---|
| P1 | 15/11/2024 | **Disgrifiad** | Drafft i'w adolygu gan gleientiaid | | |
| | | | **Paratowyd gan** | **Gwiriwyd gan** | **Cymeradwywyd gan** |
| | | **Enw** | Yaheetah Kusi-Mensah | Aimee Hart | Steve Cook |
| P2 | 10/02/2025 | **Enw'r ffeil** | FRMP Drafft Cyngor Sir Gaerfyrddin fersiwn 1.1 | | |
| | | **Disgrifiad** | Drafft i'w adolygu gan gleientiaid | | |
| | | | **Paratowyd gan** | **Gwiriwyd gan** | **Cymeradwywyd gan** |
| | | **Enw** | Yaheetah Kusi-Mensah | Aimee Hart | Steve Cook |
| P3 | 18/03/2025 | **Enw'r ffeil** | FRMP Drafft Cyngor Sir Gaerfyrddin fersiwn 1.3 | | |
| | | **Disgrifiad** | | | |
| | | | **Paratowyd gan** | **Gwiriwyd gan** | **Cymeradwywyd gan** |
| | | **Enw** | Yaheetah Kusi-Mensah | Darragh Creegan | Steve Cook |
| | | **Enw'r ffeil** | FRMP Drafft Cyngor Sir Gaerfyrddin fersiwn 1.4 | | |
| | | **Disgrifiad** | Diweddarwyd yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus | | |
| | | | **Paratowyd gan** | **Gwiriwyd gan** | **Cymeradwywyd gan** |
| | | **Enw** | | | |
| | | **Enw'r ffeil** | | | |
| | | **Disgrifiad** | | | |
| | | | **Paratowyd gan** | **Gwiriwyd gan** | |
| | | **Enw** | | | |

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **1** | **Crynodeb Gweithredol** | **7** |
| **2** | **Cyflwyniad** | **8** |
| 2.1 | Beth yw Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd? | 8 |
| 2.2 | Amcanion | 8 |
| 2.3 | Diben yr FRMP | 8 |
| 2.4 | Strwythur FRMP | 9 |
| **3** | **Dewis Cymunedau Blaenoriaeth** | **10** |
| 3.1 | Ffynonellau Data | 10 |
| 3.2 | Canlyniadau Adolygu Data | 13 |
| 3.3 | Camau gweithredu | 15 |
| **4** | **Ardal Basn Afon Gwendraeth Porth Tywyn** | **16** |
| **4.1** | **Porth Tywyn—4781** | 16 |
| **4.2** | **Glan y Fferi—4073** | 23 |
| **4.3** | **Gors-las—4436** | 30 |
| **4.4** | **Cydweli—4054** | 37 |
| **5** | **Ardal Basn Afon Llanelli** | **46** |
| **5.1** | **Dafen—4021** | 46 |
| **5.2** | **Llanelli—4005** | 53 |
| **5.3** | **Llwynhendy—4667** | 69 |
| **6** | **Ardal Basn Afon Llwchwr Aman** | **76** |
| **6.1** | **Rhydaman—4016** | 76 |
| **6.2** | **Brynaman—4750** | 87 |
| **6.3** | **Cross Hands—4288** | 94 |
| **6.4** | **Glanaman—4046** | 100 |
| **6.5** | **Llandybïe—4019** | 110 |

| | | |
|---|---|---|
| **6.6** | **Llangennech—4064** | 120 |
| **7** | **Ardal Basn Afon Tywi Isaf** | **126** |
| **7.1** | **Abergwili—4038** | 126 |
| **7.2** | **Caefyrddin—4017** | 132 |
| **8** | **Ardal Basn Afon Teifi** | **142** |
| **8.1** | **Cwm-ann—4043** | 142 |
| **8.2** | **Dre-fach Felindre—4084** | 148 |
| **8.3** | **Llandysul—4033** | 153 |
| **8.4** | **Llanybydder—4018** | 159 |
| **8.5** | **Castellnewydd Emlyn—4066** | 166 |
| **9** | **Ardal Basn Afon Tywi Uchaf** | **174** |
| **9.1** | **Llandeilo—4087** | 174 |
| **9.2** | **Llanmddyfri—4007** | 182 |
| **9.3** | **Llanwrda—4044** | 190 |
| **10** | **Ardal Basn Afon Gorllewinol** | **196** |
| **10.1** | **Talacharn—4058** | 196 |
| **10.2** | **Llanddowror—4061** | 202 |
| **10.3** | **Llansteffan—4254** | 206 |
| **10.4** | **Sanclêr—4049** | 214 |
| **10.5** | **Hendy-gwyn ar Daf—4029** | 220 |
| **Atodiad A—Methodoleg** | | **227** |
| **Atodiad B** | | **229** |
| **Atodiad C** | | **230** |

# Rhestr termau

## Talfyriadau

| Talfyriadau | Ystyr |
|---|---|
| AEP | Tebygolrwydd Gormodiant Blynyddol |
| BAU | Busnes Fel Arfer |
| CaRR | Cofrestr Cymunedau mewn Perygl |
| CSC | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| FAS | Cynllun Lliniaru Llifogydd |
| FRM | Rheoli Perygl Llifogydd |
| FRA | Ardal Risg Llifogydd |
| FRMP | Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd |
| GIS | System Gwybodaeth Ddaearyddol |
| CDLl | Cynllun Datblygu Lleol |
| LFRMS | Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd |
| LLFA | Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol |
| GNLl | Gwarchodfa Natur Leol |
| NFM | Rheoli Llifogydd Naturiol |
| GNC | Gwarchodfa Natur Genedlaethol |
| CNC | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| PLP | Diogelu Lefel Eiddo |
| ABA | Ardal Basn Afon |
| ACA | Ardal Cadwraeth Arbennig |
| HC | Heneb Gofrestredig |
| SFCA | Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd |
| SoDdCN | Safle o Ddiddordeb ar gyfer Cadwraeth Natur |
| AGA | Ardal Gwarchodaeth Arbennig |
| SoDdGA | Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig |
| SDCau | Systemau Draenio Cynaliadwy |
| LlC | Llywodraeth Cymru |

## Diffiniadau

| Gair | Ystyr |
|---|---|
| Tebygolrwydd Gormodiant Blynyddol | Defnyddir Tebygolrwydd Gormodiant Blynyddol i ddisgrifio pa mor debygol ydyw y bydd digwyddiad penodol yn digwydd yn ystod blwyddyn benodol. |
| Cofrestr Cymunedau mewn Perygl (CaRR) | Cronfa ddata i ddarparu dull gwrthrychol o nodi risg a blaenoriaethu gweithgareddau rheoli perygl llifogydd ar lefel gymunedol Cymru gyfan. |
| Perygl llifogydd afonol | Y perygl llifogydd o'r prif afonydd. |
| Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol (LLFA) | Cynghorau sir ac awdurdodau unedol sy'n arwain wrth reoli perygl llifogydd lleol. |
| Prif afon | Nant neu afon fwy fel arfer, a ddiffinnir yn y gyfraith fel y dangosir ar Fap Prif Afon. Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru gyfrifoldeb a phwerau i reoli perygl llifogydd ar y rhain yng Nghymru. |
| Cwrs dŵr cyffredin | Cwrs dŵr nad yw'n rhan o brif afon e.e. nentydd. |
| Perygl llifogydd glawog | Y perygl llifogydd o ddŵr wyneb a chyrsiau dŵr cyffredin. |
| Ardal Basn Afon (ABA) | Mae CSC wedi diffinio 7 Ardal Basn Afon ledled y sir ar sail prif ddalgylchoedd afonydd. Diffinnir y rhain yn y Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd. |
| Dalgylchoedd Afonydd | Mae CSC wedi diffinio 7 dalgylch allweddol yn y sir fel y'u diffinnir yn y Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd. |
| Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau) | Systemau sydd wedi eu cynllunio i reoli dŵr storm yn lleol drwy ddynwared prosesau a phatrymau draenio naturiol. |

# 1 Crynodeb Gweithredol

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi drafftio Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd 2024-2030 sy'n nodi'r amcanion a'r dull strategol ar gyfer sut y bydd perygl llifogydd yn cael ei reoli ledled y sir. Mae'r Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd hwn wedi ei ddatblygu i weithredu'r Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ar lefel leol drwy nodi cymunedau sydd â'r perygl llifogydd uchaf yn gyntaf ac yn ail, nodi ymyriadau addas i leihau'r perygl llifogydd hwn yn y cymunedau a nodir.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi nodi 28 o gymunedau blaenoriaeth sydd mewn perygl uchel o lifogydd o ffynonellau afonol neu ffynonellau glawog—mewn rhai achosion, mae perygl o lifogydd afonol (afonydd a nentydd) a llifogydd glawog (dŵr wyneb). Mae cynrychiolaeth gymharol gyfartal o gymunedau o bob un o'r saith Ardal Basn Afon fel y'u diffinnir yn y LFRMS a gynhwysir ar y rhestr o gymunedau blaenoriaeth. Mae nodi'r cymunedau sydd â'r perygl mwyaf ym mhob Ardal Basn Afon yn caniatáu i Gyngor Sir Caerfyrddin ganolbwyntio adnoddau mewn modd effeithiol ac effeithlon, gan sicrhau bod perygl llifogydd ledled y sir yn cael ei reoli lle mae'r angen mwyaf.

# 2 Cyflwyniad

## 2.1 Beth yw Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd?

Fel yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol, mae Cyngor Sir Caerfyrddin (CSC) wedi llunio Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd (LFRMS) sy'n nodi ffynonellau perygl llifogydd lleol (hy dŵr wyneb, dŵr daear a chyrsiau dŵr cyffredin) ac yn gosod amcanion strategol ar gyfer rheoli'r ffynonellau lleol hynny o berygl llifogydd ledled y sir. Nodir dull ac amcanion yr LFRMS yn unol ag amcanion cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn ei Strategaeth Genedlaethol ar gyfer rheoli perygl llifogydd ledled Cymru.

Datblygwyd y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd (FRMP) hwn er mwyn gweithredu amcanion strategol yr LFRMS ar lefel gymunedol, drwy gamau gweithredu lleol sydd â'r nod o leihau'r perygl llifogydd i bobl a chymunedau. Gall camau gweithredu i reoli perygl llifogydd gynnwys lleihau'r tebygolrwydd o lifogydd, yr effeithiau pan fo llifogydd yn digwydd, neu gyfuniad o'r ddau.

## 2.2 Amcanion


Amcanion yr FRMP hwn yw:

- Nodi a blaenoriaethu'r cymunedau ledled Sir Gaerfyrddin sydd â'r perygl llifogydd afonol neu lawog (cyrsiau dŵr cyffredin a dŵr wyneb) mwyaf.
- Datblygu rhestr o gamau gweithredu penodol i reoli'r perygl llifogydd a gwella lefelau cadernid pob cymuned â blaenoriaeth a nodir.

## 2.3 Diben yr FRMP

Diben yr FRMP hwn yw nodi'r cymunedau sydd â'r perygl llifogydd afonol a glawog mwyaf ledled Sir Gaerfyrddin. Cyfeirir at y cymunedau hyn fel "cymunedau blaenoriaeth". Mae'r FRMP yn argymell camau gweithredu i reoli'r perygl llifogydd ar gyfer pob cymuned â blaenoriaeth. Nod y camau arfaethedig yw lleihau'r tebygolrwydd o lifogydd, lleihau canlyniadau llifogydd neu gyfuniad o'r ddau a gwella cydnerthedd y gymuned â blaenoriaeth i lifogydd. Mae rhai cymunedau hefyd mewn perygl o lifogydd o ddŵr daear a phan fo hyn yn hysbys, cyfeirir ato yn y ddogfen hon.

Mae cyfanswm o 28 o gymunedau blaenoriaeth ledled y sir sydd wedi eu nodi gyda chynrychiolaeth gymharol gyfartal o bob un o'r saith Ardal Basn Afon fel y'u diffinnir yn yr LFRMS. Rhennir Sir Gaerfyrddin yn saith Ardal Basn Afon yn seiliedig yn fras ar ddalgylchoedd afonydd (gweler Ffigur 2-1).




*Ffigur 2-1 7 Ardal Basn Afon Sir Gaerfyrddin.*

Mae'r FRMP hwn yn canolbwyntio'n enwedig ar ddigwyddiadau sy'n peri risg canolig o lifogydd i bob cymuned a nodir, lle mae siawns o lifogydd rhwng 1% Tebygolrwydd Gormodiant Blynyddol (AEP) a 3.3% AEP yn ystod unrhyw flwyddyn benodol.

## 2.4 Strwythur FRMP

Mae Adran 3 yn manylu ar y fethodoleg a ddefnyddir i nodi, dewis ac asesu'r perygl llifogydd ar draws y cymunedau sydd â'r perygl llifogydd mwyaf yn Sir Gaerfyrddin. Mae Adran 4 i Adran 10 yn archwilio ymhellach y perygl llifogydd ar draws yr 28 o gymunedau a nodir fel y perygl llifogydd afonol a/neu lawog mwyaf. Nodir gwybodaeth mwy lleoledig ynghylch y mathau o berygl llifogydd sy'n bresennol, y derbynyddion perygl llifogydd a'r camau gweithredu a awgrymir i liniaru'r perygl llifogydd ar gyfer pob cymuned yn yr adrannau hyn. Pan fo hynny'n berthnasol, darperir diweddariad byr ar y camau gweithredu Rheoli Perygl Llifogydd (FRM) a nodwyd o'r Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd blaenorol a luniwyd yn 2019 (y cyfeirir ato fel "FRMP-1") ar gyfer pob cymuned. Mae'r adrannau hyn hefyd yn cynnwys nodi Ardaloedd Risg Llifogydd ym mhob cymuned sy'n ardaloedd lleoledig y penderfynir eu bod mewn mwy o berygl.

# 3 Dewis Cymunedau Blaenoriaeth

## 3.1 Ffynonellau Data

At ddibenion nodi'r cymunedau yn Sir Gaerfyrddin sydd â'r perygl llifogydd afonol a glawog mwyaf, rydym wedi defnyddio Cofrestr Cymunedau mewn Perygl (CaRR), wedi ei hategu â data digwyddiadau llifogydd a gofnodwyd, sylwadau cymunedol, a gwybodaeth gan dimau Cyngor Sir Caerfyrddin ac Awdurdodau Rheoli Perygl Llifogydd eraill fel ein prif setiau data.

### 3.1.1 Cofrestr Cymunedau mewn Perygl

Datblygwyd y CaRR, a luniwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn 2013 ac a ddiweddarwyd yn 2019, i ddarparu dull gwrthrychol o nodi risg a blaenoriaethu gweithgareddau rheoli perygl llifogydd ar lefel gymunedol Cymru gyfan.

Mae'r set ddata yn caniatáu i ddosbarthiad perygl llifogydd gael ei feintioli ledled Cymru gan ddefnyddio methodoleg safonol ar draws ffynonellau llifogydd afonol, glawog a llanw i gyfrifo sgôr 'Perygl' damcaniaethol ar gyfer pob cymuned. Mae'r sgôr 'Perygl', sy'n amrywio rhwng 'uchel' ac 'isel', yn caniatáu i risgiau cymharol gael eu meintioli a'u rhestru ar draws cymunedau unigol ledled Sir Gaerfyrddin. Gellir gweld y data a ddarparwyd yn y CaRR ar ystod o raddfeydd gofodol gan gynnwys ar lefel genedlaethol, lefel ABA, ardal awdurdod lleol a lefel gymunedol.

Mae'r CaRR yn cynnwys ffeiliau'r System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) a thaenlen gysylltiedig sy'n darparu (ymhlith gwybodaeth arall) nifer yr eiddo a'r gwasanaethau allweddol sydd mewn perygl o lifogydd afonol, glawog a llanw ar gyfer pob cymuned ledled Cymru ar gyfer amrywiaeth o ddigwyddiadau llifogydd ar wahanol feintiau. Mae taenlen y CaRR yn nodi ac yn rhestru'r risg o lifogydd a gyflwynir ym mhob cymuned ledled Cymru o ran:

- Senario naturiol, 'heb ei hamddiffyn', a
- Senario wedi ei lliniaru (yn seiliedig ar bresenoldeb amddiffynfeydd a/neu systemau rhybudd llifogydd).

Mae'r FRMP yn defnyddio data o'r CaRR mewn cysylltiad â risg 'canolig' sy'n cyfateb i rhwng 1% AEP a 3.3% AEP ac o dan senario 'heb ei hamddiffyn'.

### 3.1.2 Mapiau Perygl Llifogydd Cenedlaethol

Defnyddiwyd graddau llifogydd afonol a glawog a gafwyd o'r Mapiau Perygl Llifogydd Cenedlaethol (y ddau set ddata CNC) i gynorthwyo ymhellach y gwaith o nodi cymunedau mewn perygl. Archwiliwyd y risg o lifogydd afonol a glawog i gymunedau ledled Sir Gaerfyrddin ar lefel risg 'ganolig', sy'n cyfateb i ddigwyddiad rhwng 1% AEP a 3.3% AEP.

Mae'n bwysig pwysleisio bod data a ddefnyddiwyd o set ddata y CaRR yn rhagflaenu'r graddau afonol a glawog a fodelwyd o'r Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd. Er bod y CaRR wedi ei diweddaru ddiwethaf yn 2019, diweddarwyd graddau llifogydd afonol a fodelwyd yn 2023 a diweddarwyd graddau llifogydd glawog yn 2022. Felly, mae rhai achosion lle nad yw eiddo y nodir yn set ddata y CaRR eu bod mewn perygl o lifogydd yn yr 1% AEP nad ydynt o fewn y graddau llifogydd afonol a glawog a fodelwyd.

### 3.1.3 Ardaloedd Basn Afon

Oherwydd demograffeg Sir Gaerfyrddin, sef bod y rhanbarthau deheuol a dwyreiniol yn fwy poblog na gweddill y sir, ystyriwyd y perygl llifogydd ledled Sir Gaerfyrddin ar lefel Ardal Basn yr Afon er mwyn sicrhau bod data yn cael eu dadansoddi mewn modd gwrthrychol yn ddaearyddol a darparu dosbarthiad cyfartal o gymunedau mewn perygl. Mae cyfanswm o saith Ardal Basn yr Afon diffiniedig yn Sir Gaerfyrddin, sef:

- Teifi
- Tywi Uchaf
- Tywi Isaf
- Cymoedd Gorllewinol
- Aman a Llwchwr
- Llanelli, a
- Gwendraeth a Phorth Tywyn.

### 3.1.4 Data Digwyddiadau

Defnyddiwyd data digwyddiadau llifogydd hanesyddol, sef set ddata CSC sy'n cynnwys gwybodaeth hanesyddol am lifogydd a adroddwyd i CSC rhwng 2018 a 2024, i gynorthwyo'r broses o nodi'r 2 gymuned â blaenoriaeth uchaf (cyfeirier at Atodiad A am ragor o wybodaeth am y broses ddethol). Roedd y digwyddiadau llifogydd hyn yn gydnaws â'r categorïau 'mewnol' (digwyddiad llifogydd sy'n digwydd mewn adeilad)

ac 'allanol' (llifogydd mewn gerddi a darn o ddaear/adeiladau sy'n union o amgylch eiddo):

- Preswyl Mewnol
- Amhreswyl Mewnol
- Preswyl Allanol
- Amhreswyl Allanol.

### 3.1.5 Data am Dderbynyddion

Roedd data am dderbynyddion yn ei gwneud yn bosibl i werthuso beth yn benodol sydd mewn perygl o lifogydd ar draws cymunedau blaenoriaeth Sir Gaerfyrddin. Mae'r data am dderbynyddion a gafwyd yn cynnwys:

- Gwarchodfeydd Natur Lleol (GNLl)[1]
- Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (GNC)[2]
- Coetiroedd Hynafol [3]
- Parciau Sirol[4]
- Adeiladau Rhestredig[5]
- Cynlluniau Datblygu Lleol: Safleoedd Preswyl, Sipsiwn a Theithwyr, Cyflogaeth, Parciau Manwerthu, Canol Trefi, Safleoedd Strategol, Defnydd Cymysg a data SFCA ychwanegol.

---

[1] Gwarchodfeydd Natur Lleol, Map Data Cymru. Aed at y wefan drwy: https://mapdata.llyw.cymru/layers/inspire-nrw:NRW_LNR. Cyhoeddwyd y Data ar 24 Gorffennaf 2024

[2] Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, Map Data Cymru. Aed at y wefan drwy: https://mapdata.llyw.cymru/layers/inspire-nrw:NRW_NNR. Cyhoeddwyd y Data ar 28 Tachwedd 2022

[3] Rhestr o Goetiroedd Hynafol 2021, Map Data Cymru. Aed at y wefan drwy: https://mapdata.llyw.cymru/layers/inspire-nrw:NRW_ANCIENT_WOODLAND_INVENTORY_2021

[4] Parciau Cenedlaethol, Map Data Cymru. Aed at y wefan drwy: https://mapdata.llyw.cymru/layers/inspire-nrw:NRW_NATIONAL_PARK. Cyhoeddwyd y Data ar 24 Gorffennaf 2024

[5] Adeiladau Rhestredig. Map Data Cymru. Aed at y wefan drwy: https://mapdata.llyw.cymru/layers/inspire-wg:Cadw_ListedBuildings. Data

Ochr yn ochr â data am y Cynlluniau Datblygu Lleol, defnyddiwyd data am dderbynyddion o Map Data Cymru. Cafwyd data ychwanegol am dderbynyddion o set ddata y CaRR ac fe'u rhestrir isod:

- Gwasanaethau Allweddol/Hanfodol (nifer / n)
- Hyd y Ffyrdd (km)
- Hyd y Rheilffyrdd (km)
- Tir Amaethyddol ($m^2$)
- Cyfrif Amgylcheddol (nifer / n)

Mae set ddata y cyfrif amgylcheddol yn ystyried nifer y derbynyddion amgylcheddol sy'n bresennol mewn ardal benodol. Mae'r derbynyddion hyn fel a ganlyn:

- Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAau)
- Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGAau)
- Safleoedd Ramsar
- Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGAau)
- Safle o Ddiddordeb ar gyfer Cadwraeth Natur (SoDdCNau)
- Parciau a Gerddi Cofrestredig
- Henebion Cofrestredig (HCau)

## 3.2 Canlyniadau Adolygu Data

Yn dilyn y fethodoleg a amlinellir yn Atodiad A, nodwyd y cymunedau yr aseswyd mai nhw yw'r rhai sydd â'r risg uchaf ym mhob ABA. Mae nifer y cymunedau blaenoriaeth a nodwyd yn amrywio fesul ABA oherwydd y lefel wahanol o risg sy'n bresennol ym mhob cymuned. Cyflwynir nifer y cymunedau a nodwyd fesul ABA yn  3-1 a chyflwynir 28 o gymunedau blaenoriaeth a nodwyd yn  3-2.

*Tabl 3-1 Dosbarthiad y cymunedau blaenoriaeth ar draws pob ABA.*

| Ardal Basn Afon (ABA) | Nifer y Cymunedau Blaenoriaeth |
|---|---|
| Gwendraeth Porth Tywyn | 4 |
| Llanelli | 3 |
| Llwchwr Aman | 6 |
| Tywi Isaf | 2 |
| Teifi | 5 |
| Tywi Uchaf | 3 |
| Gorllewinol | 5 |

*Tabl 3-2 Wyth Cymuned Flaenoriaeth ar Hugain yn Sir Gaerfyrddin*

| Ardal Basn Afon | Rhif Adnabod CaRR | Enw y Gymuned | Eiddo mewn perygl (digwyddiad 1% AEP afonol) | Eiddo mewn perygl (digwyddiad 1% AEP glawog) |
|---|---|---|---|---|
| Gwendraeth Porth Tywyn | 4781 | Porth Tywyn | 60 | 100 |
| | 4073 | Glan y Fferi | 41 | 37 |
| | 4436 | Gors-las | 0 | 60 |
| | 4054 | Cydweli | 14 | 49 |
| Llanelli | 4021 | Dafen | 171 | 182 |
| | 4005 | Llanelli | 519 | 380 |
| | 4667 | Llwynhendy | 0 | 84 |
| Llwchwr Aman | 4016 | Rhydaman | 247 | 284 |
| | 4750 | Brynaman | 6 | 92 |
| | 4288 | Cross Hands | 0 | 70 |
| | 4046 | Glanaman | 24 | 91 |
| | 4019 | Llandybïe | 90 | 116 |
| | 4064 | Llangennech | 101 | 67 |
| Tywi Isaf | 4038 | Abergwili | 5 | 5 |
| | 4017 | Caerfyrddin | 23 | 190 |
| Teifi | 4043 | Cwm-ann | 13 | 34 |
| | 4084 | Dre-fach | 19 | 18 |
| | 4033 | Llandysul | 36 | 13 |
| | 4018 | Llanybydder | 7 | 9 |
| | 4066 | Castellnewydd Emlyn | 12 | 52 |
| Tywi Uchaf | 4087 | Llandeilo | 0 | 15 |
| | 4007 | Llanmddyfri | 231 | 14 |
| | 4044 | Llanwrda | 40 | 5 |
| | 4058 | Talacharn | 47 | 14 |
| | 4061 | Llanddowror | 33 | 4 |

| Ardal Basn Afon | Rhif Adnabod CaRR | Enw y Gymuned | Eiddo mewn perygl (digwyddiad 1% AEP afonol) | Eiddo mewn perygl (digwyddiad 1% AEP glawog) |
|---|---|---|---|---|
| Gorllewinol | 4254 | Llansteffan | 16 | 26 |
| | 4049 | Sanclêr | 30 | 17 |
| | 4029 | Hendy-gwyn ar Daf | 145 | 15 |

## 3.3 Camau gweithredu

Ar ôl nodi'r cymunedau blaenoriaeth sydd â'r perygl llifogydd afonol a glawog mwyaf, datblygwyd rhestr o gamau gweithredu i reoli'r perygl llifogydd ar draws pob cymuned flaenoriaeth.

Dosberthir y camau gweithredu a nodwyd yn gamau tymor byr (1–2 flynedd, 2025–2026), tymor canolig (3–5 mlynedd, 2027–2029) a hirdymor (>5 mlynedd, 2029 ymlaen). Cafodd categorïau ariannol y camau gweithredu arfaethedig eu dosbarthu yn gostau isel '£' (£0–10k), yn gostau canolig '££' (£10k–100k), yn gostau canolig i uchel '£££' (£100k–£500) ac yn gostau uchel '££££' (£500k a mwy) gan ystyried rhagolygon cyllideb.

Mae'r camau gweithredu a restrir isod yn cysylltu'r mesurau yn LFRMS Sir Gaerfyrddin (gweler Adran 11 o'r LFRMS).

# 4 Ardal Basn Afon Gwendraeth Porth Tywyn

## 4.1 Porth Tywyn—4781


### 4.1.1 Disgrifiad o'r Ardal Gymunedol

Tref arfordirol a leolir yn ABA Gwendraeth Porth Tywyn, rhwng Caerfyrddin a Llanelli, yw Porth Tywyn (Ffigur 4-1). Yn 2021, cyfanswm y boblogaeth ym Mhen-bre a Phorth Tywyn oedd oddeutu 4,965 o bobl (Cyfrifiad 2021)[6].

Y prif nodweddion hydrolegol yw'r ddau gwrs dŵr cyffredin, Nant Dyfaty a Nant Dwynant. Mae'r ddau yn tarddu ar dir uchel i'r gogledd ac yn disgyn yn sydyn i'r gwastadedd arfordirol. Mae'r cwrs dŵr mwy, Nant Dyfaty, yn elwa o asedau rheoli perygl llifogydd lluosog ac mae ganddo gwlfert ar hyd ei rannau isaf o dan dref Porth Tywyn nes iddo ollwng i'r harbyrau. Mae gan nant Dwynant rai asedau rheoli perygl llifogydd, mae'n rhedeg mewn gerddi preifat am lawer o'i hyd ac yn gollwng i'r gamlas. Mae 1 o bob 59 o bobl mewn perygl o lifogydd afonol ac mae 1 o bob 32 o bobl mewn perygl o lifogydd glawog ym Mhort Tywyn.

Mae'r nodweddion defnydd tir pennaf ym Mhorth Tywyn yn cynnwys ardaloedd preswyl, sefydliadau masnachol, safleoedd diwydiannol, a mannau adloniant, tir fferm bugeiliol a choetir. Mae rhanbarthau mwyaf gogleddol Porth Tywyn yn arddangos nodweddion gwledig, ac mae'r ardaloedd mwyaf deheuol yn arddangos nodweddion trefol. Mae seilwaith sylweddol yn cynnwys gorsaf reilffordd Pen-bre a Phorth Tywyn ac mae'r prif ffyrdd yn cynnwys yr A484 a'r B4311.

[6] Data Cyfrifiad Porth Tywyn. Ar gael yn: Pen-bre a Phorth Tywyn (Community, United Kingdom)—Population Statistics, Charts, Map and Location [Aed at y wefan ym mis Rhagfyr 2024]




*Ffigur 4-1 Ardal Gymunedol Porth Tywyn*

### 4.1.2 Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol

Yn hanesyddol, bu llifogydd sylweddol ym Mhorth Tywyn, gyda'r digwyddiadau gwaethaf ym 1983 a 1995 pan fu llifogydd yn y parc coffa a New Street. Bu llifogydd hanesyddol sylweddol yn Nwynant hefyd, pan gafodd pontydd preifat a chwlferi eu blocio a llifogydd yn yr eiddo ger y cwrs dŵr. Gweithredwyd ymyriadau sylweddol ar ôl y digwyddiadau hyn. Er gwaethaf y nifer uchel o eiddo sydd mewn perygl ym Mhorth Tywyn, ychydig iawn o ddigwyddiadau llifogydd eiddo mewnol ac allanol sydd a adroddwyd i CSC. Mae Tabl 4-1 isod yn pwysleisio mai dim ond 23 o ddigwyddiadau a adroddwyd rhwng 2018–2024, sy'n is na'r cyfartaledd a adroddir o'i gymharu â'r 27 o ardaloedd blaenoriaeth risg uchel eraill. Mae DCWW wedi cadarnhau bod 94 o ddigwyddiadau llifogydd wedi eu hadrodd iddo yn ystod yr un cyfnod, a bod 7 digwyddiad allanol wedi eu hadrodd i CNC.

*Tabl 4-1 Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol ym Mhorth Tywyn*

| Math o Ddigwyddiad | Nifer yr Achlysuron | Digwyddiadau a adroddwyd i sefydliadau partner |
|---|---|---|
| Amhreswyl Allanol | 1 | - |
| Preswyl Allanol | 13 | 101 |
| Amhreswyl Mewnol | 1 | - |
| Preswyl Mewnol | 8 | - |

### 4.1.3 Perygl Llifogydd mewn Ardal Gymunedol

Cyflwynir data sy'n ymwneud â nifer yr eiddo sydd mewn perygl o lifogydd afonol neu lawog ledled ardal gymunedol Porth Tywyn isod yn 4-2. Mae eiddo ledled Porth Tywyn mewn mwy o berygl llifogydd glawog (gan gynnwys y risg o nant Dwynant) na llifogydd afonol.

Gan fod eiddo ledled Porth Tywyn mewn mwy o berygl o lifogydd glawog, bydd y perygl o lifogydd yn cael ei reoli gan CSC, sef yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol (LLFA), yn gweithio mewn partneriaeth â DCWW sy'n derbyn y mwyafrif o'r adroddiadau am ddigwyddiadau.

*Tabl 4-2 Cyfanswm y Cyfeiriadau sydd mewn Perygl o Lifogydd Glawog ac Afonol ym Mhorth Tywyn*[7]

| Math o Lifogydd | Nifer yr Eiddo sydd mewn Perygl |
|---|---|
| Llifogydd Glawog | 100 |
| Llifogydd Afonol | 60 |

Dangosir bod Heol Gwscwm (yr A484) mewn perygl o lifogydd glawog a bod cylchfannau i'r de o Ben-bre a Gorsaf Porth Tywyn mewn perygl o lifogydd afonol. Dangosir bod ardaloedd rhwng New Street a'r Parc Coffa yn ogystal â Chanol Tref Porth Tywyn hefyd mewn perygl o lifogydd afonol. Cyflwyna Tabl 4-3 ragor o wybodaeth am dderbynyddion sy'n bresennol ym Mhorth Tywyn sydd mewn perygl o lifogydd.

[7] Cofrestr Cymunedau mewn Perygl 2019 (CaRR) CNC, Ar gael yn: https://mapdata.llyw.cymru/layergroups/geonode:nrw_communities_at_risk_register

*Tabl 4-3 Derbynyddion ym Mhorth Tywyn*

| Derbynnydd | Perygl Afonol | Perygl Glawog |
|---|---|---|
| Hyd y Ffyrdd (km) | 1196 | 1207 |
| Hyd y Rheilffyrdd (km) | 0 | 4 |
| Amgylcheddol (n) | 4 | 4 |
| Tir Amaethyddol ($m^2$) | 39232 | 23032 |
| Eiddo Preswyl | 56 | 98 |
| Eiddo Amhreswyl | 4 | 2 |
| Canol y Dref | Canol Tref Porth Tywyn | |
| Safleoedd SFCA Ychwanegol | 1 | 0 |
| Defnydd Cymysg | 2 | 0 |
| Adeiladau Rhestredig (n) | 7* | |
| **Mae'r cyfrif yma yn archwilio nifer yr adeiladau rhestredig sy'n bresennol ledled yr ardal gymunedol y nodwyd eu bod yn ardal risg uchel. Nid yw'r cyfrif yn awgrymu bod cyfanswm yr adeiladau mewn perygl o lifogydd afonol a llifogydd glawog—ond yn hytrach eu bod mewn perygl cyffredinol o lifogydd.* | | |

### 4.1.4 Gwaith FRM yn yr ardal ers FRMP-1

Cyflwynir gwaith FRM a wnaed ym Mhorth Tywyn ers FRMP-1 isod yn 4-4.

*Tabl 4-4 Gwaith FRM a wnaed ym Mhorth Tywyn ers FRMP-1 CSC.*

| Ardal Benodol (Ardal Uned Bolisi) | Camau Gweithredu FRM (FRMP-1) | Cynnydd |
|---|---|---|
| Heol y Gors | Bydd CSC yn parhau i fonitro'r ardal ac ymchwilio i achosion o lifogydd. | Ar y Gweill |
| New Street | Cwlfert heb silt islaw'r Parc Coffa. | Cwblhawyd |
| | Gwerthuso dewisiadau ar gyfer rheoli rhywogaethau goresgynnol ar hyd Nant Dyfaty. | Ar y Gweill |
| Ffwrnais | Cynnal arolwg camera teledu cylch cyfyng. Bydd unrhyw ddiffygion strwythurol neu wasanaeth yn cael eu gweithredu ar sail risg. | Cwblhawyd |


### 4.1.5 Ardaloedd Risg Llifogydd

***Disgrifiad o'r Ardal***

Prif ardal drefol Porth Tywyn sydd â'r perygl mwyaf fel y dangosir yn Ffigur 4-2. Daw'r prif risgiau o Nant Dyfaty yn y dwyrain a nant Dwynant yn y gorllewin. Mae gennym fannau isel lleol hefyd lle mae mwy o berygl llifogydd glawog. Cysylltiadau trafnidiaeth allweddol, gan gynnwys rheilffordd Prif Linell De Cymru a leolir ar hyd rhan ddeheuol yr ardal a ffordd yr A484 a leolir ar hyd ffin ogleddol yr ardal. Ceir gwybodaeth mwy penodol am y perygl llifogydd yn yr ardal hon yn 4-5.

***Gwaith Amddiffyn rhag Llifogydd***

Cyn ac yn ystod FRMP-1, mae adnoddau wedi eu buddsoddi er mwyn rheoli perygl llifogydd ym Mhorth Tywyn. Nid oes unrhyw gynlluniau ar y gweill yn yr ardal hon ar hyn o bryd, ond mae telemetreg wedi ei gosod yn rhai o'n hasedau i'n helpu i'w monitro a'u rheoli.




*Ffigur 4-2 Ardal Risg Llifogydd 4781-A*

*Tabl 4-5 Crynodeb o Ardaloedd Risg Llifogydd Porth Tywyn*

| Ardal Risg Llifogydd | Gwybodaeth am Amddiffynfeydd rhag Llifogydd ac Asedau | Cyfeiriadau mewn Perygl | Derbynyddion Allweddol | Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol | Partneriaid FRM Allweddol | Ymgysylltu â'r Gymuned |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4781-A | • FRM Da<br>• Priffyrdd—A484 gwael a cheunentydd yn unig<br>• Prif asedau FRM: Grid Pemberton Arms (sgrin brigau mwyaf CSC), Sgrin Brigau Dwynant Sgrin Brigau y Parc Coffa a chwlferi gorlifo Bwnd llifogydd y Parc Coffa | Afonol: 60<br>Glawog: 100 | • Gorsaf Rheilffordd Pen-bre a Phorth Tywyn<br>• Ysgolion x 3 (Ysgol Gynradd Gymunedol Porth Tywyn; Ysgol Glan-y-Môr; Ysgol Parc-y-Tywyn)<br>• Ffordd (gan gynnwys yr A484 Heol Gwscwm)<br>• Ystad Ddiwydiannol<br>• Canol y Dref<br>• Harbwr Pen-bre<br>• Parc Gwyliau (Parc Carafanau Shoreline) | Digwyddiadau arwyddocaol 1983 a 1995 | • DCWW<br>• CNC<br>• Tirfeddianwyr Lleol<br>• Llywodraeth Cymru<br>• Tîm Adfywio<br>• Priffyrdd/Parciau<br>• Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt/Cadwraeth<br>• Cynghorau cymuned | Dymunol (hirdymor/tymor canolig) |

### 4.1.6 Camau Gweithredu a Nodiwyd

Ar ôl nodi'r perygl llifogydd yng nghymuned Porth Tywyn, datblygwyd rhestr o gamau gweithredu ac ymyriadau isod yn 4-6 i reoli'r perygl llifogydd.

*Tabl 4-6 Rhestr Hir o Gamau Gweithredu Posibl ym Mhorth Tywyn*

| Ardal | Camau Gweithredu Posibl | Math o Weithred | Disgrifiad | Cwblhawyd / Tymor Byr / Canolig / Hirdymor | Amcangyfrif o'r Costau |
|---|---|---|---|---|---|
| 4781 | Rheoli Llifogydd Naturiol (NFM) | Atal | Gallai technegau NFM yn nalgylchoedd Nant Dyfaty Uchaf a Nant Dwynant leihau'r llif brig a'r pwysau i lawr yr afon.<br>Gallai ailgysylltu gorlifdir/ardaloedd storio yn y dref leihau llifogydd. | Tymor canolig i hirdymor, gan ddibynnu ar gyllid | £££ |
| | Rheoli a Chynnal a Chadw Asedau | Atal | Gwella gwybodaeth am asedau draenio tanddaearol a draenio ffyrdd. | Tymor canolig i hirdymor | ££ |
| | Cynlluniau Lliniaru Llifogydd ar Raddfa Dalgylch | Diogelu | Gan fod dalgylchoedd cymharol fach yn cyfrannu at y perygl llifogydd yn y peilot cymunedol hwn ar raddfa dalgylch, gallai Cynllun Lliniaru Llifogydd sy'n canolbwyntio ar fesurau NFM fod yn briodol. | Canolig i hirdymor | £££ |


## 4.2 Glan y Fferi—4073

### 4.2.1 Disgrifiad o'r Ardal Gymunedol

Pentref arfordirol a leolir yn ABA Gwendraeth Porth Tywyn, ar hyd Bae Caerfyrddin, yw Glan y Fferi (Ffigur 4-3). Yn 2021, oddeutu 861 o bobl oedd cyfanswm poblogaeth Glan y Fferi[8].

Lleolir Glan y Fferi wrth aber Afon Tywi, sef y brif nodwedd hydrolegol yn yr ardal sy'n llifo i Aber Afon Tywi. Mae 1 o bob 7 o bobl mewn perygl o lifogydd afonol ac mae 1 o bob 11 o bobl mewn perygl o lifogydd glawog yng Nglan y Fferi.

Mae'r nodweddion defnydd tir pennaf yn cynnwys cymysgedd o ardaloedd preswyl, tir amaethyddol a chorsydd arfordirol. Mae seilwaith arwyddocaol yn cynnwys Gorsaf Reilffordd Glan y Fferi.




*Ffigur 4-3 Ardal Gymunedol Glan y Fferi*

---

[8] Data Cyfrifiad Glan y Fferi [Glan y Fferi (Sir Gaerfyrddin, Cymru, Y Deyrnas Unedig)—Ystadegau Poblogaeth, Siartiau, Map, Lleoliad, Tywydd a Gwybodaeth am y We (citypopulation.de)]

### 4.2.2 Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol

Bu llifogydd sylweddol yng Nglan y Fferi yn hanesyddol, ac ym 1979 yr oedd y digwyddiad gwaethaf. Yn fwy diweddar ar 30 Rhagfyr 2023 a 2 Ionawr 2024, achosodd Stormydd Gerrit a Henk lifogydd mewn nifer cymharol bach o eiddo yn fewnol, ond llifogydd allanol a llifogydd seilwaith sylweddol i'r pentref.

Er gwaethaf y nifer uchel o eiddo sydd mewn perygl yng Nglan y Fferi, nifer cymharol isel o ddigwyddiadau llifogydd eiddo mewnol ac allanol sydd wedi eu hadrodd i CSC yn hanesyddol. Mae gwaith dros y blynyddoedd diwethaf wedi gwneud gwahaniaeth ac fel y pwysleisia Tabl 4-7 isod. Adroddwyd 45 o ddigwyddiadau rhwng 2018 a 2024, sydd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd a adroddwyd, o'u cymharu â'r 27 o ardaloedd blaenoriaeth risg uchel eraill.

Yn ystod digwyddiadau llifogydd Storm Gerit a Henk, rydym yn ymwybodol bod DCWW wedi cael y mwyafrif o'r adroddiadau llifogydd oherwydd bod ganddo weithredwyr a cherbydau bathodyn ar y safle a bod y cyhoedd wedi tybio'n anghywir mai ef oedd y sefydliad arweiniol. Mae DCWW wedi cadarnhau ei fod wedi cael 30 o adroddiadau llifogydd, mae'r Awdurdod Priffyrdd wedi cael 11 o adroddiadau ac mae CNC wedi cofnodi 8 adroddiad llifogydd yn ystod yr un cyfnod.

*Tabl 4-7 Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol yng Nglan y Fferi*

| Math o Ddigwyddiad | Nifer yr Achlysuron | Digwyddiadau a Adroddwyd i sefydliadau partner |
|---|---|---|
| Amhreswyl Allanol | 6 | - |
| Preswyl Allanol | 25 | 37 |
| Amhreswyl Mewnol | 0 | 11 |
| Preswyl Mewnol | 14 | 1 |

### 4.2.3 Perygl Llifogydd mewn Ardal Gymunedol

Cyflwynir data sy'n ymwneud â nifer yr eiddo sydd mewn perygl o lifogydd afonol neu lawog ledled Glan y Fferi isod yn  4-8. Mae eiddo ledled Glan y Fferi mewn ychydig mwy o berygl llifogydd afonol na llifogydd glawog. Y brif afon i'r dwyrain o'r pentref syn peri'r risg fwyaf i'r gymuned. Gan fod yr eiddo yng Nglan y Fferi mewn mwy o berygl llifogydd afonol, bydd CNC yn sbarduno'r gwaith o liniaru'r perygl llifogydd, ond dilynir dull partneriaeth gyda CNC yn arwain y gwaith o reoli'r perygl llifogydd yng ngogledd y pentref a DCWW a CSC yn rheoli'r perygl glawog ledled yr ardal.

*Tabl 4-8 Cyfanswm y Cyfeiriadau sydd mewn Perygl o Lifogydd Glawog ac Afonol yng Nglan y Fferi*

| Math o Lifogydd | Nifer yr Eiddo sydd mewn Perygl |
|---|---|
| Llifogydd Glawog | 37 |
| Llifogydd Afonol | 41 |

Dangosir bod perygl llifogydd glawog mewn rhannau o Ffordd y Porth a bod perygl llifogydd afonol yn Heol Caerfyrddin. Dangosir bod perygl llifogydd afonol yng nghanolfan gymunedol Calon y Fferi hefyd. Cyflwyna Tabl 4-9 ragor o wybodaeth am dderbynyddion sy'n bresennol yng Nglan y Fferi sydd mewn perygl o lifogydd.

*Tabl 4-9 Derbynyddion yng Nglan y Fferi*

| Derbynnydd | Perygl Afonol | Perygl Glawog |
|---|---|---|
| Hyd y Ffyrdd (km) | 2189 | 1759 |
| Hyd y Rheilffyrdd (km) | 0 | 191 |
| Amgylcheddol (n) | 4 | 10 |
| Tir Amaethyddol ($m^2$) | 75880 | 67700 |
| Eiddo Preswyl | 39 | 33 |
| Eiddo Amhreswyl | 2 | 4 |
| Gwasanaethau Allweddol (n) | 1 | 2 |
| Adeiladau Rhestredig (n) | 6* | |

**Mae'r cyfrif yma yn archwilio nifer yr adeiladau rhestredig sy'n bresennol ledled yr ardal gymunedol y nodwyd eu bod yn ardal risg uchel. Nid yw'r cyfrif yn awgrymu bod cyfanswm yr adeiladau mewn perygl o lifogydd afonol a llifogydd glawog—ond yn hytrach eu bod mewn perygl cyffredinol o lifogydd.*

### 4.2.4 Gwaith FRM yn yr ardal ers FRMP-1

Cyflwynir gwaith FRM a wnaed yng Nglan y Fferi ers FRMP-1 isod yn 4-10.

*Tabl 4-10 Gwaith FRM a wnaed yng Nglan y Fferi ers FRMP-1 CSC.*

| Ardal Benodol/Ardal Uned Bolisi | Camau Gweithredu FRM (FRMP-1) | Cynnydd |
|---|---|---|
| Gogledd Glan y Fferi | O ystyried y cymhlethdodau yn y lleoliad hwn, roedd angen trafodaeth gyda CNC a'r gymuned leol ynghylch y posibilrwydd o reoli llifogydd. | Ar y Gweill |
| De Glan y Fferi | Gwerthuso'r rhinweddau o ran gwella'r ollyngfa i 1,904 o dai er mwyn atal ôl-lifiad a rhwystrau (Cynllun Cyfalaf 2022/23). | Cwblhawyd |

| Ardal Benodol/Ardal Uned Bolisi | Camau Gweithredu FRM (FRMP-1) | Cynnydd |
|---|---|---|
| | Cynnal arolwg camera cylch cyfyng, bydd unrhyw ddiffygion strwythurol neu wasanaeth yn cael eu gweithredu ar sail risg. | Cwblhawyd |

### 4.2.5 Ardaloedd Risg Llifogydd

Yr ardal a amlygir yn Ffigur 4-4 yw'r ardal â'r perygl llifogydd uchaf yng Nglan y Fferi. Mae de y pentref mewn perygl llifogydd glawog yn bennaf, ac mae'r gogledd mewn perygl o brif afon Cwm Mill i'r gogledd. Er ei fod yn amddiffyn y pentref rhag llifogydd llanw, mae arglawdd y rheilffordd hefyd yn atal dyfroedd afonol a glawog rhag dianc. Gollyngir y dyfroedd hyn, sy'n llifo i mewn i'r pentref i lawr bryniau a chanddynt ochrau serth i'r dwyrain, drwy nifer bach o gwlferi o dan arglawdd y rheilffordd. Nid oedd y cwlferi hanesyddol hyn wedi eu cynllunio i ollwng y cyfeintiau o ddŵr wyneb a welwn yn llifo i'r pentref heddiw. Ceir gwybodaeth mwy penodol am y perygl llifogydd yn yr ardal hon yn  4-11.

#### *4.2.5.1 Ardal 4073-A*

***Disgrifiad o'r Ardal***


Yr ardal a amlygir yn Ffigur 4-4 yw'r ardal â'r perygl llifogydd uchaf yng Nglan y Fferi. Mae de y pentref mewn perygl llifogydd glawog yn bennaf, ac mae'r gogledd mewn perygl o brif afon Cwm Mill i'r gogledd. Er ei fod yn amddiffyn y pentref rhag llifogydd llanw, mae arglawdd y rheilffordd hefyd yn atal dyfroedd afonol a glawog rhag dianc. Gollyngir y dyfroedd hyn, sy'n llifo i mewn i'r pentref i lawr bryniau a chanddynt ochrau serth i'r dwyrain, drwy nifer bach o gwlferi o dan arglawdd y rheilffordd. Nid oedd y cwlferi hanesyddol hyn wedi eu cynllunio i ollwng y cyfeintiau o ddŵr wyneb a welwn yn llifo i'r pentref heddiw. Ceir gwybodaeth mwy penodol am y perygl llifogydd yn yr ardal hon yn  4-11.

***Gwaith Amddiffyn rhag Llifogydd***

Mae'r prif waith amddiffyn rhag llifogydd a wneir yng Nglan y Fferi yn cynnwys:

- 2022—Atgyweiriadau i ollyngfa y 1,904.
- 2024—Arolwg teledu cylch cyfyng o'r asedau draenio.

- 2024—Gwaith partneriaeth gyda DCWW.
- 2024—CNC i gael gwared ar grynhoad wrth y brif afon yng ngogledd y pentref.
- 2024—Datblygu uwchgynllun draenio gyda DCWW (ar y gweill).




*Ffigur 4-4 Ardal Risg Llifogydd 4073-A*

*Tabl 4-11 Crynodeb o Ardaloedd Risg Llifogydd Glan y Fferi*

| Ardal Risg Llifogydd | Gwybodaeth am Amddiffynfeydd rhag Llifogydd ac Asedau | Cyfeiriadau mewn Perygl | Derbynyddion Allweddol | Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol | Partneriaid FRM Allweddol | Ymgysylltu â'r Gymuned |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4073-A | • Gollyngfa y 1,904<br>• Rhediadau draenio<br>• Gwybodaeth rhwng cyfartalog a da | • Afonol: 63<br>• Glawog: 56 | • Gorsaf drenau Glan y Fferi<br>• Ysgol Gynradd Glan y Fferi | • Ionawr 2024 | • DCWW<br>• CNC<br>• Llywodraeth Cymru<br>• Tîm Adfywio CSC<br>• Tirfeddianwyr<br>• Priffyrdd/Parciau CSC | • Cwblhawyd yn ddiweddar ym mis Ionawr 2024—mae angen gwneud cynnydd eto yn y tymor byr |

### 4.2.6 Camau Gweithredu a Nodiwyd

Ar ôl nodi'r perygl llifogydd yng nghymuned Glan y Fferi, datblygwyd rhestr o gamau gweithredu ac ymyriadau isod yn 4-12 i reoli'r perygl llifogydd.

*Tabl 4-12 Rhestr Hir o Gamau Gweithredu Posibl yng Nglan y Fferi*

| Ardal | Camau Gweithredu Posibl | Math o Weithred | Disgrifiad | Cwblhawyd / Tymor Byr / Canolig / Hirdymor | Amcangyfrif o'r Gost |
|---|---|---|---|---|---|
| Y Gymuned Gyfan | Rheoli a Chynnal a Chadw Asedau | Atal | Arolygon draenio â theledu cylch cyfyng. | Byr | ££ |
| | Gweithio mewn Partneriaeth | Adolygu | Gweithio gyda DCWW i ddatblygu uwchgynllun draenio. | Byr | £ |
| | Gweithio mewn Partneriaeth | Adolygu | Cefnogi CNC a phwysleisio'r perygl o Nant Cwm Mill (mae Nant Cwm Mill yn brif afon a CNC sydd â'r pwerau deddfwriaethol ar gyfer rheoli a chyllid). | Byr | £ |
| | Gwaith Cymunedol | Parodrwydd | Parhau â'n gwaith ymgysylltu cymunedol ac addysgu am risg ac ymyriadau | Byr | £ |
| | Gweithio mewn Partneriaeth | Adolygu | Ceisio cyllid grant gan LlC er mwyn gwerthuso'r perygl llifogydd ymhellach ac edrych ar ddewisiadau ar gyfer ymyriadau i reoli'r risg drwy achos busnes. | Canolig | £££ |
| 4073 | Rheoli Llifogydd Naturiol | Atal | Gallai technegau NFM mewn dalgylchoedd i fyny'r afon leihau'r llif brig a'r pwysau i lawr yr afon. | Canolig | £££ |
| | Rheoli a Chynnal a Chadw Asedau | Atal | Gwerthuso gollyngfa y 1,904 eto oherwydd cynnydd mewn llifogydd priffyrdd. Ymchwilio a ellid gwella capasiti hyn. | Ar y Gweill | ££ |
| | Diogelu Lefel Eiddo | Diogelu | Gweithredu Diogelwch ar Lefel Eiddo (Os oes cyllid ar gael). | Canolig | Os oes cyllid ar gael |

## 4.3 Gors-las—4436


### 4.3.1 Disgrifiad o'r Ardal Gymunedol

Pentref a leolir yn ABA Gwendraeth Porth Tywyn yw Gors-las (Ffigur 4-5). Yn 2021, oddeutu 5,085 o bobl oedd cyfanswm poblogaeth Gors-las.[9]

Gwendraeth Fawr yw'r brif nodwedd hydrolegol yn y gymuned ac mae rhannau uchaf un o brif afonydd Sir Gaerfyrddin dros 160m (500 troedfedd) uwchben lefel y môr ac felly mae'n un o'n hardaloedd gwlypaf yn y sir. Er bod y perygl llifogydd afonol yn isel, mae 1 o bob 31 o bobl mewn perygl o lifogydd glawog yng Ngors-las.

Hen ardal glofaol oedd Gors-las, gyda defnyddiau tir eraill gan gynnwys pori garw/amaethyddiaeth bugeiliol. Ar hyn o bryd, mae'r defnyddiau tir pennaf yn cynnwys ardaloedd preswyl ac amwynder a chymysgedd o ardaloedd gwledig gan gynnwys tir amaethyddol a darnau bach o goetir. Bu datblygiad seilwaith priffyrdd sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys uwchraddio'r A48, yr A476, y B4556 a'r B4297 a'u cwmpasoedd.

[9] Data Cyfrifiad Gors-las Gors-las (Community, United Kingdom)—Population Statistics, Charts, Map and Location (citypopulation.de)




*Ffigur 4-5 Ardal Gymunedol Gors-las*

### 4.3.2 Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol

Yn hanesyddol, nid ydym yn ymwybodol o unrhyw ddigwyddiadau llifogydd sylweddol yng Ngors-las. Rydym yn ymwybodol bod dŵr daear a ffynhonnau yn achosi problemau yn Heol y Llew Du ac o amgylch Heol yr Eglwys.

Er gwaethaf y nifer uchel o eiddo sydd mewn perygl yng Ngors-las, ychydig iawn o ddigwyddiadau llifogydd eiddo mewnol ac allanol a adroddwyd i CSC yn hanesyddol. Mae Tabl 4-13 isod yn pwysleisio, mai dim ond 21 o ddigwyddiadau a adroddwyd rhwng 2018–2024, sy’n uwch na’r cyfartaledd a adroddir o’i gymharu â’r 27 o ardaloedd blaenoriaeth risg uchel eraill.

Dim ond un digwyddiad llifogydd y mae’r Awdurdod Priffyrdd wedi ei gofnodi yn yr ardal hon ac mae DCWW wedi cofnodi 3 digwyddiad llifogydd.

*Tabl 4-13 Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol yng Ngors-las*

| Math o Ddigwyddiad | Nifer yr Achlysuron | Digwyddiadau a adroddwyd i sefydliadau partner |
|---|---|---|
| Amhreswyl Allanol | 5 | 1 |
| Preswyl Allanol | 10 | 3 |
| Amhreswyl Mewnol | 0 | - |
| Preswyl Mewnol | 6 | - |

### 4.3.3 Perygl Llifogydd mewn Ardal Gymunedol

Cyflwynir data sy'n ymwneud â nifer yr eiddo sydd mewn perygl o lifogydd afonol neu lawog ledled Gors-las isod yn 4-14. Gan fod eiddo ledled Gors-las mewn mwy o berygl llifogydd glawog na llifogydd afonol, bydd CSC yn rheoli'r perygl llifogydd, gan weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid eraill.

*Tabl 4-14 Cyfanswm y Cyfeiriadau sydd mewn Perygl o Lifogydd Glawog ac Afonol yng Ngors-las*

| Math o Lifogydd | Nifer yr Eiddo sydd mewn Perygl |
|---|---|
| Llifogydd Glawog | 60 |
| Llifogydd Afonol | 0 |

Dangosir bod rhannau o Heol Pen-y-groes (B4556), Heol Llandeilo a Heol Cefneithin mewn perygl llifogydd glawog. Cyflwyna Tabl 4-15 ragor o wybodaeth am dderbynyddion sy'n bresennol yng Ngorslas sydd mewn perygl o lifogydd.

*Tabl 4-15 Derbynyddion yng Ngors-las*

| Derbynnydd | Perygl Afonol | Perygl Glawog |
|---|---|---|
| Hyd y Ffyrdd (km) | 0 | 1118 |
| Hyd y Rheilffyrdd (km) | 0 | 0 |
| Amgylcheddol (n) | 0 | 2 |
| Tir Amaethyddol ($m^2$) | 0 | 101616 |
| Eiddo Preswyl | 0 | 54 |
| Eiddo Amhreswyl | 0 | 6 |
| Gwasanaethau Allweddol (n) | 0 | 2 |
| Safleoedd SFCA Ychwanegol | 0 | 2 |
| Dyraniad Preswyl | 0 | 3 |
| Ardaloedd Cyflogaeth Arfaethedig | 0 | 1 |
| Adeiladau Rhestredig | 0* | |

| Derbynnydd | Perygl Afonol | Perygl Glawog |
|---|---|---|
| *Mae'r cyfrif yma yn archwilio nifer yr adeiladau rhestredig sy'n bresennol ledled yr ardal gymunedol y nodwyd eu bod yn ardal risg uchel. Nid yw'r cyfrif yn awgrymu bod cyfanswm yr adeiladau mewn perygl o lifogydd afonol a llifogydd glawog—ond yn hytrach eu bod mewn perygl cyffredinol o lifogydd. | | |

### 4.3.4 Gwaith FRM yn yr ardal ers FRMP-1

Cyflwynir gwaith FRM a wnaed yng Ngors-las ers FRMP-1 isod yn  4-16.

*Tabl 4-16 Gwaith FRM a wnaed yng Ngors-las ers FRMP-1 CSC.*

| Ardal Benodol/Ardal Uned Bolisi | Camau Gweithredu FRM (FRMP-1) | Cynnydd |
|---|---|---|
| Sgwâr Gors-las | Bydd CSC yn parhau i fonitro'r cwlfert ac yn cynnal arolwg o'r seilwaith lleol â chamerâu teledu cylch cyfyng. Bydd unrhyw ddiffygion strwythurol neu wasanaeth yn cael eu gweithredu ar sail risg. | Ar y Gweill |

### 4.3.5 Ardaloedd Risg Llifogydd

Mae un ardal risg llifogydd a nodwyd yng Ngors-las, a labelir fel 4436-A (Ffigur 4-6). Lleolir Ardal 4436-A yn rhanbarth deheuol ardal gymunedol Gors-las. Mewn perygl o lifogydd glawog y mae'r cyfeiriadau a nodwyd yn bennaf. Ceir gwybodaeth mwy penodol am y perygl llifogydd yn yr ardal hon yn Tabl 4-17.


#### 4.3.5.1 4436-A Sgwâr Gors-las

***4436-A Disgrifiad o'r Ardal***

Mae'r ardal yn cynnwys eiddo a leolir ar hyd Heol Cefneithin a Heol y Llew Du yn bennaf. Preswyl yw'r ardal i raddau helaeth, ac o lifogydd glawog sy'n gysylltiedig ag aliniad Gwendraeth Fawr sy'n llifo drwy ganol yr ardal y mae tarddiad y perygl llifogydd.

***Gwaith Amddiffyn rhag Llifogydd***

Nid oes unrhyw waith ar y gweill ar hyn o bryd.




*Ffigur 4-6 Ardal Risg Llifogydd 4436-A*

*Tabl 4-17 Crynodeb o Ardaloedd Risg Llifogydd Gors-las*

| Ardal Risg Llifogydd | Gwybodaeth am Amddiffynfeydd rhag Llifogydd ac Asedau | Cyfeiriadau mewn Perygl | Derbynyddion Allweddol | Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol | Partneriaid FRM Allweddol | Ymgysylltu â'r Gymuned |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4436-A | • Gwael | • Afonol: 0<br>• Glawog: 51 | • Ysgol Gynradd Gors-las<br>• Ffyrdd (A476, B4556)<br>• Ystad Ddiwydiannol Gors-las | • Ni ddarparwyd gwybodaeth | • DCWW, Tîm Adfywio, Menter Deg Tref, Priffyrdd/Parciau CSC, CNC, Tirfeddianwyr | • Dymunol (tymor canolig i hirdymor) |

### 4.3.6 Camau Gweithredu a Nodiwyd

Ar ôl nodi'r perygl llifogydd yng nghymuned Gors-las, datblygwyd rhestr o gamau gweithredu ac ymyriadau isod yn 4-18 i reoli'r perygl llifogydd.

*Tabl 4-18 Rhestr Hir o Gamau Gweithredu Posibl yng Ngors-las*

| Ardal | Camau Gweithredu Posibl | Math o Weithred | Disgrifiad | Cwblhawyd / Tymor Byr / Canolig / Hirdymor | Amcangyfrif o'r Costau |
|---|---|---|---|---|---|
| 4436-A | Rheoli Llifogydd Naturiol | Atal | Archwilio atebion Rheoli Llifogydd Naturiol a dewisiadau cyllido yn yr ardal hon er mwyn lleihau'r tebygolrwydd o lifogydd oddi ar y lan. | Canolig | £££ |

| Ardal | Camau Gweithredu Posibl | Math o Weithred | Disgrifiad | Cwblhawyd / Tymor Byr / Canolig / Hirdymor | Amcangyfrif o'r Costau |
|---|---|---|---|---|---|
| | Ôl-osod Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau) | Atal | Chwilio am gyfleoedd i gyllido a chydweithredu â phartneriaid er mwyn ôl-ffitio SDCau mewn strydlun i leihau dŵr ffo a darparu gwanhad. | Canolig | £££ |

## 4.4 Cydweli—4054

### 4.4.1 Disgrifiad o'r Ardal Gymunedol


Tref arfordirol fechan a leolir yn ABA Gwendraeth Porth Tywyn, yn rhanbarth deheuol Sir Gaerfyrddin yw Cydweli (Ffigur 4). Oherwydd natur hanesyddol y dref, mae'r seilwaith draenio a pherygl llifogydd yn heneiddio, ac mae systemau pibellau wedi disodli llwybrau llif hanesyddol dros y tir. Yn 2021, oddeutu 5,053 o bobl oedd cyfanswm poblogaeth Cydweli[10].

Y prif nodweddion hydrolegol yw cyrsiau dŵr Gwendraeth Fawr a Gwendraeth Fach. Mae Gwendraeth Fach yn llifo drwy ranbarth gogleddol Cydweli ac mae Gwendraeth Fawr yn llifo drwy ranbarthau canolog a deheuol Cydweli. Mae gan CNC amddiffynfeydd rhag llifogydd ar rannau isaf y prif afonydd o amgylch Highfield Villas, gan gynnwys fflap llanw ar Commissioners Bridge ar Afon Gwendraeth Fawr. Yn hanesyddol, effeithiwyd ar Gydweli gan ddigwyddiadau glawiad byr sydyn heb eu rhagolygu sy'n gorlwytho cyrsiau dŵr a draenio lleol ac yn achosi problemau llifogydd sylweddol. Mae 1 o bob 1,684 o bobl mewn perygl o lifogydd afonol yng Nghydweli ac mae 1 o bob 37 o bobl mewn perygl o lifogydd glawog.

Mae'r nodweddion defnydd tir pennaf yn cynnwys cymysgedd o ardaloedd preswyl, ardaloedd trefol, tir amaethyddol bugeiliol a mannau gwyrdd. Mae seilwaith arwyddocaol yn cynnwys yr A488 a'r B4308, Gorsaf Reilffordd Cydweli, Castell Cydweli, Cei Cydweli a Maes Awyr Pen-bre.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn dilyn llifogydd sylweddol (gweler yr adrannau isod) bu gwaith cymunedol helaeth mewn cysylltiad â rheoli'r perygl o lifogydd. Mae grwpiau lleol wedi eu sefydlu ac mae aelodau o'r gymuned bellach yn llawer mwy ymwybodol ac wedi eu grymuso i reoli eu perygl llifogydd. Mae CSC yn cwrdd â chynrychiolwyr y grŵp cymunedol oddeutu tair gwaith y flwyddyn.

[10] Data Cyfrifiad Cydweli [Your Data—Nomis—Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)]




*Ffigur 4-7 Ardal Gymunedol Cydweli*

### 4.4.2 Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol

Cafwyd llifogydd sylweddol yng Nghydweli gyda dau ddigwyddiad ar 4 ac 20 Hydref 2021 yn gorlifo llawer o gartrefi preswyl a busnesau ledled y dref.

O ganlyniad i'r digwyddiadau hyn a gwaith y grŵp llifogydd cymunedol, mae nifer y digwyddiadau a adroddir yng Nghydweli yn uchel. Fel y dengys Tabl 4-19, rhwng 2018 a 2024, bu nifer sylweddol uchel o ddigwyddiadau mewnol ac allanol a adroddwyd ledled Cydweli.

Oherwydd ein partneriaeth yn gweithio gyda DCWW, rydym yn ymwybodol bod 139 o ddigwyddiadau llifogydd eraill wedi eu hadrodd yn ystod yr un cyfnod. Cofnododd CNC 2 ddigwyddiad llifogydd allanol.

*Tabl 4-19 Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol yng Nghydweli*

| Math o Ddigwyddiad | Nifer yr Achlysuron | Digwyddiadau llifogydd a adroddwyd i sefydliadau partner |
|---|---|---|
| Amhreswyl Allanol | 0 | - |
| Preswyl Allanol | 22 | 141 |

| | | |
|---|---|---|
| Amhreswyl Mewnol | 25 | - |
| Preswyl Mewnol | 31 | - |

### 4.4.3 Perygl Llifogydd mewn Ardal Gymunedol

Cyflwynir data sy'n ymwneud â nifer yr eiddo sydd mewn perygl o lifogydd afonol neu lawog ledled ardal gymunedol Cydweli isod yn  4-20. Er gwaethaf presenoldeb dwy nodwedd hydrolegol, ystyrir bod eiddo yng Nghydweli mewn mwy o berygl o lifogydd glawog na llifogydd afonol. Bydd CSC yn parhau i reoli'r risg. Fodd bynnag, mae tir amaethyddol yn rhanbarthau deheuol Cydweli mewn perygl o lifogydd afonol oherwydd presenoldeb Gwendraeth Fawr. Bydd CNC yn parhau i reoli'r perygl llifogydd a achosir gan Afon Gwendraeth Fawr a Gwendraeth Fach yn yr ardal hon.

*Tabl 4-20 Cyfanswm y Cyfeiriadau sydd mewn Perygl o Lifogydd Glawog ac Afonol yng Nghydweli*

| Math o Lifogydd | Nifer yr Eiddo sydd mewn Perygl |
|---|---|
| Llifogydd Glawog | 49 |
| Llifogydd Afonol | 1 |

Mae tir yn uniongyrchol i fyny'r afon o Commissioners Bridge mewn perygl o lifogydd afonol a dangosir hefyd fod rhannau o'r A484, y B4306 a Heol Cae Ffynnon, Heol y Fferi a Heol Ddŵr mewn perygl sylweddol o lifogydd glawog. Dangosir bod rhannau o Stryd y Bont, Heol Pen-bre a'r A484 mewn perygl o lifogydd afonol hefyd. Maes Awyr Pen-bre a Chastell Cydweli yw rhai o'r derbynyddion yr ystyrir eu bod mewn perygl o lifogydd afonol yng Nghydweli. Cyflwyna Tabl 4-21 ragor o wybodaeth am dderbynyddion sy'n bresennol yng Nghydweli sydd mewn perygl o lifogydd.

*Tabl 4-21 Derbynyddion yng Nghydweli*

| Derbynnydd | Perygl Afonol | Perygl Glawog |
|---|---|---|
| Hyd y Ffyrdd (km) | 822 | 801 |
| Hyd y Rheilffyrdd (km) | 259 | 280 |
| Amgylcheddol (n) | 3 | 2 |
| Tir Amaethyddol ($m^2$) | 1894356 | 373184 |
| Eiddo Preswyl | 0 | 46 |
| Eiddo Amhreswyl | 1 | 3 |
| Dyraniad Preswyl | 0 | 2 |
| Adeiladau Rhestredig | 19* | |
| **Mae'r cyfrif yma yn archwilio nifer yr adeiladau rhestredig sy'n bresennol ledled yr ardal gymunedol y nodwyd eu bod yn ardal risg uchel. Nid yw'r cyfrif yn awgrymu bod cyfanswm yr adeiladau mewn perygl o lifogydd afonol a llifogydd glawog—ond yn hytrach eu bod mewn perygl cyffredinol o lifogydd.* | | |

### 4.4.4 Gwaith FRM yn yr ardal ers FRMP-1

Cyflwynir gwaith FRM a wnaed yng Nghydweli ers FRMP-1 isod yn  4-22.

*Tabl 4-22 Gwaith FRM a wnaed yng Nghydweli ers FRMP-1 CSC.*

| Ardal Benodol/Ardal Uned Bolisi | Camau Gweithredu FRM (FRMP-1) | Cynnydd |
|---|---|---|
| Clos yr Helyg | Cynigiodd CSC adeiladu ysgol newydd y tu cefn i'r Co-op. Bydd y Tîm Amddiffyn rhag Llifogydd a Diogelu'r Arfordir yn parhau i weithio gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol i sicrhau nad yw unrhyw ddatblygiad yn cael effaith andwyol ar berygl llifogydd yn yr ardal. | Cwblhawyd |
| Gweithredoedd nad ydynt yn FRMP | Cliriwyd cwrs dŵr ac adeiladwyd trac ar hyd y llwybr at ddibenion cynnal a chadw yn y dyfodol (Clos yr Helyg). | Cwblhawyd |
| Clos yr Helyg | Arolwg teledu cylch cyfyng. | Cwblhawyd |
| Clos yr Helyg | Gweithio mewn partneriaeth gyda Pobl i reoli'r seilwaith draenio a'r perygl llifogydd yn well. | Cwblhawyd |
| Clos yr Helyg, Llys Gwenllïan a Heol y Fferi | Ymweliadau safle ag ardaloedd risg uchel a rhoddwyd cyngor ar reoli perygl llifogydd ac adrodd digwyddiadau yn gywir i breswylwyr a busnesau. | Cwblhawyd |
| Clos yr Helyg, Llys Gwenllïan a Heol y Fferi, Ger-y-Castell, Ger y Gwendraeth, Lady Street, Heol Ddŵr, Cae Ffynnon, New Street a Pharc Pendre | Arolygon teledu cylch cyfyng. | Cwblhawyd |
| Hawliau Tramwy Cyhoeddus Cae Ffynnon | Clirio cwrs dŵr, ailbroffilio sianeli, rheoli bwnd daear a llystyfiant. | Cwblhawyd |
| Llys Gwenllïan | Gweithio gyda Pobl a DCWW i reoli'r risg y bydd dŵr wyneb yn mynd i mewn i'r system garthffosiaeth yn Llys Gwenllïan. | Cwblhawyd |
| Ystad Ddiwydiannol | Adeiladu ffos draenio newydd er mwyn caniatáu i ddraenio ystadau diwydiannol ollwng i'r aber. | Cwblhawyd |


### 4.4.5 Ardaloedd Risg Llifogydd

Yr ardal â'r perygl llifogydd mwyaf yw tref Cydweli o Heol y Fferi a Heol Ddŵr yn y gorllewin i Ger y Gwendraeth a Ger-y-Castell yn y gogledd ac i'r ardaloedd diwydiannol a busnes yn y gorllewin (a ddangosir yn Ffigur 4). Ceir gwybodaeth mwy penodol am y perygl llifogydd yn yr ardal hon yn  4-23.

***Gwaith Amddiffyn rhag Llifogydd***

Mae'r prif waith amddiffyn rhag llifogydd a wneir yng Nghydweli yn cynnwys:

- Mae wyth ar hugain o gamau gweithredu a gwblhawyd yn dilyn llifogydd mis Hydref 2021 ac mae adroddiad ymchwiliad llifogydd Adran 19 sydd wedi ei gwblhau. Gellir gweld yr Ymchwiliad Digwyddiad ffurfiol yn Ymchwiliadau Llifogydd.
- Cwblhawyd y prif waith yn Heol y Fferi 2024.
- Dechreuwyd achos busnes ac mae Achos Busnes Amlinellol wedi ei ddatblygu er nad yw'n cael ei gyllido y tu hwnt i'r cam hwn ar hyn o bryd.
- Gweithio gyda chymdeithas tai leol i reoli'r perygl llifogydd yn well o amgylch Llys Gwenllïan.




*Ffigur 4-8 Ardal Risg Llifogydd 4054-A*

*Tabl 4-23 Crynodeb o Ardaloedd Risg Llifogydd Cydweli*

| Ardal Risg Llifogydd | Gwybodaeth am Amddiffynfeydd rhag Llifogydd ac Asedau | Cyfeiriadau mewn Perygl | Derbynyddion Allweddol | Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol | Partneriaid FRM Allweddol | Ymgysylltu â'r Gymuned |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4054-A | • Da | • Afonol: 1<br>• Glawog: 58 | • Gorsaf reilffordd Cydweli<br>• Ysgolion a chanolfannau addysgol (Ysgol y Castell; Canolfan Addysg Gwenllian; Meithrinfa Ddydd Busy Bugs)<br>• Treftadaeth Adeiledig (Castell Cydweli)<br>• Ffordd (gan gynnwys yr A484 a'r B4308)<br>• Ystad Ddiwydiannol Cydweli<br>• Canol y Dref<br>• Castell Cydweli | Nid oes unrhyw ddigwyddiadau mawr sy'n hysbys | • DCWW<br>• Treftadaeth Adeiladau CSC<br>• Tîm Adfywio CSC<br>• Menter Deg Tref, Priffyrdd/Parciau CSC<br>• CNC<br>• Tirfeddianwyr<br>• Llywodraeth Cymru | Gwnaed yn ddiweddar ac yn esiampl—ar y gweill |

### 4.4.6 Camau Gweithredu a Nodiwyd

Ar ôl nodi'r perygl llifogydd yng nghymuned Cydweli, datblygwyd rhestr o gamau gweithredu ac ymyriadau isod yn 4-24 i reoli'r perygl llifogydd.

*Tabl 4-24 Rhestr Hir o Gamau Gweithredu Posibl yng Nghydweli*

| Maes | Camau Gweithredu Posibl | Math o Weithred | Disgrifiad | Cwblhawyd / Tymor Byr / Canolig / Hirdymor | Amcangyfrif o'r Gost |
|---|---|---|---|---|---|
| Y Gymuned Gyfan | Cynllun Lliniaru Llifogydd | Diogelu | Cynllun Lliniaru Llifogydd Heol y Fferi. | Byr | £££ |
| | Gwaith Cymunedol | Parodrwydd | Parhau i gefnogi'r grŵp llifogydd cymunedol. | Byr | £ |
| | Cyrchu Cyllid | Adolygu | Cais am gyllid Llywodraeth Cymru er mwyn bwrw ymlaen ag achos busnes a gwerthuso'r risg a'r dewisiadau<br>Os byddwn yn llwyddiannus gyda chynigion grant Llywodraeth Cymru, yna gall CSC barhau â'n gwaith achos busnes, gwerthuso a dadansoddi dewisiadau. | Byr | ££ |
| 4054 | Rheoli a Chynnal a Chadw Asedau | Atal | Creu cynlluniau rheoli asedau ar gyfer asedau allweddol ac ymgymryd ag arolygon a gwaith cynnal a chadw rheolaidd. | Ar y Gweill | £ |
| | Rheoli Llifogydd Naturiol | Atal | Chwilio am gyfleoedd am dechnegau Rheoli Llifogydd Naturiol yn y dalgylch uchaf a allai leihau llifoedd brig a lleihau pwysau i lawr yr afon. Gallai | Canolig | £££ |

| Maes | Camau Gweithredu Posibl | Math o Weithred | Disgrifiad | Cwblhawyd / Tymor Byr / Canolig / Hirdymor | Amcangyfrif o'r Gost |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | rhai cynlluniau gwanhau mewn cymuned ar gyrion ardal drefol fod o fudd. | | |
| | Ôl-osod SDCau | Atal | Chwilio am gyfleoedd i ôl-osod SDCau mewn lleoliadau wedi eu targedu er mwyn lleihau dŵr ffo a/neu ddarparu gwanhad. | Canolig | £££ |
| | Cydnerthedd Gwrthsefyll Llifogydd Eiddo | Parodrwydd | Chwilio am gyfleoedd i ddefnyddio Cydnerthedd Gwrthsefyll Llifogydd Eiddo â chyllid Llywodraeth Cymru. | Canolig | £££ |

# 5 Ardal Basn Afon Llanelli

## 5.1 Dafen—4021


### 5.1.1 Disgrifiad o'r Ardal Gymunedol

Pentref a leolir i'r gogledd-ddwyrain o ganol tref Llanelli, yn rhanbarth deheuol Sir Gaerfyrddin yw Dafen (Ffigur 5-1). Yn 2021, oddeutu 5,195 o bobl oedd cyfanswm poblogaeth Dafen.[11]

Y prif nodweddion hydrolegol yw Afon Dafen ac Afon Lliedi, a dynodwyd y ddwy ohonynt yn brif afonydd. Hefyd, lleolir Cronfeydd Dŵr Lliedi Uchaf a Lliedi Isaf, y mae'r ddwy ohonynt yn asedau DCWW, yn y gymuned hon. Yn Nafen, mae 1 o bob 13 o bobl mewn perygl o lifogydd afonol ac mae 1 o bob 5 o bobl mewn perygl o lifogydd glawog.

Cymuned wledig yn bennaf yw Dafen sydd â phentrefi/canolfannau preswyl maestrefol ac ardaloedd diwydiannol a busnes a grynhoir yn enwedig ym mhrif seilwaith priffyrdd Dafen ac o'i amgylch. Mae mannau gwyrdd eang hefyd sy'n amgylchynu Dafen. Mae seilwaith arwyddocaol yn Dafen yn cynnwys ysgolion megis Ysgol Gatholig Sant Ioan Llwyd ac Ysgol Bryngwyn, Ysbyty'r Tywysog Philip, Ystad Ddiwydiannol Dafen a dwy ffatri gweithgynhyrchu mawr a weithredir gan Gerstamp a Marelli.

[11] Data Cyfrifiad Dafen Your Data—Nomis—Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)




*Ffigur 5-1 Ardal Gymunedol Dafen*

### 5.1.2 Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol

Bu llifogydd sylweddol yn Dafen yn hanesyddol, gyda digwyddiadau yn y 1990au a dechrau y 2000au a effeithiodd ar eiddo lluosog yn Bryngwyn Road ac Exchange Row ac o'u hamgylch.

Fel y pwysleisir yn  5-1, mae cymuned Dafen o ran adrodd digwyddiadau llifogydd i CSC yn uwch na'r cyfartaledd. Nodwn hefyd y bydd materion yn cael eu hadrodd i'n hasiantaethau partner yn y gymuned hon. Mae DCWW wedi cadarnhau ei fod wedi cael 6 adroddiad llifogydd a bod CNC wedi cael un adroddiad. Adroddwyd 49 o ddigwyddiadau i CSC rhwng 2018 a 2024.

*Tabl 5-1 Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol yn Nafen*

| Math o Ddigwyddiad | Nifer yr Achlysuron | Lifogydd a adroddwyd i sefydliadau partner |
|---|---|---|
| Amhreswyl Allanol | 0 | - |
| Preswyl Allanol | 11 | 7 |
| Amhreswyl Mewnol | 0 | - |
| Preswyl Mewnol | 38 | - |

### 5.1.3 Perygl Llifogydd mewn Ardal Gymunedol

Cyflwynir data sy'n ymwneud â nifer yr eiddo sydd mewn perygl o lifogydd afonol neu lawog ledled ardal gymunedol Dafen isod yn 5-2. Gan fod nifer yr eiddo sydd mewn perygl o lifogydd glawog ac afonol yn gyfartal yn Dafen, dylai CSC a CNC fynd i'r afael â'r gwaith o liniaru perygl llifogydd ar y cyd.

*Tabl 5-2 Cyfanswm y Cyfeiriadau sydd mewn Perygl o Lifogydd Glawog ac Afonol yn Nafen*

| Math o Lifogydd | Nifer yr Eiddo sydd mewn Perygl |
|---|---|
| Llifogydd Glawog | 182 |
| Llifogydd Afonol | 171 |

Dangosir bod ardaloedd o amgylch Ysbyty'r Tywysog Philip, Parc Dafen a Heol Salem a Heol Buckley yn Felin-foel mewn perygl llifogydd glawog mawr. Lleolir yr ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd afonol yn yr ardaloedd trefol o amgylch Afon Lliedi a Dafen ond maent hefyd yn ymestyn i Ynyswen yn Felin-foel ac Ysgol y Felin. Yn Nafen, yr ardal o amgylch Maescanner Road, Heol Newydd ac Exchange Row sydd â'r perygl afonol mwyaf. Cyflwyna Tabl 5-3 ragor o wybodaeth am dderbynyddion sy'n bresennol yn Nafen sydd mewn perygl o lifogydd.

*Tabl 5-3 Derbynyddion yn Nafen*

| Derbynnydd | Perygl Afonol | Perygl Glawog |
|---|---|---|
| Hyd y Ffyrdd (km) | 3048 | 2959 |
| Hyd y Rheilffyrdd (km) | 0 | 0 |
| Amgylcheddol (n) | 13 | 6 |
| Tir Amaethyddol ($m^2$) | 86104 | 123748 |
| Eiddo Preswyl | 158 | 161 |
| Eiddo Amhreswyl | 13 | 21 |
| Gwasanaethau Allweddol (n) | 4 | 9 |
| Safleoedd SFCA Ychwanegol | 0 | 2 |
| Dyraniad Preswyl | 0 | 2 |
| Ardal Cyflogaeth Arfaethedig | 0 | 1 |
| Adeiladau Rhestredig (n) | 8* | |

**Mae'r cyfrif yma yn archwilio nifer yr adeiladau rhestredig sy'n bresennol ledled yr ardal gymunedol y nodwyd eu bod yn ardal risg uchel. Nid yw'r cyfrif yn awgrymu bod cyfanswm yr adeiladau mewn perygl o lifogydd afonol a llifogydd glawog—ond yn hytrach eu bod mewn perygl cyffredinol o lifogydd.*

### 5.1.4 Gwaith FRM yn yr ardal ers FRMP-1

Cyflwynir gwaith FRM a wnaed yn Nafen ers FRMP-1 isod yn 5-4.

*Tabl 5-4 Gwaith FRM a wnaed yn Nafen ers FRMP-1 CSC.*

| Ardal Benodol (Ardal Uned Bolisi) | Camau Gweithredu FRM (FRMP-1) | Cynnydd |
|---|---|---|
| Bryngwyn Road | Parhau i gynnal a chadw'r bwnd llifogydd o amgylch y parc. | Cwblhawyd |
| Exchange Row | Ymgymryd â'r gwaith arferol o atgyweirio a chynnal a chadw cwlfert Exchange Row fel y nodwyd mewn arolwg teledu cylch cyfyng yn 2018. | Cwblhawyd |
| Glyncoed Terrace | Bydd CSC yn parhau i weithio gyda DCWW a CNC mewn cysylltiad â rheoli'r mater. | Ar y Gweill |
| | Gweithredoedd nad ydynt yn FRMP | |
| Bryngwyn Road | Cynnal cynllun mawr i uwchraddio ac ailgyfeirio'r system draenio dŵr wyneb | Cwblhawyd |
| Heol Newydd a Bryngwyn Road | Teledu cylch cyfyng | Cwblhawyd |
| Heol Buckley | Gwerthuso perygl llifogydd a datblygu achos busnes | Cwblhawyd |


### 5.1.5 Ardaloedd Risg Llifogydd

Dengys Ffigur 5-2 yr ardal sydd â'r perygl llifogydd mwyaf. Mae'r eiddo a leolir yn yr Ardal hon (4021-A) mewn perygl o lifogydd afonol yn bennaf, oherwydd presenoldeb Afon Lliedi. Preswyl yw'r defnyddiau tir pennaf yn Ardal 4021-A. Mae ffyrdd arwyddocaol sy'n rhedeg drwy'r gymuned yn cynnwys yr A476 a'r A4138. Ceir gwybodaeth mwy penodol am y perygl llifogydd yn yr ardal hon yn 5-5.

***Gwaith Amddiffyn rhag Llifogydd***

Yn 2024, cwblhawyd dyluniad manwl ar gyfer gwaith yn Heol Buckley.

Yn yr ardal hon, camau gweithredu FRMP CNC ar gyfer De-orllewin Cymru yw ‘Dylunio ac adeiladu cynllun lliniaru llifogydd’ yn y tymor byr ac ‘Ymchwilio dichonoldeb gwasanaeth rhybuddio am lifogydd newydd’ yn y tymor canolig. Nid yw’r naill gam gweithredu na’r llall wedi eu dechrau eto. Ceir rhagor o wybodaeth am ardal risg llifogydd yn 5-5.




*Ffigur 5-2 Ardal Risg Llifogydd 4021-A*

*Tabl 5-5 Crynodeb o Ardaloedd Risg Llifogydd Dafen*

| Ardal Risg Llifogydd | Gwybodaeth am Amddiffynfeydd rhag Llifogydd ac Asedau | Cyfeiriadau mewn Perygl | Derbynyddion Allweddol | Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol | Partneriaid FRM Allweddol | Ymgysylltu â'r Gymuned |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4021-A | **Niferoedd asedau**<br>• Uchel<br>• Prif asedau<br>• Cronfeydd dŵr DCWW<br>• Sgriniau a chwlferi Dafen<br>**Gwybodaeth am asedau**<br>• FRM Da<br>• Priffyrdd Ffyrdd A 100% | Afonol: 246<br>Glawog: 49 | • Ardaloedd diwydiannol a busnes<br>• Ysbyty'r Tywysog Philip<br>• Ysgolion x 5 (Ysgol Gynradd Gymunedol Swiss Valley; Ysgol Bryngwyn; Ysgol Gynradd Dafen; Ysgol y Felin)<br>• Priffordd (A476)<br>• Parc Diwydiannol Dafen<br>• Co-op<br>• Felinfoel Brewery | Nid oes unrhyw ddigwyddiadau sy'n hysbys | • DCWW<br>• CNC<br>• LLFA<br>• Llywodraeth Cymru | Dymunir (tymor canolig) |

### 5.1.6 Camau Gweithredu a Nodiwyd

Ar ôl nodi'r ardaloedd risg llifogydd yng nghymuned Dafen, datblygwyd rhestr o gamau gweithredu isod yn 5-6 er mwyn rheoli'r perygl llifogydd ym mhob ardal risg llifogydd.

*Tabl 5-6 Rhestr Hir o Gamau Gweithredu Posibl yn Nafen*

| Ardal | Camau Gweithredu Posibl | Math o Weithred | Disgrifiad | Cwblhawyd / Tymor Byr / Canolig / Hirdymor | Amcangyfrif o'r costau |
|---|---|---|---|---|---|
| Y Gymuned Gyfan | Cynlluniau Lliniaru Llifogydd ar Raddfa Dalgylch | Diogelu | Cwblhawyd Gwaith Heol Buckley. | Byr | ££ |
| 4021 | Rheoli a Chynnal a Chadw Asedau | Diogelu | Cynlluniau Rheoli Asedau, ymchwiliad ychwanegol i asedau CSC/gwaith teledu cylch cyfyng er mwyn deall perchnogaeth a'r drefn arolygu a chynnal a chadw yn well. Cydweithredu â phreswylwyr yn Swiss Valley er mwyn rheoli draenio preifat. | Ar y Gweill | £ |
| | Peirianneg Caled | Diogelu | Cefnogi CNC pe bai'n archwilio cynllun amddiffyn rhag llifogydd ar Afon Lliedi a allai liniaru'r perygl o lifogydd i eiddo (ac i lawr yr afon). | Hirdymor | ££££ |
| | Rheoli Llifogydd Naturiol | Diogelu | Gallai chwilio am gyfleoedd i archwilio technegau NFM yn nalgylch uchaf Afon Dafen leihau llifoedd brig a lleihau pwysau i lawr yr afon. | Canolig | £££ |

## 5.2 Llanelli—4005

### 5.2.1 Disgrifiad o’r Ardal Gymunedol


Llanelli (Ffigur 5-3) yw’r dref fwyaf yn Sir Gaerfyrddin. Yn 2021, oddeutu 25,366 o bobl oedd cyfanswm poblogaeth Llanelli[12].

Y prif nodweddion hydrolegol sy’n bresennol yn Llanelli yw’r pedair prif afon ddynodedig: Afon Dulais, Afon Cille, Afon Dafen ac Afon Lliedi. Mae nifer o gyrsiau dŵr cyffredin, cronfeydd dŵr a chyrff dŵr eraill hefyd. Yn Llanelli, mae 1 o bob 17 o bobl mewn perygl o lifogydd afonol ac mae 1 o bob 27 o bobl mewn perygl o lifogydd glawog.

Mae’r nodweddion defnydd tir pennaf yn Llanelli yn cynnwys ardaloedd preswyl, sefydliadau masnachol, ystadau diwydiannol, a mannau gwyrdd. Mae seilwaith arwyddocaol yn cynnwys ysgolion (Coleg Sir Gâr), Canol Tref Llanelli, Parc Manwerthu Trostre, a chysylltiadau trafnidiaeth megis Gorsaf Reilffordd Llanelli, yr A484, yr A476 a'r A4138.

---

[12] Data Cyfrifiad Llanelli Llanelli (Community, United Kingdom)—Population Statistics, Charts, Map and Location (citypopulation.de)




*Ffigur 5-3 Ardal Gymunedol Llanelli*

### 5.2.2 Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol

Yn hanesyddol, nid ydym yn ymwybodol o unrhyw lifogydd afonol neu lawog arwyddocaol yn Llanelli ond mae sefydliadau partner fel DCWW, CNC a'r Awdurdod Priffyrdd yn debygol o gymryd yr awenau ar lawer o faterion llifogydd yn y gymuned.

Llanelli yw ein hardal â'r boblogaeth uchaf a'r ardal sydd â'r nifer mwyaf o eiddo mewn perygl o lifogydd. Er gwaethaf materion llifogydd a digwyddiadau a adroddir i sefydliadau eraill, mae cymuned Llanelli yn adrodd nifer sylweddol o ddigwyddiadau llifogydd i dîm FRM CSC.

Pwysleisia Tabl 5-7 isod fod 118 o ddigwyddiadau wedi eu hadrodd rhwng 2018–2024, sy'n un o'r niferoedd digwyddiadau uchaf a adroddwyd yn ystod y cyfnod hwn. Yn ystod cyfnod tebyg, adroddwyd 479 o ddigwyddiadau i DCWW. Dim ond un digwyddiad a adroddwyd i CNC.

*Tabl 5-7 Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol yn Llanelli*

| Math o Ddigwyddiad | Nifer yr Achlysuron | Digwyddiadau llifogydd a adroddwyd i sefydliadau partner |
|---|---|---|
| Amhreswyl Allanol | 29 | - |
| Preswyl Allanol | 48 | 471 |
| Amhreswyl Mewnol | 18 | - |
| Preswyl Mewnol | 23 | 9 |

### 5.2.3 Perygl Llifogydd mewn Ardal Gymunedol

Cyflwynir data sy'n ymwneud â nifer y cyfeiriadau sydd mewn perygl o lifogydd afonol neu lawog ledled ardal gymunedol Llanelli isod yn 5-8. Gan fod eiddo yn Llanelli mewn mwy o berygl o lifogydd afonol, dylai'r camau gweithredu i liniaru perygl llifogydd yn y gymuned hon gael eu harwain/cychwyn gan CNC. Fodd bynnag, fel y pwysleisia niferoedd y digwyddiadau, DCWW sy'n berchen ar ddraenio tanddaearol, ac yn ei weithredu, i raddau helaeth, ac felly mae ganddo ran allweddol i'w chwarae hefyd.

*Tabl 5-8 Cyfanswm y Cyfeiriadau sydd mewn Perygl o Lifogydd Glawog ac Afonol yn Llanelli*

| Math o Lifogydd | Nifer yr Eiddo sydd mewn Perygl |
|---|---|
| Llifogydd Glawog | 380 |
| Llifogydd Afonol | 519 |

Dangosir bod ardaloedd o amgylch Pwll, Heol y Sandy (gan gynnwys Coleg Sir Gâr ac Ysgol y Strade), Ffwrnais, canol y dref a Thyisha mewn perygl o lifogydd afonol. Ymhellach i'r dwyrain, canolir y prif risg afonol o amgylch Parc Busnes Trostre a'r Ystad Ddiwydiannol. Mae'r perygl llifogydd mwyaf o amgylch Heol y Sandy (o amgylch Coleg Sir Gâr ac Ysgol y Strade eto), canol y dref a Thyisha, Glan y Môr, Penyfan a Heol Trostre a Pharc Manwerthu a Busnes Trostre. Cyflwyna Tabl 5-9 ragor o wybodaeth am dderbynyddion sy'n bresennol yn Llanelli sydd mewn perygl o lifogydd.

*Tabl 5-9 Derbynyddion yn Llanelli*

| Derbynnydd | Perygl Afonol | Perygl Glawog |
|---|---|---|
| Hyd y Ffyrdd (m) | 13107 | 7792 |
| Hyd y Rheilffyrdd (m) | 445 | 75 |
| Amgylcheddol (n) | 9 | 10 |
| Tir Amaethyddol ($m^2$) | 588896 | 97080 |
| Eiddo Preswyl | 356 | 304 |

| Derbynnydd | Perygl Afonol | Perygl Glawog |
|---|---|---|
| Eiddo Amhreswyl | 163 | 76 |
| Gwasanaethau Allweddol (n) | 7 | 4 |
| Canol y Dref | Llanelli | |
| Safle Strategol | 0 | Pentref Llesiant a Gwyddorau Bywyd Llanelli |
| Safleoedd SFCA Ychwanegol | 1 | 25 |
| Parc Manwerthu | Parc Trostre | 0 |
| Dyraniad Preswyl | 0 | 2 |
| Safle Arfaethedig i Sipsiwn a Theithwyr | 0 | 1 |
| Defnydd Cymysg | 1 | 2 |
| Gwarchodfa Natur Leol | 0 | Pwll Lludw—Merllyn y Pwll |
| Adeiladau Rhestredig | 94* | |
| *Mae'r cyfrif yma yn archwilio nifer yr adeiladau rhestredig sy'n bresennol ledled yr ardal gymunedol y nodwyd eu bod yn ardal risg uchel. Nid yw'r cyfrif yn awgrymu bod cyfanswm yr adeiladau mewn perygl o lifogydd afonol a llifogydd glawog—ond yn hytrach eu bod mewn perygl cyffredinol o lifogydd. | | |

### 5.2.4 Gwaith FRM yn yr ardal ers FRMP-1

Cyflwynir gwaith FRM a wnaed yn Llanelli ers FRMP-1 isod yn 5-10.

*Tabl 5-10 Gwaith FRM a wnaed yn Llanelli ers FRMP-1 CSC.*

| Ardal Benodol/Ardal Uned Bolisi | Camau Gweithredu FRM (FRMP-1) | Cynnydd |
|---|---|---|
| Heol Trostre a Gorsedd, Llanelli | Cysylltu â CNC a Network Rail ynghylch rheoli sgrin brigau Afon Dafen. | Cwblhawyd |
| | Gweithio gyda'r Awdurdod Priffyrdd er mwyn rheoli cwlfert Heol Trostre. | Cwblhawyd |
| Greenway Street, Llanelli | Bydd CSC yn parhau i fonitro'r ardal, ymateb i achosion o lifogydd a chysylltu â DCWW mewn cysylltiad â Prosiect GlawLif. | Ar y Gweill |
| Canol Tref Llanelli | Parhau i gysylltu a chydweithredu â DCWW er mwyn cyflawni Prosiect GlawLif. | Cwblhawyd |

| Ardal Benodol/Ardal Uned Bolisi | Camau Gweithredu FRM (FRMP-1) | Cynnydd |
|---|---|---|
| Felin-foel, Llanelli | Cynnal arolygon o'r rhwydwaith draenio â theledu cylch cyfyng er mwyn gwirio perchnogion asedau a chyfrifoldebau. | Cwblhawyd |
| Glan y Môr, De Llanelli | Parhau i gysylltu a chydweithredu â DCWW sy'n gweithredu ei Brosiect GlawLif. | Cwblhawyd |
| Lakeview Terrace, Llanelli | Gwelliannau i waith cilfach cwlfert ac ymchwilio i ddewisiadau amnewid cwlfert. | Cwblhawyd |
| | Gweithredoedd nad ydynt yn FRMP | |
| Heol Trostre | Gwelliannau o ran Draenio Priffyrdd. | Cwblhawyd |
| Penyfan a Heol Trostre | Datblygu gwerthusiad llifogydd ac achos busnes Penyfan a Heol Trostre. | Cwblhawyd |
| Heol Trostre, Ystad Ddiwydiannol Trostre, Heol y Sandy, yr A484 | Arolwg teledu cylch cyfyng. | Cwblhawyd |

## 5.2.5 Ardaloedd Risg Llifogydd

Gan na ellir cymhwyso camau gweithredu unigol i fynd i'r afael â'r perygl llifogydd ledled cymuned Llanelli yn gyffredinol, crëwyd 4 is-ardal ar sail y perygl llifogydd a'r dalgylchoedd. Ceir gwybodaeth mwy penodol am y perygl llifogydd yn yr ardal hon yn 5-11.

### *5.2.5.1 Heol y Sandy—4005-A*

***Disgrifiad o'r Ardal***


Ardal breswyl i'r gorllewin o ganol y dref yw Heol y Sandy (a gyflwynir yn Ffigur 5-4). Mae dwy ardal breswyl a wahenir gan Goleg Sir Gâr ac Ysgol y Strade (ysgol uwchradd). I'r gorllewin, mae Afon Dulais yn brif afon a CNC sy'n rheoli'r perygl llifogydd yn y fan hon. I'r dwyrain, yn ardal Coedlan Denham, CSC sy'n rheoleiddio'r

cwrs dŵr cyffredin. Mae ardaloedd isel o amgylch Coedlan Denham hefyd yn dueddol o gael llifogydd glawog ac mae systemau dŵr wyneb preifat yn yr ardal hon hefyd.

***Gwaith Amddiffyn rhag Llifogydd***

Mae CSC wedi gwneud gwaith atgyweirio helaeth i'r cwrs dŵr â chwlfert yng Nghoedlan Denham ac uwchraddiwyd y sgrin brigau ym Mhenywern yn 2010. Mae CSC hefyd wedi cefnogi preswylwyr Penywern i reoli'r draenio preifat yn yr ardal honno.

Yn hanesyddol, mae CNC hefyd wedi cwblhau gwaith sylweddol i reoli'r perygl llifogydd yn nalgylch Dulais isaf, gan gynnwys ychwanegu banciau, waliau a rhoi sianeli gorlifo ar waith i reoli llifogydd. Gweithredwyd gwasanaeth rhybuddio llifogydd hefyd yn y dalgylch ehangach.




*Ffigur 5-4 Ardal Risg Llifogydd 4005-A*

### 5.2.5.2 Ffwrnais a Dalgylch Cille 4005-B


***Disgrifiad o'r Ardal***

Ardal breswyl i'r gogledd a'r gorllewin o ganol y dref yw Ffwrnais a Dalgylch Cille (4005-B) (a gyflwynir yn Ffigur 5-5). Y brif nodwedd hydrolegol yw Nant Cille sy'n brif afon yn rhannol ac yn gwrs dŵr cyffredin yn rhannol. Tarddiad Nant Cille yw Pwll Ffwrnais (Cronfa Ddŵr Trebeddrod) a'r tir i fyny'r afon.

***Gwaith Amddiffyn rhag Llifogydd***

Yn hanesyddol, mae CNC wedi cwblhau gwaith sylweddol yn yr ardal i reoli'r perygl llifogydd. Mae hyn yn cynnwys cwlfert ffordd osgoi Cille 1km o hyd sy'n rhedeg i lawr llwybr beicio a gynlluniwyd i gludo'r holl lifogydd sylweddol i Afon Lliedi. Mae'r prif waith arall a wnaed yn yr ardal hon yn cynnwys:

- Asesiad o'r dewisiadau ym Mhentre-poeth a'r gwaith adeiladu bwnd a wnaed yn 2016.
- Gwaith atgyweirio rhan o Gwlfert Penywern ar ôl iddo gwympo yn 2017.
- Gwaith amddiffyn rhag llifogydd parhaus gan gynnwys cynllun Diogelu Lefel Eiddo (PLP) yn Heol Buckley.
- Uwchraddio ac atgyweirio yng Nghronfa Ddŵr Trebeddrod.
- Sgrin brigau newydd a thelemetreg gysylltiedig yn hen Barc y Strade.




*Ffigur 5-5 Ardal Risg Llifogydd 4005-B*

### *5.2.5.3 Canol Tref Llanelli 4005-C*


***Disgrifiad o'r Ardal***

Lleolir Canol Tref Llanelli yn Ardal 4005-C (a gyflwynir yn Ffigur 5-6). Prif nodwedd hydrolegol ardal 4005-C yw Afon Lliedi, sy'n brif afon, ac yn afon sydd wedi ei haddasu'n drwm a chludir trwy sianel goncrit o'r gogledd i'r de. Wrth gyffordd Thomas Street a Bridge Street, dargyfeirir Afon Lliedi â chwlfert am oddeutu 700 metr o dan ganol y dref, cyn ymddangos eto mewn sianel agored yn Old Castle Road.

***Gwaith Amddiffyn rhag Llifogydd***

Mae ardal ehangach Llanelli wedi elwa ar brosiect GlawLif DCWW[13] lle mae dŵr glaw yn cael ei atal ac felly mae'r cyflymder y mae'n mynd i'r rhwydwaith carthffosiaeth yn cael ei arafu gan ddefnyddio amrywiaeth o nodweddion rheoli dŵr wyneb megis basnau a phantau. Mae DCWW hefyd wedi adeiladu carthffos dŵr wyneb i lawr Heol yr Orsaf a fydd yn darparu cyfleoedd i reoli'r perygl llifogydd drwy gael gwared ar ddŵr wyneb o'r garthffos gyfunol.

Nid oes unrhyw waith llifogydd yn gysylltiedig â CSC a wnaed yn yr ardal hon gan mai DCWW a CNC sy'n rheoli'r perygl llifogydd yn y gymuned hon yn bennaf.




*Ffigur 5-6 Ardal Risg Llifogydd 4005-C*

---

[13] Prosiect GlawLif Dŵr Cymru Welsh Water—Ar gael drwy https://corporate.dwrcymru.com/cy-gb/community/environment/our-projects/rainscape/rainscape-llanelli

### 5.2.5.4 Ystad Ddiwydiannol Trostre 4005-D

***Disgrifiad o'r Ardal***


Yr ardal (a gyflwynir yn Ffigur 5-7) yn bennaf yw ardal busnes a manwerthu Trostre i'r dwyrain o ganol y dref.

Y brif nodwedd hydrolegol rheoli yw Afon Dafen, sy'n brif afon. Mae gan CNC amddiffynfeydd sylweddol a rhaglen cynnal a chadw cadarn i reoli'r perygl o lifogydd afonydd. O'r herwydd, mae'r perygl o lifogydd gweddilliol yn yr ardal hon yn dod o lifogydd dŵr wyneb yn bennaf, pan fo'r draeniau yn cael eu gorlwytho, yn cronni, ac yn gorlenwi. Mae hyn oherwydd lefelau uchel o ddŵr yn Afon Dafen, sy'n tagu'r systemau draenio lleol. Mater perygl llifogydd sylweddol yw bod yr afon yn cael ei chyfyngu o dan y brif reilffordd ac o ganlyniad mae lefelau afonydd uchel i fyny'r afon a llifogydd dŵr wyneb sylweddol.

***Gwaith Amddiffyn rhag Llifogydd***

Mae'r gwaith amddiffyn rhag llifogydd allweddol a wneir yn ardal 4005-D yn cynnwys:

- Teledu cylch cyfyng o'r seilwaith draenio.
- Ymchwiliad draenio ac atgyweirio ym Mharc Busnes Trostre.
- Gwaith gwella priffyrdd ar Heol Trostre, gan gynnwys gwelliannau draenio yn 2012.
- Datblygu Achos Busnes ar gyfer PLP ym Mhenyfan (oddi ar Heol Trostre) rhwng 2021 a 2023.
- Gwerthuso'r berthynas rhwng lefelau Llynnoedd Delta a'r perygl llifogydd yn Nhrostre.




*Ffigur 5-7 Ardal Risg Llifogydd 4005-D*

*Tabl 5-11 Crynodeb o Ardaloedd Risg Llifogydd Llanelli*

| Ardal Risg Llifogydd | Gwybodaeth am Amddiffynfeydd rhag Llifogydd ac Asedau | Cyfeiriadau mewn Perygl | Derbynyddion Allweddol | Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol | Partneriaid FRM Allweddol | Ymgysylltu â'r Gymuned |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4005-A | • Sgrin brigau Penywern<br>• System dŵr wyneb preifat Penywern<br>• Cwrs dŵr â chwlfert ym Mhenywern (preifat) ac yng Nghoedlan Denham (awdurdod priffyrdd)<br>• Sgrin Brigau KP Tyres<br>• Basn Cadw Ysgol y Strade<br>• Amddiffynfeydd CNC<br>• Ceunentydd priffyrdd a draenio ochrol. | Afonol: 176<br>Glawog: 14 | • Anheddau preswyl<br>• Ffordd yr A464<br>• Ysgol y Strade<br>• Busnesau bach lleol, depo bysiau a modurdai | • Coedlan Denham—llifogydd dŵr wyneb a dŵr daear<br>• Penywern—llifogydd dŵr wyneb o system breifat<br>• Heol y Sandy—llifogydd o Afon Dulais a sianel perygl llifogydd CNC—llifogydd dŵr wyneb pan na all draenio priffyrdd ollwng.<br>• Heol Stepney, Pwll—dim byd yn ddiweddar | • CNC<br>• CSC<br>• Tîm Priffyrdd CSC<br>• Addysg (CSC)<br>• Coleg Sir Gar | • Dymunir (tymor canolig) |
| 4005-B | • FRM Cyfartaledd i Dda<br>• Priffyrdd yn unig Ffyrdd A 100% | Afonol: 47<br>Glawog: 108 | • Rhwydwaith prif ffyrdd Dwyrain–Gorllewin yr A484 | • Lakeview Terrace | • CNC<br>• Tirfeddianwyr Lleol | • Dymunol (hirdymor) |
| 4005-C | • FRM gwael<br>• Priffyrdd yn unig Ffyrdd A 100%<br>• Mae gan DCWW y data asedau | Afonol: 390<br>Glawog: 449 | • Cartref Llesiant Delta—Llesiant Delta<br>• Gorsaf fysiau, gorsaf drenau, gorsaf heddlu, gorsaf dân, canolfan hamdden (canolfan orffwys)<br>• Y rhwydweithiau prif ffyrdd | • Ni chofnodwyd unrhyw faterion mawr | • DCWW<br>• Tîm Adfywio CSC<br>• Menter Deg Tref CSC<br>• Priffyrdd/Parciau CSC<br>• CNC<br>• Tirfeddianwyr Lleol | • Dymunol (tymor canolig) |

| Ardal Risg Llifogydd | Gwybodaeth am Amddiffynfeydd rhag Llifogydd ac Asedau | Cyfeiriadau mewn Perygl | Derbynyddion Allweddol | Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol | Partneriaid FRM Allweddol | Ymgysylltu â'r Gymuned |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | • Llywodraeth Cymru | |
| 4005-D | • Prif asedau<br>• CSC, seilwaith draenio priffyrdd, Parc Busnes a Seilwaith y parc manwerthu<br>• CNC—Muriau llifogydd Afon Dafen<br>• NR—cwlfert o dan y rheilffordd | Afonol: 163<br>Glawog: 51 | • Y prif linell reilffordd<br>• Parc Busnes Trostre a Trostre Retail Park<br>• Heol Trostre | • Heol Trostre<br>• Parc Busnes Trostre<br>• Parc Manwerthu Trostre | • CNC<br>• Llywodraeth Cymru<br>• Network Rail<br>• Tirfeddianwyr Lleol | • Dymunol (hirdymor) |

### 5.2.6 Camau Gweithredu a Nodiwyd

Ar ôl nodi'r ardaloedd risg llifogydd ledled cymuned Llanelli, datblygwyd rhestr o gamau gweithredu isod yn **Error! Not a valid bookmark self-reference.** i fynd i'r afael â pherygl llifogydd, gan ei reoli a'i leihau. Gellir gweithredu'r camau a nodir mewn rhai neu bob un o FRAau Llanelli.

*Tabl 5-12 Rhestr Hir o Gamau Gweithredu Posibl yn Llanelli*

| Ardal | Camau Gweithredu Posibl | Math o Weithred | Disgrifiad | Cwblhawyd / Tymor Byr / Canolig / Hirdymor | Amcangyfrif o'r Costau |
|---|---|---|---|---|---|
| Y Gymuned Gyfan | Rheoli a Chynnal a Chadw Asedau | Atal | Parhau â'r gwaith yng Nghronfa Ddŵr Trebeddrod. | Ar y Gweill | ££££ |
| | Gweithio mewn partneriaeth | Adolygu | Ceisio cyllid Llywodraeth Cymru er mwyn cwblhau Cynllun Lliniaru Llifogydd Penyfan. | Byr | £££ |
| | Rheoli a Chynnal a Chadw Asedau | Parodrwydd | Teledu cylch cyfyng Heol y Sandy. | Canolig i hirdymor | ££ |
| | Rhagolygon Llifogydd ac Ymateb Brys | Parodrwydd | Gweithio gyda phreswylwyr sydd â systemau dŵr wyneb preifat (Penywern). | Canolig i hirdymor | £ |
| | Rhagolygon Llifogydd ac Ymateb Brys | Parodrwydd | Ceisio cael gwared ar sgrin brigau Croesfan Dafen. | Canolig | £ |
| | Gweithio mewn partneriaeth | Adolygu | Cefnogi CNC ac NR i wneud cynnydd o ran ateb ar gyfer Afon Dafen. | Canolig i hirdymor | £ |
| | Gweithio mewn partneriaeth | Adolygu | Gweithio mewn partneriaeth â Datblygu Economaidd CSC i sicrhau bod mesurau rheoli perygl llifogydd yn cael eu corffori mewn unrhyw fentrau yng nghanol y dref. | Canolig i hirdymor | £ |

| Ardal | Camau Gweithredu Posibl | Math o Weithred | Disgrifiad | Cwblhawyd / Tymor Byr / Canolig / Hirdymor | Amcangyfrif o'r Costau |
|---|---|---|---|---|---|
| | Gweithio mewn partneriaeth | Adolygu | Gweithio mewn partneriaeth â Datblygu Economaidd ac Eiddo i weld a oes cyllid i reoli'r perygl llifogydd ym Mharc Busnes Trostre. | Canolig i hirdymor | £ |
| 4005-A | NFM | Atal | Chwilio am gyfleoedd am dechnegau NFM yn y dalgylch uchaf a allai leihau llifoedd brig a lleihau pwysau i lawr yr afon. | Hirdymor | £££ |
| | Peirianneg Caled | Atal | Cynyddu graddfa yr amddiffynfeydd CNC presennol er mwyn diogelu eiddo sydd mewn perygl. | Canolig | ££££ |
| 4005-B | Rheoli a chynnal a chadw asedau | Diogelu | Creu cynlluniau rheoli asedau ar gyfer asedau allweddol ac ymgymryd ag arolygon a gwaith cynnal a chadw rheolaidd. | Ar y Gweill | £ |
| | NFM | Atal | Chwilio am gyfleoedd am dechnegau NFM yn y dalgylch uchaf a allai leihau llifoedd brig a lleihau pwysau i lawr yr afon. | Hirdymor | £££ |
| | Rhagolygon Llifogydd ac Ymateb Brys | Parodrwydd | Cefnogi CNC i sicrhau bod yr holl breswylwyr sydd mewn perygl wedi cofrestru i dderbyn rhybuddion llifogydd. | Byr | £ |
| | Cydnerthedd Gwrthsefyll Llifogydd Eiddo | Parodrwydd | Chwilio am gyfleoedd i hybu technolegau a thechnegau Cydnerthedd Gwrthsefyll Llifogydd Eiddo er mwyn gwneud preswylwyr yn ymwybodol o lifogydd. | Byr | £ |
| 4005-C | Cynllunio Datblygu Cynaliadwy a Strategol | Atal | Sicrhau bod pob datblygiad newydd yn cydymffurfio â pholisïau cynllunio a bod SDCau yn cael eu gweithredu i reoli dŵr ffo yn ei darddle. | Byr | £ |

| Ardal | Camau Gweithredu Posibl | Math o Weithred | Disgrifiad | Cwblhawyd / Tymor Byr / Canolig / Hirdymor | Amcangyfrif o'r Costau |
|---|---|---|---|---|---|
| | Ôl-osod SDCau | Atal | Chwilio am gyfleoedd i ôl-osod SDCau mewn amgylchedd trefol er mwyn lleihau dŵr ffo a darparu gwanhad. | Canolig | £££ |
| | Rhagolygon Llifogydd ac Ymateb Brys | Parodrwydd | Cefnogi CNC i sicrhau bod yr holl breswylwyr sydd mewn perygl wedi cofrestru i dderbyn rhybuddion llifogydd. | Byr | £ |
| | Cydnerthedd Gwrthsefyll Llifogydd Eiddo | Parodrwydd | Chwilio am gyfleoedd i hybu technolegau a thechnegau Cydnerthedd Gwrthsefyll Llifogydd Eiddo er mwyn gwneud y cyhoedd yn ymwybodol o lifogydd. | Byr | ££ |
| 4005-D | Cydnerthedd Gwrthsefyll Llifogydd Eiddo | Parodrwydd | Chwilio am gyfleoedd i hybu technolegau a thechnegau Cydnerthedd Gwrthsefyll Llifogydd Eiddo er mwyn gwneud y cyhoedd yn ymwybodol o lifogydd. | Byr | ££ |
| | Peirianneg caled | Diogelu | Cefnogi CNC yn ei waith i leihau pwysau ac effaith gyfyngol y cwlfert rheilffordd. | Canolig | £ |
| | Gweithio mewn Partneriaeth | Adolygu | Gweithio mewn partneriaeth â CNC a Network Rail i drosglwyddo perchnogaeth a chyfrifoldeb am sgrin brigau Afon Dafen neu gael gwared arni yn unol â hynny. | Byr | £ |
| | Ôl-osod SDCau | Atal | Chwilio am gyfleoedd i ôl-osod SDCau mewn amgylchedd trefol er mwyn lleihau dŵr ffo a darparu gwanhad. | Canolig | £££ |
| | Rheoli Llifogydd Naturiol | Atal | Chwilio am gyfleoedd am dechnegau NFM yn y dalgylch uchaf a allai leihau llifoedd brig a lleihau pwysau i lawr yr afon. | Canolig | £££ |

## 5.3 Llwynhendy—4667

### 5.3.1 Disgrifiad o'r Ardal Gymunedol


Pentref sydd a leolir i'r gorllewin o ganol tref Llanelli yn Sir Gaerfyrddin yw Llwynhendy (Ffigur 5-8). Yn 2021, oddeutu 4,389 o bobl oedd cyfanswm poblogaeth Llwynhendy[14].

Er mai Afon Dafen yw'r brif nodwedd hydrolegol sy'n bresennol yn Llwynhendy, nid yw Afon Dafen yn peri perygl llifogydd sylweddol i'r gymuned hon. Fodd bynnag, ystyrir bod 1 o bob 23 o bobl mewn perygl o lifogydd glawog yn Llwynhendy.

Mae'r nodweddion defnydd tir pennaf yn Llanelli yn cynnwys ardaloedd preswyl, busnesau lleol, tir amaethyddol a mannau agored. Mae Canolfan Gwlyptir Llanelli a leolir yn rhanbarth mwyaf deheuol ardal gymunedol Llwynhendy yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), yn Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) ac yn safle Ramsar.

Mae seilwaith arwyddocaol yn cynnwys stadiwm rygbi Parc y Scarlets, parth manwerthu Parc Pemberton, Gwaith Dur Trostre, a chysylltiadau trafnidiaeth megis gorsaf reilffordd Bynea yn ogystal â chefnffyrdd megis yr A484 a'r B429.

[14] Data Cyfrifiad Llwynhendy Llwynhendy (Ward, United Kingdom)—Population Statistics, Charts, Map and Location (citypopulation.de)




*Ffigur 5-8 Ardal Gymunedol Llwynhendy*

## 5.3.2 Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol

Yn hanesyddol, nid ydym yn ymwybodol o unrhyw ddigwyddiadau llifogydd sylweddol yng nghymuned Llwynhendy, ond gwyddom fod digwyddiadau ynysig, megis ym Mynea, o amgylch yr ysgol gynradd, y sgwâr a Cwmfelin Road. Bydd yr ardal hynod drefol hon yn cael ei gwasanaethu gan ddraeniau priffyrdd CSC a seilwaith DCWW, felly mae'n debygol y bydd aelodau y gymuned yn adrodd materion llifogydd i'r sefydliadau partner hyn yn ogystal â thîm FRM CSC. Mae DCWW wedi cadarnhau bod 11 achos o lifogydd a adroddwyd iddo yn ystod yr un cyfnod. Pwysleisia Tabl 5-13, rhwng 2018 a 2024, fod 42 o ddigwyddiadau a adroddwyd i dîm FRM CSC, sy'n uwch na'r cyfartaledd o'u cymharu â'r 28 o gymunedau â'r risg uchaf.

*Tabl 5-13 Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol yn Llwynhendy*

| Math o Ddigwyddiad | Nifer yr Achlysuron | Digwyddiadau a adroddwyd i sefydliadau partner |
|---|---|---|
| Amhreswyl Allanol | 1 | - |
| Preswyl Allanol | 28 | 11 |

| Math o Ddigwyddiad | Nifer yr Achlysuron | Digwyddiadau a adroddwyd i sefydliadau partner |
|---|---|---|
| Amhreswyl Mewnol | 1 | - |
| Preswyl Mewnol | 12 | - |

### 5.3.3 Perygl Llifogydd mewn Ardal Gymunedol

Cyflwynir data sy'n ymwneud â nifer y cyfeiriadau sydd mewn perygl o lifogydd afonol neu lawog ledled ardal gymunedol Llwynhendy isod yn 5-14. Yn yr ardal breswyl hon sy'n drefol yn bennaf, llifogydd glawog yw'r perygl mwyaf. Gan fod eiddo yn Llwynhendy mewn mwy o berygl o lifogydd glawog, byddai'r camau gweithredu i liniaru perygl llifogydd yn y gymuned hon gael eu harwain/cychwyn gan CSC.

*Tabl 5-14 Cyfanswm y Cyfeiriadau sydd mewn Perygl o Lifogydd Glawog ac Afonol yn Llwynhendy*

| Math o Lifogydd | Nifer yr Eiddo sydd mewn Perygl |
|---|---|
| Llifogydd Glawog | 84 |
| Llifogydd Afonol | 0 |

Dangosir bod derbynyddion, gan gynnwys parc manwerthu Parc Pemberton a Gorsaf Reilffordd Bynea mewn perygl o lifogydd glawog. Mae ffyrdd gan gynnwys Lower Trostre Road mewn perygl o lifogydd afonol o Afon Dafen Newydd. Cyflwyna Tabl 5-15 ragor o wybodaeth am dderbynyddion sy'n bresennol yn Llwynhendy sydd mewn perygl o lifogydd.

*Tabl 5-15 Derbynyddion Llwynhendy*

| Derbynnydd | Perygl Afonol | Perygl Glawog |
|---|---|---|
| Hyd y Ffyrdd (km) | 404 | 1322 |
| Hyd y Rheilffyrdd (km) | 111 | 236 |
| Amgylcheddol (n) | 18 | 4 |
| Tir Amaethyddol ($m^2$) | 439292 | 61524 |
| Eiddo Preswyl | 0 | 80 |
| Eiddo Amhreswyl | 0 | 4 |
| Gwasanaethau Allweddol (n) | 0 | 2 |
| Safleoedd SFCA Ychwanegol | 1 | 3 |
| Parc Manwerthu | Parc Trostre | Parc Pemberton, Llanelli |
| Dyraniad Preswyl | 0 | 3 |
| Adeiladau Rhestredig | 0* | |

| Derbynnydd | Perygl Afonol | Perygl Glawog |
|---|---|---|
| **Mae'r cyfrif yma yn archwilio nifer yr adeiladau rhestredig sy'n bresennol ledled yr ardal gymunedol y nodwyd eu bod yn ardal risg uchel. Nid yw'r cyfrif yn awgrymu bod cyfanswm yr adeiladau mewn perygl o lifogydd afonol a llifogydd glawog—ond yn hytrach eu bod mewn perygl cyffredinol o lifogydd.* | | |

### 5.3.4 Gwaith FRM yn yr ardal ers FRMP-1

Cyflwynir gwaith FRM a wnaed yn Llwynhendy ers FRMP-1 isod yn 5-16.

*Tabl 5-16 Gwaith FRM a wnaed yn Llwynhendy ers FRMP-1 CSC.*

| Ardal Benodol/Ardal Uned Bolisi | Camau Gweithredu FRM (FRMP-1) | Cynnydd |
|---|---|---|
| Heol Elfed, Llwynhendy, Llanelli | 2019/20: Nodi perchnogaeth y system dŵr wyneb.<br><br>2019/20: Cynnal system dŵr wyneb â theledu cylch cyfyng.<br><br>2019/20: Penderfynu capasiti y system. | Cwblhawyd |
| Pemberton Road, Llwynhendy, Llanelli | Cysylltu â DCWW ynghylch perygl llifogydd a chynnal a chadw. | Ar y Gweill |

### 5.3.5 Ardaloedd Risg Llifogydd

Mae un ardal risg llifogydd a nodwyd yn Llwynhendy, a labelir fel 4667-A yn Ffigur 5-9. Ceir gwybodaeth mwy penodol am y perygl llifogydd yn yr ardal hon yn Tabl 5-17.


***Disgrifiad o'r Ardal***

Adwaenir yr ardal yn lleol fel Cefncaeau ac mae'n ymestyn hyd Penygraig ac i mewn i Fynea. Fe'i lleolir i'r gogledd o Waith Dur Trostre, mae'r A484 yn ffurfio'r ffin ddeheuol i raddau helaeth, ac mae'r ffin ogleddol yn cynnwys ardal Cwmcarrhywel, sef ardal breswyl i raddau helaeth. Rhennir rhan ganolog yr ardal gan ffordd y B4297. Preswyl yw'r ardal yn bennaf a llifogydd dŵr wyneb yw'r brif ffynhonnell llifogydd yn yr ardal.

***Gwaith Amddiffyn rhag Llifogydd***

Mae'r gwaith amddiffyn rhag llifogydd allweddol a wneir yn Llwynhendy yn cynnwys:

- Achos Amlinellol Strategol ac Achos Busnes Amlinellol a gwblhawyd rhwng 2021 a 2022. Cadarnhaodd y canfyddiadau nad oedd achos digonol i symud ymlaen.




*Ffigur 5-9 Ardal Risg Llifogydd 4667-A*

*Tabl 5-17 Crynodeb o Ardaloedd Risg Llifogydd Llwynhendy*

| Ardal Risg Llifogydd | Gwybodaeth am Amddiffynfeydd rhag Llifogydd ac Asedau | Cyfeiriadau mewn Perygl | Derbynyddion Allweddol | Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol | Partneriaid FRM Allweddol | Ymgysylltu â'r Gymuned |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4667-A | • Gwael | Afonol: 1<br>Glawog: 102 | • Parc Manwerthu<br>• Stadiwm Parc y Scarlets<br>• Trac Athletau<br>• Llyfrgell Llywnhendy<br>• Gwaith Trin Carthion DCWW<br>• Ysgol Bynea<br>• Asedau Network Rail<br>• Heddlu Dyfed-Powys—Gorsaf Heddlu Llwynhendy<br>• Ysgolion (gan gynnwys Ysgol Bryn; Ysgol Brynsierfel; Ysgol Gynradd Bynea)<br>• Tata Steel—Trostre<br>• Parc Pemberton Retail | • Ddim yn hysbys | • DCWW | • Dymunol (hirdymor) |

### 5.3.6 Camau Gweithredu a Nodiwyd

Ar ôl nodi'r ardaloedd risg llifogydd ledled cymuned Llwynhendy, datblygwyd rhestr o gamau gweithredu isod yn 5-18 i fynd i'r afael â pherygl llifogydd, gan ei reoli a'i leihau.

*Tabl 5-18 Rhestr Hir o Gamau Gweithredu Posibl yn Llwynhendy*

| Ardal | Camau Gweithredu Posibl | Math o Weithred | Disgrifiad | Cwblhawyd / Tymor Byr / Canolig / Hirdymor | Amcangyfrif o'r gost |
|---|---|---|---|---|---|
| 4667 | Ôl-osod SDCau | Diogelu | Chwilio am gyfleoedd i ôl-osod SDCau mewn amgylchedd trefol er mwyn lleihau dŵr ffo a darparu gwanhad. Gallai eiddo ym Mryn Rhos/Brynawelon elwa yn ogystal â Cwmfelin Road. Gallai ardaloedd ag wynebau caled yn y stadiwm a'r parc busnes elwa hefyd o gael eu hôl-osod a'u harddangos i'r cyhoedd. | Canolig | £££ |
| | Rheoli a Chynnal a Chadw Asedau | Atal | Gwella gwybodaeth am asedau yn y gymuned hon a chreu amserlenni rheoli a chynnal a chadw asedau. Gweithio gyda DCWW i ymchwilio i gysylltiadau dŵr wyneb a charthion budr. | Ar y Gweill | £ |

# 6 Ardal Basn Afon Llwchwr Aman

## 6.1 Rhydaman—4016


### 6.1.1 Disgrifiad o'r Ardal Gymunedol

Tref drefol a leolir yn ABA Llwchwr Aman, i'r dwyrain o Gaerfyrddin yw Rhydaman (Ffigur 6-1). Yn 2021, oddeutu 5,500 o bobl oedd cyfanswm poblogaeth Rhydaman.[15]

Mae'r prif nodweddion hydrolegol sy'n bresennol yn Rhydaman yn cynnwys Afon Marlas, Afon Aman, Afon Llwchwr, Afon Lash. Mae pob un ohonynt yn brif afonydd dynodedig. Mae 1 o bob 7 o bobl yn Rhydaman mewn perygl o lifogydd afonol a glawog.

Mae ardaloedd mwyaf gogleddol Rhydaman yn fwy trefol mewn cyferbyniad â'r ardaloedd mwyaf deheuol o Rydaman sydd â nodweddion gwledig yn bennaf. Mae'r seilwaith arwyddocaol yn cynnwys Maes Hamdden Rhydaman, Canol Tref Rhydaman yn ogystal â chysylltiadau cludiant megis Gorsafoedd Rheilffordd Rhydaman a Phantyffynnon, yr A483 a'r A474.

[15] Ammanford Parish https://ammanford.parish.uk/#:~:text=Population,5%2C437%20%282021%29




*Ffigur 6-1 Ardal Gymunedol Rhydaman*

### 6.1.2 Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol

Yn hanesyddol, mae Rhydaman wedi gweld digwyddiadau llifogydd afonol sylweddol o Afon Llwchwr, Lash, Marlais ac ardal Afon Aman cyn belled yn ôl â'r 1970au. Ym 1979, bu llifogydd yn Heol yr Orsaf a'r rheilffordd, ac ym 1998 effeithiwyd ar Goleg Sir Gâr ac eiddo cyfagos. Gwelodd 2002 lifogydd yn Heol Aberlash a bu llifogydd yn 2009 hefyd.  O ran llifogydd glawog, pan fo'r prif afonydd yn gorlifo neu'n llifeirio, gall y llanw gau'r systemau draenio sy'n gwasanaethu'r ardaloedd trefol, sydd wedyn yn cynyddu'r perygl o lifogydd glawog.

Dengys Tabl 6-1 isod fod tîm FRM CSC wedi derbyn 44 o adroddiadau llifogydd rhwng 2018 a 2024, sy'n uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y cyfnod hwn. Dros yr un cyfnod, cafodd DCWW 249 o adroddiadau llifogydd.

*Tabl 6-1 Digwyddiadau llifogydd hanesyddol a gofnodwyd yn Rhydaman*

| Math o Ddigwyddiad | Nifer yr Achlysuron | Lifogydd a adroddwyd i sefydliadau partner |
|---|---|---|
| Amhreswyl Allanol | 3 | - |

| | | |
|---|---|---|
| Preswyl Allanol | 26 | 141 |
| Amhreswyl Mewnol | 5 | - |
| Preswyl Mewnol | 10 | 8 |

### 6.1.3 Perygl Llifogydd mewn Ardal Gymunedol

Cyflwynir data sy'n ymwneud â nifer yr eiddo sydd mewn perygl o lifogydd afonol neu lawog ledled ardal gymunedol Rhydaman isod yn 6-2. Mae eiddo ledled Rhydaman mewn perygl o lifogydd glawog ac afonol. Bydd CNC yn parhau i arwain y gwaith rheoli perygl llifogydd o'r prif afonydd gan gynnwys Afon Llwchwr ac Afon Aman, a bydd CSC yn rheoli'r perygl o lifogydd glawog.

*Tabl 6-2 Cyfanswm y cyfeiriadau sydd mewn perygl o lifogydd glawog ac afonol yn Rhydaman*

| Math o Lifogydd | Nifer yr Eiddo sydd mewn Perygl |
|---|---|
| Llifogydd Glawog | 284 |
| Llifogydd Afonol | 247 |

Dangosir bod ffyrdd gan gynnwys Bonllwyn Road, Llwyn-y-Bryn a Ffordd yr Afon mewn perygl o lifogydd afonol a dangosir bod ffyrdd Stryd Arthur, Ffordd yr Orsaf a Heol y Wyrddol mewn perygl sylweddol o lifogydd glawog. Cyflwyna Tabl 6-3 nifer y derbynyddion sy'n bresennol yn Rhydaman sydd mewn perygl o lifogydd.

*Tabl 6-3 Crynodeb o'r Cyfrif Derbynyddion yn Rhydaman*

| Derbynnydd | Perygl Afonol | Perygl Glawog |
|---|---|---|
| Hyd y Ffyrdd (km) | 3462 | 4962 |
| Hyd y Rheilffyrdd (km) | 1047 | 368 |
| Amgylcheddol (n) | 1 | 2 |
| Tir Amaethyddol ($m^2$) | 1189060 | 304596 |
| Eiddo Preswyl | 229 | 245 |
| Eiddo Amhreswyl | 18 | 39 |
| Gwasanaethau Allweddol (n) | 1 | 7 |
| Safleoedd SFCA Ychwanegol | 0 | 1 |
| Dyraniad Preswyl | 0 | 3 |
| Adeiladau Rhestredig (n) | 17* | |
| *Mae'r cyfrif yma yn archwilio nifer yr adeiladau rhestredig sy'n bresennol ledled yr ardal gymunedol y nodwyd eu bod yn ardal risg uchel. Nid yw'r cyfrif yn awgrymu bod cyfanswm yr adeiladau mewn perygl o lifogydd afonol a llifogydd glawog—ond yn hytrach eu bod mewn perygl cyffredinol o lifogydd. | | |

### 6.1.4 Gwaith FRM yn yr ardal ers FRMP-1

Cyflwynir gwaith FRM a wnaed yn Rhydaman ers FRMP-1 isod yn Tabl 6-4.

*Tabl 6-4 Gwaith FRM a wnaed yn Rhydaman ers FRMP-1 CSC.*

| Ardal Benodol (Ardal Uned Bolisi) | Camau Gweithredu FRM (FRMP-1) | Cynnydd |
|---|---|---|
| Carregamman, Rhydaman | Gwirio llwybr, perchnogaeth a chyfrifoldeb am y system dŵr wyneb yn yr Uned Bolisi. Cyflawnir hyn trwy gynnal arolygon teledu cylch cyfyng a gwiriadau y Gofrestrfa Tir. | Cwblhawyd |
| Iscennen a Stryd Marged, Rhydaman | Gwaith rheoli/cynnal a chadw asedau arferol | Ar y Gweill |
| | Cynnal arolygon teledu cylch cyfyng a mynd i'r afael â diffygion ar sail risg. | Cwblhawyd |
| Stryd Arthur, Rhydaman | Cynnal arolwg camera cylch cyfyng a gweithredu unrhyw ddiffygion strwythurol neu wasanaeth ar sail risg | Cwblhawyd |

### 6.1.5 Ardaloedd Risg Llifogydd

Gan na ellir cymhwyso camau gweithredu unigol i fynd i'r afael â'r perygl llifogydd ledled cymuned Rhydaman yn gyffredinol, crëwyd dwy ardal ar sail yr ardaloedd risg llifogydd a dalgylchoedd. Ceir gwybodaeth mwy penodol am y perygl llifogydd yn yr ardaloedd hyn yn 6-5.

#### *6.1.5.1 4016-A—Tir y Dail a Gwynfryn*

***Disgrifiad o'r Ardal***

Mae Ardal 4016-A (Ffigur 6-2) yn ffinio â'r A474 i'r dwyrain. Mae ardal 4016-A mewn perygl o lifogydd afonol yn bennaf, oherwydd presenoldeb Afon Marlas ac Afon Lash sy'n cydgyfarfod ar Afon Llwchwr. Mae Afon Marlas ac Afon Lash yn cydgyfarfod yn Afon Llwchwr yn Ardal 4016-A. Yna mae Afon Llwchwr yn parhau i lifo'n uniongyrchol drwy Ardal 4016-A. Preswyl a mannau gwyrdd agored yw'r defnyddiau tir pennaf yn Ardal 4016-A.


***Gwaith Amddiffyn rhag Llifogydd***

Oherwydd natur y perygl llifogydd, CNC sy'n rheoli'r ardal hon yn bennaf. Dros y 10 mlynedd ddiwethaf a mwy, mae astudiaethau CNC wedi dangos achos cryf dros newid oherwydd bod yr ardal hon yn un o'r cymunedau sydd â'r perygl mwyaf o lifogydd o'r prif afonydd yng Ngorllewin Cymru ac sy'n wynebu'r cynnydd mwyaf mewn perygl llifogydd o ganlyniad i newid hinsawdd. Rhagwelwyd y bydd llifogydd yn yr ardal yn costio oddeutu £7.9 miliwn i'r DU ym mhrisiau heddiw dros y ganrif nesaf.

Oherwydd bod dewisiadau i arafu llifoedd i fyny'r afon yn anymarferol, canolbwyntiodd y gwaith dadansoddi dewisiadau ar gyfyngu dyfroedd llifogydd yn well yng nghoridor yr afon. Ni fyddai un amddiffyniad rhag llifogydd yn gallu cyflawni amcanion y prosiect, felly mabwysiadwyd cyfuniad o amddiffynfeydd ar hyd yr afon fel yr ateb a ffefrir.

Nod y cynllun oedd lleihau'r perygl llifogydd hyd at ddigwyddiad 1% AEP, gan ganiatáu effaith newid hinsawdd dros oes 100 mlynedd y cynllun; gan fod o fudd i 349 o gartrefi a 37 o fusnesau. Cwblhawyd hyn yn 2024 drwy gynllun Rheoli Perygl Llifogydd Rhydaman[16].

[16] Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Rhydaman (2024). Ar gael yn: https://waterprojectsonline.com/case-studies/ammanford-flood-risk-management-2024/#:~:text=The%20scheme%20was%20designed%20to,349%20homes%20and%2037%20businesses. [Aed at y wefan ym mis Chwefror 2025]




*Ffigur 6-2 Ardal Risg Llifogydd 4016-A*

#### 6.1.5.2 4016-B Canol Tref Rhydaman

***Disgrifiad o'r Ardal***


Effeithir ar Ardal 4016-B (Ffigur 6-3) gan lifogydd glawog o ddau gwrs dŵr cyffredin di-enw yn bennaf sy'n llifo oddi ar y Mynydd Du i'r gogledd-ddwyrain ac o dan y dref mewn cwlfert. Mae Tabl 6-5 yn crynhoi nifer y cyfeiriadau sydd mewn perygl o lifogydd afonol a glawog yn yr ardaloedd risg llifogydd.

***Gwaith Amddiffyn rhag Llifogydd***

Mae canol tref Rhydaman wedi bod yn brif ffocws ar gyfer gwaith amddiffyn rhag llifogydd CSC dros y blynyddoedd diwethaf. Yn 2022, gyda chefnogaeth grant Llywodraeth Cymru, datblygodd CSC gynllun NFM ac mae ail brosiect mawr, sy'n canolbwyntio ar uwchraddio cwlferi wedi dechrau yn 2024.

Mae arolygu a chynnal a chadw asedau FRM, sef cwlferi yn Rhydaman, wedi bod yn heriol oherwydd bod llawer ohonynt yn mynd drwy erddi preifat.

Yn 2021, mewn partneriaeth ag Ysgol Dyfryn Aman (yr ysgol gyfun leol), manteisiodd y tîm FRM ar y cyfle i addysgu rhai gwersi NFM a FRM.




*Ffigur 6-3 Ardal Risg Llifogydd 4016-B*

*Tabl 6-5 Crynodeb o Ardaloedd Risg Llifogydd Rhydaman*

| Ardal Risg Llifogydd | Gwybodaeth am Amddiffynfeydd rhag Llifogydd ac Asedau | Cyfeiriadau mewn Perygl | Derbynyddion Allweddol | Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol | Partneriaid FRM Allweddol | Ymgysylltu â'r Gymuned |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4016-A | Gwael | • Afonol: 191<br>• Glawog: 39 | • Prif Ffordd (A483)<br>• Ammanford Metal Recycling<br>• Rheilffordd Calon Cymru<br>• Coleg Sir Gâr—Campws Rhydaman | • Oes | • CNC<br>• Llywodraeth Cymru | • Gweithredol |
| 4016-B | • Da | • Afonol: 49<br>• Glawog: 277 | • Gorsaf Reilffordd a rheilffordd Rhydaman<br>• Gorsaf Fysiau Rhydaman<br>• Prif Ffyrdd (A474, A483)<br>• Canolfan Gweithgareddau Cymdeithasol Rhydaman<br>• Meithrinfa Jac-y-Do<br>• Parc a Chlwb Criced Rhydaman<br>• Ysgolion (Ysgol Gynradd Bro Banw)<br>• Gorsaf Dân Rhydaman<br>• Neuadd y Dref, Rhydaman | • Oes | • DCWW<br>• Priffyrdd/Parciau<br>• Llywodraeth Cymru<br>• Tirfeddianwyr Lleol | • Gweithredol |

| Ardal Risg Llifogydd | Gwybodaeth am Amddiffynfeydd rhag Llifogydd ac Asedau | Cyfeiriadau mewn Perygl | Derbynyddion Allweddol | Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol | Partneriaid FRM Allweddol | Ymgysylltu â'r Gymuned |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | • Canolfan Hamdden Dyffryn Aman<br>• Canol y Dref<br>• Siop Fawr Tesco | | | |

### 6.1.6 Camau Gweithredu a Nodiwyd

Ar ôl nodi'r ardaloedd risg llifogydd ledled cymuned Rhydaman, datblygwyd camau gweithredu isod yn *6-6* i fynd i'r afael â pherygl llifogydd, gan ei reoli a'i leihau.

*Tabl 6-6 Rhestr Hir o Gamau Gweithredu Posibl yn Rhydaman*

| Ardal | Camau Gweithredu Posibl | Math o Weithred | Disgrifiad | Cwblhawyd / Tymor Byr / Canolig / Hirdymor | Amcangyfrif o'r costau |
|---|---|---|---|---|---|
| 4016-A | Rheoli a Chynnal a Chadw Asedau | Atal | Gweithio gyda phreswylwyr lleol er mwyn cadarnhau lleoliad asedau allweddol sydd ar gyrsiau dŵr cyffredin a sefydlu cynllun cynnal a chadw a monitro. | Ar y Gweill | £ |
| | Cydnerthedd Gwrthsefyll Llifogydd Eiddo | Diogelu | Chwilio am gyfleoedd i rymuso preswylwyr lleol i wrthsefyll llifogydd drwy fesurau cydnerthedd ar lefel eiddo. | Hirdymor | £ |
| 4016-B | Ôl-osod SDCau | Atal | Chwilio am gyfleoedd i Ôl-osod SDCau mewn amgylchedd trefol er mwyn lleihau dŵr ffo a darparu gwanhad ee, Stryd Marged/Heol Iscennen. | Hirdymor | £££ |

| Ardal | Camau Gweithredu Posibl | Math o Weithred | Disgrifiad | Cwblhawyd / Tymor Byr / Canolig / Hirdymor | Amcangyfrif o'r costau |
|---|---|---|---|---|---|
| | Rheoli a Chynnal a Chadw Asedau | Atal | Gweithio gyda phreswylwyr lleol er mwyn cadarnhau lleoliad asedau allweddol sydd ar gyrsiau dŵr cyffredin a sefydlu cynllun cynnal a chadw a monitro. | Ar y Gweill | £ |
| | Cydnerthedd Gwrthsefyll Llifogydd Eiddo | Diogelu | Chwilio am gyfleoedd i rymuso preswylwyr lleol i wrthsefyll llifogydd drwy fesurau cydnerthedd ar lefel eiddo. | Canolig | £££ |

## 6.2 Brynaman—4750


### 6.2.1 Disgrifiad o'r Ardal Gymunedol

Pentref a leolir ar ochr ddeheuol y Mynydd Du, sy'n rhan o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn ABA Llwchwr Aman yw Brynaman (Ffigur 6-4). Yn 2021, oddeutu 2,633 o bobl oedd cyfanswm poblogaeth Brynaman.[17]

Er mai Afon Aman yw'r brif nodwedd hydrolegol sy'n bresennol ym Mrynaman, nid yw Afon Aman yn peri perygl llifogydd sylweddol i'r gymuned hon. Mae amryw o gyrsiau dŵr cyffredin hefyd sy'n bresennol yn yr ardal gymunedol hon. Er yr ystyrir bod y perygl a berir gan lifogydd afonol i bobl yn isel, mae 1 o bob 13 o bobl mewn perygl o lifogydd glawog ym Mrynaman.

Mae'r nodweddion defnydd tir pennaf ym Mrynaman yn cynnwys ardaloedd preswyl, gweddillion seilwaith mwyngloddio, tir amaethyddol, a darnau o goetir. Mae seilwaith allweddol ym Mrynaman yn cynnwys ysgolion (megis Ysgol Gynradd Brynaman), cyfleusterau cymunedol, siopau lleol, gwasanaethau gofal iechyd. Trwy'r priffyrdd a'r A4069 a'r A4068 y mae'r prif gludiant.

[17] Data Cyfrifiad Brynaman Brynaman (Sir Gaerfyrddin, Cymru, Y Deyrnas Unedig)—Ystadegau Poblogaeth, Siartiau, Map, Lleoliad, Tywydd a Gwybodaeth am y We (citypopulation.de)




*Ffigur 6-4 Ardal Gymunedol Brynaman*

### 6.2.2 Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol

Yn hanesyddol, nid ydym yn ymwybodol o unrhyw ddigwyddiadau llifogydd sylweddol yng nghymuned Brynaman, ond rydym yn ymwybodol o ddigwyddiadau ynysig yr oedd rhai o'r gwaethaf o amgylch Heol Llandeilo.

Pwysleisia Tabl 6-7 isod, rhwng 2018 a 2024, fod 23 o ddigwyddiadau llifogydd a adroddwyd i dîm FRM CSC, sy'n is na'r cyfartaledd o'u cymharu â'r 28 o gymunedau â'r risg uchaf.

Yn hanesyddol, bu digwyddiadau llifogydd sylweddol a ddigwydd ym 1933 ym Mrynaman. Er ein bod yn deall bod llawer o ddigwyddiadau llifogydd eraill wedi digwydd ym Mrynaman, mae'r adrodd yn wael ar hyn o bryd. Dengys Tabl 6-7, rhwng 2018 a 2020, mai nifer cymharol isel o ddigwyddiadau llifogydd mewnol ac mai nifer cymharol uchel o ddigwyddiadau llifogydd allanol a adroddwyd.

*Tabl 6-7 Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol ym Mrynaman*

| Math o Ddigwyddiad | Nifer yr Achlysuron |
|---|---|
| Amhreswyl Allanol | 0 |
| Preswyl Allanol | 13 |
| Amhreswyl Mewnol | 1 |
| Preswyl Mewnol | 9 |

### 6.2.3 Perygl Llifogydd mewn Ardal Gymunedol

Cyflwynir data sy'n ymwneud â nifer yr eiddo sydd mewn perygl o lifogydd afonol neu lawog ledled ardal gymunedol Brynaman isod yn 6-8. Gan fod eiddo ym Mrynaman mewn mwy o berygl o lifogydd glawog, bydd y gwaith lliniaru perygl o lifogydd yn cael ei sbarduno gan gamau gweithredu a mentrau dan arweiniad CSC.

*Tabl 6-8 Cyfanswm y Cyfeiriadau sydd mewn Perygl o Lifogydd Glawog ac Afonol ym Mrynaman*

| Math o Lifogydd | Nifer yr Eiddo sydd mewn Perygl |
|---|---|
| Llifogydd Glawog | 92 |
| Llifogydd Afonol | 6 |

Dangosir bod ffyrdd gan gynnwys Heol Cwmgarw mewn perygl o lifogydd afonol a dangosir bod ffyrdd Mountain Road, Heol Cwmgarw mewn perygl sylweddol o lifogydd glawog. Cyflwyna Tabl 6-9 nifer y derbynyddion sy'n bresennol ym Mrynaman sydd mewn perygl o lifogydd.

*Tabl 6-9 Derbynyddion ym Mrynaman*

| Derbynnydd | Perygl Afonol | Perygl Glawog |
|---|---|---|
| Hyd y Ffyrdd (km) | 205 | 1328 |
| Hyd y Rheilffyrdd (km) | 0 | 0 |
| Amgylcheddol (n) | 8 | 11 |
| Tir Amaethyddol ($m^2$) | 125956 | 300524 |
| Eiddo Preswyl | 6 | 85 |
| Eiddo Amhreswyl | 0 | 7 |
| Gwasanaethau Allweddol (n) | 0 | 1 |
| Dyraniad Preswyl | 0 | 1 |
| Parc Cenedlaethol | Bannau Brycheiniog | |
| Adeiladau Rhestredig (n) | 3* | |

**Mae'r cyfrif yma yn archwilio nifer yr adeiladau rhestredig sy'n bresennol ledled yr ardal gymunedol y nodwyd eu bod yn ardal risg uchel. Nid yw'r cyfrif yn awgrymu bod cyfanswm yr adeiladau mewn perygl o lifogydd afonol a llifogydd glawog—ond yn hytrach eu bod mewn perygl cyffredinol o lifogydd.*

### 6.2.4 Gwaith FRM yn yr ardal ers FRMP-1

Nid oes unrhyw waith FRM a wnaed ym Mrynaman ers FRMP-1.

### 6.2.5 Ardaloedd Risg Llifogydd

Gan na ellir cymhwyso camau gweithredu unigol i fynd i'r afael â'r perygl llifogydd ledled cymuned Brynaman yn gyffredinol, crëwyd ardaloedd risg llifogydd a dalgylchoedd. Ceir gwybodaeth mwy penodol am y perygl llifogydd yn yr ardaloedd hyn yn Tabl 6-10.


#### *6.2.5.1 4750-A Brynaman*

***Disgrifiad o'r Ardal***

Ardal preswyl trefol i raddau helaeth a rennir gan ffordd yr A4069 yw Ardal 4750-A (Ffigur 6-5). Mae perygl llifogydd glawog yn cael ei sianelu drwy gwrs cwrs dŵr Nant Melyn, sy'n llifo drwy ran dde-orllewinol yr ardal. Hefyd, mae sawl cwrs dŵr bach sy'n llifo oddi ar y mynyddoedd i'r gogledd ac mae'r rhain wedi lledaenu â chwlfert i'r ardal drefol o dan anheddau preifat a'r briffordd.

***Gwaith Amddiffyn rhag Llifogydd***

Nid oes unrhyw waith ar y gweill ar hyn o bryd.




*Ffigur 6-5 Ardal Risg Llifogydd 4750-A*

*Tabl 6-10 Crynodeb o Ardaloedd Risg Llifogydd Brynaman*

| Ardal Risg Llifogydd | Gwybodaeth am Amddiffynfeydd rhag Llifogydd ac Asedau | Cyfeiriadau mewn Perygl | Derbynyddion Allweddol | Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol | Partneriaid FRM Allweddol | Ymgysylltu â'r Gymuned |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4750-A | • Gwael | • Afonol: 0<br>• Glawog: 68 | • Prif Ffyrdd (A4069, A4069)<br>• Sinema Neuadd Gyhoeddus Brynaman<br>• Swyddfa Bost Brynaman<br>• Sinema Neuadd Gyhoeddus Brynaman | • Nid oes unrhyw ddigwyddiadau sy'n hysbys | • DCWW<br>• CNC<br>• Llywodraeth Cymru<br>• Tirfeddianwyr Lleol | • Dymunol (Hirdymor) |

### 6.2.6 Camau Gweithredu a Nodiwyd

Ar ôl nodi'r ardaloedd risg llifogydd ledled cymuned Brynaman, datblygwyd rhestr o gamau gweithredu isod yn *6-11* i fynd i'r afael â pherygl llifogydd, gan ei reoli a'i leihau.

*Tabl 6-11 Rhestr Hir o Gamau Gweithredu Posibl ym Mrynaman*


| Ardal | Camau Gweithredu Posibl | Math o Weithred | Disgrifiad | Cwblhawyd / Tymor Byr / Canolig / Hirdymor | Amcangyfrif o'r costau |
|---|---|---|---|---|---|
| 4750-A | Ôl-osod SDCau | Atal | Chwilio am gyfleoedd i Ôl-osod SDCau mewn amgylchedd trefol er mwyn lleihau dŵr ffo a darparu gwanhad ee, Heol Cwmgarw, Mountain Road, Ffordd yr Orsaf. | Canolig | £££ |
| | Rheoli Llifogydd Naturiol | Diogelu | Gallai chwilio am gyfleoedd am dechnegau Rheoli Llifogydd Naturiol megis blocio ceunentydd, byndiau neu argaeau sy'n gollwng ar lethrau i fyny'r afon o'r dref atal y dŵr ar ei ffordd a lleihau dŵr ffo. | Canolig | £££ |
| | Rheoli a Chynnal a Chadw Asedau | Diogelu | Creu cynlluniau rheoli asedau ar gyfer asedau allweddol ac ymgymryd ag arolygon a gwaith cynnal a chadw rheolaidd.<br><br>Gweithio gyda pherchnogion glannau afon ar Ffordd yr Orsaf i lunio cynlluniau cynnal a chadw ar gwrs dŵr cyffredin. | Ar y Gweill | £ |
| | Cydnerthedd Gwrthsefyll Llifogydd Eiddo | Diogelu | Chwilio am gyfleoedd i rymuso preswylwyr lleol i wrthsefyll llifogydd drwy fesurau cydnerthedd ar lefel eiddo. | Canolig | £ |

## 6.3 Cross Hands—4288

### 6.3.1 Disgrifiad o'r Ardal Gymunedol

Pentref a chymuned a leolir yn ABA Llwchwr Aman yn nwyrain Sir Gaerfyrddin yw Cross Hands (Ffigur 6). Yn 2021, oddeutu 6,338 o bobl oedd cyfanswm poblogaeth Cross Hands[18]. Mae sawl cwrs dŵr cyffredin, gan gynnwys Afon Gwili, sy'n llifo drwy'r ardal gymunedol. Mae 1 o bob 290 o bobl mewn perygl o lifogydd afonol ac mae 1 o bob 14 o bobl mewn perygl o lifogydd glawog yn Cross Hands.

Mae'r ardal yn gymysgedd o breswyl, diwydiannol a gwledig, ac mae'r rhan fwyaf o'r trefoli tua'r gogledd o'r ardal gymunedol. Mae sawl ffordd A sy'n pasio drwy'r ardal hon, sef yr A48 a'r A376. Mae sawl adeilad rhestredig hefyd.




*Ffigur 6-6 Ardal Gymunedol Cross Hands*

---

18 [Cross Hands (Sir Gaerfyrddin, Cymru, Y Deyrnas Unedig)—Ystadegau Poblogaeth, Siartiau, Map, Lleoliad, Tywydd a Gwybodaeth am y We (citypopulation.de)]

### 6.3.2 Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol

Gwelwyd y llifogydd gwaethaf yn Cross Hands yn ddiweddar yn ôl yn gynnar yn y 2000au pan flociodd cwlfert wrth gefn Clwb Rygbi Cefneithin. Llenwodd dŵr Barc Cross Hands a gorlifodd ar y briffordd a bu llifogydd mewn gerddi a'r briffordd i lawr at Sgwâr Cross Hands.

Dengys Tabl 6-12 isod, rhwng 2018 a 2024, mai dim ond 6 achos o lifogydd a adroddwyd i dîm FRM CSC. Mae'r lefel hon o adrodd ymhlith yr isaf yn ein cymunedau blaenoriaeth risg uchel. Dim ond dau ddigwyddiad a adroddwyd i DCWW yn ystod yr un cyfnod, a nifer tebyg o ddigwyddiadau llifogydd a adroddwyd i'r Awdurdod Priffyrdd.

*Tabl 6-12 Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol yn Cross Hands*

| Math o Ddigwyddiad | Nifer yr Achlysuron | Digwyddiadau a adroddwyd i Sefydliadau Partner |
|---|---|---|
| Amhreswyl Allanol | 0 | 1 |
| Preswyl Allanol | 2 | 2 |
| Amhreswyl Mewnol | 2 | - |
| Preswyl Mewnol | 2 | - |

### 6.3.3 Perygl Llifogydd mewn Ardal Gymunedol

Cyflwynir data sy'n ymwneud â nifer yr eiddo sydd mewn perygl o lifogydd afonol neu lawog ledled ardal gymunedol Cross Hands isod yn  6-13. Gan fod eiddo yn Cross Hands mewn perygl llawer mwy o lifogydd glawog, bydd y gwaith lliniaru perygl o lifogydd yn cael ei sbarduno gan gamau gweithredu a mentrau dan arweiniad CSC.

*Tabl 6-13 Cyfanswm y Cyfeiriadau sydd mewn Perygl o Lifogydd Glawog ac Afonol yn Cross Hands*

| Math o Lifogydd | Nifer yr Eiddo sydd mewn Perygl |
|---|---|
| Llifogydd Glawog | 70 |
| Llifogydd Afonol | 0 |

Dangosir bod derbynyddion gan gynnwys unedau Manwerthu Sgwâr Cross Hands a'r parc busnes mwy mewn rhywfaint o berygl llifogydd glawog. Dangosir bod ffyrdd gan gynnwys yr A48, Heol Pontarddulais, Heol Caerfyrddin a Heol y Gweunydd mewn perygl o lifogydd glawog. Cyflwyna Tabl 6-14 nifer y derbynyddion sy'n bresennol yn Cross Hands sydd mewn perygl o lifogydd.

*Tabl 6-14 Derbynyddion yn Cross Hands*

| Derbynnydd | Perygl Afonol | Perygl Glawog |
|---|---|---|
| Hyd y Ffyrdd (km) | 14 | 1533 |
| Hyd y Rheilffyrdd (km) | 0 | 0 |
| Amgylcheddol (n) | 0 | 2 |
| Tir Amaethyddol (m$^2$) | 10760 | 102464 |
| Eiddo Preswyl | 0 | 42 |
| Eiddo Amhreswyl | 0 | 28 |
| Gwasanaethau Allweddol (n) | 0 | 2 |
| Safleoedd SFCA Ychwanegol | 0 | 4 |
| Parc Manwerthu | 0 | Maes yr Eithin a Cross Hands |
| Dyraniad Preswyl | 0 | 4 |
| Ardal Cyflogaeth Arfaethedig | 0 | 5 |
| Adeiladau Rhestredig (n) | 3* | |
| **Mae'r cyfrif yma yn archwilio nifer yr adeiladau rhestredig sy'n bresennol ledled yr ardal gymunedol y nodwyd eu bod yn ardal risg uchel. Nid yw'r cyfrif yn awgrymu bod cyfanswm yr adeiladau mewn perygl o lifogydd afonol a llifogydd glawog—ond yn hytrach eu bod mewn perygl cyffredinol o lifogydd.* | | |

### 6.3.4 Gwaith FRM yn yr ardal ers FRMP-1

Nid oes unrhyw waith FRM a wnaed yn Cross Hands ers FRMP-1.


### 6.3.5 Ardaloedd Risg Llifogydd

***Disgrifiad o'r Ardal***

Mae un ardal risg llifogydd a nodwyd yn Cross Hands, a labelir fel 4288-A yn Ffigur 6. Mae Ardal 4288-A a leolir tua'r gogledd o'r gymuned o amgylch Sgwâr Cross Hands. Mae Ardal 4288-A yn gymysgedd o fannau preswyl a masnachol. Mae cwrs dŵr cyffredin sy'n rhedeg drwy'r ardal risg llifogydd hon (â chwlfert yn rhannol) ond mae'r ardal ehangach yn cael ei gwasanaethu gan y briffordd danddaearol a charthffosydd dŵr wyneb. Mae'r ardal mewn perygl o lifogydd glawog yn bennaf. Ceir gwybodaeth mwy penodol am y perygl llifogydd yn yr ardaloedd hyn yn *6-15*.

***Gwaith Amddiffyn rhag Llifogydd***

Nid oes unrhyw waith ar y gweill ar hyn o bryd.




*Ffigur 6-7 Ardal Risg Llifogydd 4288-A*

*Tabl 6-15 Crynodeb o Ardaloedd Risg Llifogydd Cross Hands*

| Ardal Risg Llifogydd | Gwybodaeth am Amddiffynfeydd rhag Llifogydd ac Asedau | Cyfeiriadau mewn Perygl | Derbynyddion Allweddol | Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol | Partneriaid FRM Allweddol | Ymgysylltu â'r Gymuned |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4288-A | • Gwael | • Afonol: 0<br>• Glawog: 60 | • Ysgol Gynradd Cross Hands<br>• Neuadd Gyhoeddus a Sinema Cross Hands<br>• Parc Manwerthu Maes yr Eithin<br>• Parc Busnes/ystad ddiwydiannol / ystâd ddiwydiannol<br>• Parc Bwyd Cross Hands | • Ni ddarparwyd gwybodaeth | • DCWW<br>• Priffyrdd CSC | • Dymunol (tymor canolig i hirdymor) |

### 6.3.6 Camau Gweithredu a Nodiwyd

Ar ôl nodi'r ardaloedd risg llifogydd ledled cymuned Cross Hands, datblygwyd rhestr o gamau gweithredu isod yn  6-16 i fynd i'r afael â pherygl llifogydd, gan ei reoli a'i leihau.

*Tabl 6-16 Rhestr Hir o Gamau Gweithredu Posibl yn Cross Hands*

| Ardal | Camau Gweithredu Posibl | Math o Weithred | Disgrifiad | Cwblhawyd / Tymor Byr / Canolig / Hirdymor | Amcangyfrif o'r costau |
|---|---|---|---|---|---|
| 4288-A | Rheoli a Chynnal a Chadw Asedau | Atal/Diogelu | Gwella dealltwriaeth o asedau draenio CSC (gan gynnwys priffyrdd).<br><br>Cynnal a diweddaru cronfa ddata asedau a chreu cynlluniau rheoli asedau ar gyfer asedau allweddol (gan gynnwys y prif ased ym Mharc Crosshands) ac ymgymryd ag arolygiadau a gwaith cynnal a chadw rheolaidd. | Byr | ££ |
| | Ôl-osod SDCau | Atal | Chwilio am gyfleoedd i ôl-osod SDCau mewn amgylchedd trefol er mwyn lleihau dŵr ffo a darparu gwanhad. | Canolig | £££ |
| | Peirianneg Caled | Diogelu | Chwilio am gyfleoedd i gynyddu capasiti pibellau y rhwydwaith presennol, ailgyfeirio posibl a/neu gael gwared ar gwlferi. | Canolig-hir | £££ |

## 6.4 Glanaman—4046


### 6.4.1 Disgrifiad o'r Ardal Gymunedol

Pentref a chymuned a leolir yn ABA Llwchwr Aman yn nwyrain Sir Gaerfyrddin yw Glanaman (Ffigur 6). Yn 2021, oddeutu 3,866 o bobl oedd cyfanswm poblogaeth Glanaman[19].

Prif nodwedd hydrolegol Glanaman yw Afon Aman, sef prif afon ddynodedig sy'n rhedeg ar waelod dyffryn ac iddo ochrau serth, mewn hen gymuned lofaol. Mae 1 o bob 47 o bobl mewn perygl o lifogydd afonol ac mae 1 o bob 16 o bobl mewn perygl o lifogydd glawog yng Nglanaman.

Heddiw, mae'r ardal yn gymysgedd o fannau preswyl a gwledig, ac mae'r rhan fwyaf o'r trefoli o amgylch prif ffordd y dyffryn (A474). Yn yr ardal gymunedol, mae ychydig o adeiladau rhestredig ac Ysbyty Dyffryn Aman hefyd.

[19] Glanaman (Sir Gaerfyrddin, Cymru, Y Deyrnas Unedig)—Ystadegau Poblogaeth, Siartiau, Map, Lleoliad, Tywydd a Gwybodaeth am y We (citypopulation.de)




*Ffigur 6-8 Ardal Gymunedol Glanaman*

### 6.4.2 Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol

Yn hanesyddol, nid ydym yn ymwybodol o unrhyw ddigwyddiadau llifogydd sylweddol yng Nglanaman, ond rydym yn ymwybodol o rwystrau isadeiledd sydd wedi achosi materion llifogydd mewn ardaloedd o amgylch Heol Ysgol Newydd, Heol yr Esgob ac, yn fwy diweddar, Heol Dinefwr. Er ei bod yn ardal lle mae glawiad sylweddol a pherygl llifogydd uchel, pwysleisia Tabl 6-17 mai dim ond 6 digwyddiad llifogydd a adroddwyd i dîm FRM CSC rhwng 2018 a 2024. O'n 28 o ardaloedd blaenoriaeth, mae cymuned Glanaman ymhlith y gwaethaf o ran adrodd materion llifogydd. CNC sy'n rheoli'r perygl llifogydd o Afon Aman. Mae DCWW wedi nodi perygl llifogydd yn Heol yr Orsaf, Heol Tabernacl, a Than y Gelli.

*Tabl 6-17 Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol yng Nglanaman*

| Math o Ddigwyddiad | Nifer yr Achlysuron |
|---|---|
| Amhreswyl Allanol | 0 |
| Preswyl Allanol | 4 |
| Amhreswyl Mewnol | 0 |

| Math o Ddigwyddiad | Nifer yr Achlysuron |
|---|---|
| Preswyl Mewnol | 2 |

### 6.4.3 Perygl Llifogydd mewn Ardal Gymunedol

Cyflwynir data sy'n ymwneud â nifer yr eiddo sydd mewn perygl o lifogydd afonol neu lawog ledled ardal gymunedol Glanaman isod yn  6-18. Bydd yr eiddo sydd mewn perygl o lifogydd afonol ar waelod eu dyffryn mewn perygl sy'n deillio o Afon Aman. Gwasgerir y mwyafrif o'r eiddo sydd mewn perygl glawog ledled yr ardal sy'n weddill.

*Tabl 6-18 Cyfanswm y Cyfeiriadau sydd mewn Perygl o Lifogydd Glawog ac Afonol yng Nglanaman*

| Math o Lifogydd | Nifer yr Eiddo sydd mewn Perygl |
|---|---|
| Llifogydd Glawog | 101 |
| Llifogydd Afonol | 67 |

Dangosir bod rhannau o'r A474 a Heol Aman mewn perygl o lifogydd afonol a dangosir bod Lôn Penpownd, Heol Grenig a Heol yr Orsaf mewn perygl sylweddol o lifogydd glawog. Cyflwyna Tabl 6-19 nifer y derbynyddion sy'n bresennol yng Nglanaman sydd mewn perygl o lifogydd.

*Tabl 6-19 Derbynyddion yng Nglanaman*

| Derbynnydd | Perygl Afonol | Perygl Glawog |
|---|---|---|
| Hyd y Ffyrdd (km) | 499 | 2170 |
| Hyd y Rheilffyrdd (km) | 166 | 414 |
| Amgylcheddol (n) | 0 | 1 |
| Tir Amaethyddol ($m^2$) | 97236 | 149364 |
| Eiddo Preswyl | 24 | 83 |
| Eiddo Amhreswyl | 0 | 8 |
| Gwasanaethau Allweddol (n) | 0 | 1 |
| Dyraniad Preswyl | 0 | 1 |
| Parc Cenedlaethol | Bannau Brycheiniog | |
| Adeiladau Rhestredig (n) | 4* | |

**Mae'r cyfrif yma yn archwilio nifer yr adeiladau rhestredig sy'n bresennol ledled yr ardal gymunedol y nodwyd eu bod yn ardal risg uchel. Nid yw'r cyfrif yn awgrymu bod cyfanswm yr adeiladau mewn perygl o lifogydd afonol a llifogydd glawog—ond yn hytrach eu bod mewn perygl cyffredinol o lifogydd.*

### 6.4.4 Gwaith FRM yn yr ardal ers FRMP-1

Cyflwynir gwaith FRM a wnaed yng Nglanaman ers FRMP-1 isod yn  6-20.

*Tabl 6-20 Gwaith FRM a wnaed yng Nglanaman ers FRMP-1 CSC.*

| Ardal Benodol (Ardal Uned Bolisi) | Camau Gweithredu FRM (FRMP-1) | Cynnydd |
|---|---|---|
| Heol yr Orsaf, Glanaman | Cysylltu â Network Rail ynghylch cynnal a chadw'r cwrs dŵr â chwlfert. | Dim cynnydd |

### 6.4.5 Ardaloedd Risg Llifogydd

Gan na ellir cymhwyso camau gweithredu unigol i fynd i'r afael â'r perygl llifogydd ledled cymuned Glanaman yn gyffredinol, crëwyd dwy ardal ar sail eu hardaloedd risg llifogydd a dalgylchoedd. Ceir gwybodaeth mwy penodol am y perygl llifogydd yn yr ardaloedd hyn yn 6-21.


#### *6.4.5.1 4046-A—Glanaman*

***Disgrifiad o'r Ardal***

Ardal preswyl trefol yng nghanol Glanaman ar hyd ffordd yr A474 yw Ardal 4046-A (Ffigur 6). Gwasgerir yr eiddo sydd mewn perygl o lifogydd glawog ledled yr ardal a fydd yn cael ei gwasanaethu gan garthffosydd Priffordd a chyfunol. Mae nifer o gyrsiau dŵr â chwlfert hefyd sy'n rhedeg ar draws yr ardal, gan sianelu dŵr o ochrau uchel y dyffryn i afon Aman ar waelod y dyffryn.

***Gwaith Amddiffyn rhag Llifogydd***

Nid oes unrhyw waith ar y gweill ar hyn o bryd.




*Ffigur 6-9 Ardal Risg Llifogydd 4046-A*


### 6.4.5.2 4046-B Tan y Gelli_SA18

***Disgrifiad o'r Ardal***

Ardal preswyl trefol i raddau helaeth yn Nhan y Gelli ar lan ogleddol Afon Aman yng Nglanaman yw Ardal 4046-B (Ffigur 6). Daw'r perygl llifogydd i'r ardal hon o gwrs dŵr Afon Aman sy'n ffurfio ffin ddeheuol yr ardal, ac mae eiddo i'r gogledd mewn perygl o gwrs dŵr cyffredin di-enw â chwlfert o dan y briffordd.

***Gwaith Amddiffyn rhag Llifogydd***

Nid oes unrhyw waith ar y gweill ar hyn o bryd.




*Ffigur 6-10 Ardal Risg Llifogydd 4046-B*

*Tabl 6-21 Crynodeb o Ardaloedd Risg Llifogydd Glanaman*

| Ardal Risg Llifogydd | Gwybodaeth am Amddiffynfeydd rhag Llifogydd ac Asedau | Cyfeiriadau mewn Perygl | Derbynyddion Allweddol | Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol | Partneriaid FRM Allweddol | Ymgysylltu â'r Gymuned |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4046-A | • Gwael | • Afonol: 15<br>• Glawog: 139 | • Prif Ffordd (A474)<br>• Rheilffordd<br>• Llwybr Beicio Dyffryn Aman<br>• Canolfan Gymunedol Cwmaman<br>• Parc Gelli Werdd<br>• Gorsaf Betrol<br>• Swyddfa Bost y Garnant | • Oes, rhai llai, sy'n gysylltiedig ag asedau | • CNC<br>• Llywodraeth Cymru<br>• DCWW<br>• Awdurdod Priffyrdd | • Gweithredol |
| 4046-A | • Gwael | • Afonol: 12<br>• Glawog: 14 | • Anheddau/Ardal Breswyl | • Oes, rhai llai, sy'n gysylltiedig ag asedau | • Llywodraeth Cymru<br>• DCWW<br>• Awdurdod Priffyrdd | • Gweithredol |

### 6.4.6 Camau Gweithredu a Nodiwyd

Ar ôl nodi'r ardaloedd risg llifogydd ledled cymuned Glanaman, datblygwyd rhestr o gamau gweithredu isod yn 6-22 i fynd i'r afael â pherygl llifogydd, gan ei reoli a'i leihau.

*Tabl 6-22* Rhestr Hir o Gamau Gweithredu Posibl yng Nglanaman

| Ardal | Camau Gweithredu Posibl | Math o Weithred | Disgrifiad | Cwblhawyd / Tymor Byr / Canolig / Hirdymor | Amcangyfrif o'r costau |
|---|---|---|---|---|---|
| Y Gymuned Gyfan | Rheoli a Chynnal a Chadw Asedau | Atal | Teledu cylch cyfyng a datblygu gwybodaeth am asedau. | Canolig | ££ |
| | Rheoli a Chynnal a Chadw Asedau | Atal | Adolygu asedau FRM a datblygu rhaglen uwchraddio (os oes cyllid ar gael). | Canolig | £££ |
| | Gweithio mewn Partneriaeth | Adolygu | Cefnogi CNC i reoli'r perygl yn Nhan y Gelli. | Canolig | £ |

| Ardal | Camau Gweithredu Posibl | Math o Weithred | Disgrifiad | Cwblhawyd / Tymor Byr / Canolig / Hirdymor | Amcangyfrif o'r costau |
|---|---|---|---|---|---|
| 4046-A | Rheoli Llifogydd Naturiol | Atal | Gallai chwilio am gyfleoedd am dechnegau Rheoli Llifogydd Naturiol megis blocio argaeau sy'n gollwng/ceunentydd ar lethrau uchaf wanhau a lleihau llifoedd sy'n cyrraedd y dref. | Canolig | £££ |
| | Peirianneg Caled | Diogelu | Cefnogi CNC pe byddai'n dewis ymchwilio i le am atebion peirianneg caled megis rhwystrau a waliau llifogydd drwy'r ardal drefol ger Afon Aman. | Hirdymor | £ |
| | Rheoli a Chynnal a Chadw Asedau | Diogelu | Datblygu gwybodaeth am asedau CSC a chreu cynlluniau rheoli asedau ar gyfer asedau allweddol. Ymgymryd ag arolygiad a gwaith cynnal a chadw rheolaidd. | Ar y Gweill | £ |
| | Cydnerthedd Gwrthsefyll Llifogydd Eiddo | Diogelu | Chwilio am gyfleoedd i rymuso preswylwyr i dderbyn cyfrifoldeb am eu perygl llifogydd eu hunain drwy archwilio mesurau Cydnerthedd Gwrthsefyll Llifogydd Eiddo. | Byr | £ |

| Ardal | Camau Gweithredu Posibl | Math o Weithred | Disgrifiad | Cwblhawyd / Tymor Byr / Canolig / Hirdymor | Amcangyfrif o'r costau |
|---|---|---|---|---|---|
| 4046-B | Peirianneg Caled | Diogelu | Gallai cefnogi CNC mewn unrhyw werthusiad o atebion peirianneg caled megis rhwystrau a waliau llifogydd ger Afon Aman ddiogelu cymuned yma. | Hirdymor | £ |
| | Cydnerthedd Gwrthsefyll Llifogydd Eiddo | Diogelu | Chwilio am gyfleoedd i rymuso preswylwyr i dderbyn cyfrifoldeb am eu perygl llifogydd eu hunain drwy archwilio mesurau Cydnerthedd Gwrthsefyll Llifogydd Eiddo. | Canolig | £ |

## 6.5 Llandybïe—4019


### 6.5.1 Disgrifiad o'r Ardal Gymunedol

Pentref a chymuned a leolir yn ABA Llwchwr Aman yn ne-ddwyrain Sir Gaerfyrddin yw Llandybïe (Ffigur 6). Yn 2021, oddeutu 11,706 o bobl oedd cyfanswm poblogaeth Llandybïe[20].

Afon Marlas (prif afon) ac Afon Lash (prif afon) yw'r prif nodweddion hydrolegol. Hefyd, mae sawl cwrs dŵr cyffredin sy'n llifo drwy'r ardal gymunedol o'r Mynydd Du i'r dwyrain a thir uwch i'r gorllewin a'r gogledd. Mae 1 o bob 42 o bobl mewn perygl o lifogydd afonol ac mae 1 o bob 38 o bobl mewn perygl o lifogydd glawog yn Llandybïe.

Mae'r ardal yn gymysgedd o fannau preswyl a gwledig. Mae'r A483 (cefnffordd) a'r B4556 yn rhedeg drwy'r ardal gymunedol. Lleolir gorsaf reilffordd Llandybïe a'r rheilffordd gysylltiedig yn yr ardal gymunedol. Mae nifer o adeiladau rhestredig yn yr ardal gymunedol.

[20] Llandybïe (Community, United Kingdom)—Population Statistics, Charts, Map and Location (citypopulation.de)




*Ffigur 6-11 Ardal Gymunedol Llandybïe*

## 6.5.2 Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol

Dengys Tabl 6-23. mai dim ond 28 yw nifer y digwyddiadau llifogydd yn Llandybïe a adroddwyd i dîm FRM CSC rhwng 2018 a 2024. Mae hyn yn is na'r cyfartaledd o ran adrodd, o'i gymharu â'r 27 o feysydd risg uchel, blaenoriaeth uchel, eraill. Mae DCWW a CNC ill dau wedi cadarnhau yr adroddwyd 3 digwyddiad llifogydd iddynt yn ystod yr un cyfnod.

*Tabl 6-23 Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol yn Llandybïe*

| Math o Ddigwyddiad | Nifer yr Achlysuron | Digwyddiadau a adroddwyd i sefydliadau partner |
|---|---|---|
| Amhreswyl Allanol | 6 | - |
| Preswyl Allanol | 12 | 6 |
| Amhreswyl Mewnol | 0 | - |
| Preswyl Mewnol | 10 | - |

### 6.5.3 Perygl Llifogydd mewn Ardal Gymunedol

Cyflwynir data sy'n ymwneud â nifer yr eiddo sydd mewn perygl o lifogydd afonol neu lawog ledled ardal gymunedol Llandybïe isod yn 6-24. Gan fod y risg o lifogydd glawog ac afonol i eiddo yn uchel, bydd CSC a CNC yn mynd i'r afael â'r gwaith o liniaru perygl llifogydd ar y cyd.

*Tabl 6-24 Cyfanswm y Cyfeiriadau sydd mewn Perygl o Lifogydd Glawog ac Afonol yn Llandybïe*

| Math o Lifogydd | Nifer yr Eiddo sydd mewn Perygl |
|---|---|
| Llifogydd Glawog | 129 |
| Llifogydd Afonol | 110 |

Dangosir bod rhannau o Church Street, Ffordd Campbell, Heol Fawr, Heol Rhydaman a Rawlings Road mewn perygl o lifogydd prif afon. Mae canol Pentref Llandybïe ar y groesffordd yn fan isel ac mae mewn perygl o lifogydd glawog ac afonol. Daw'r risg glawog mwyaf (cwrs dŵr cyffredin) o Nant Gwinau ac eiddo o amgylch Blaenau Road, Woodfield Road, Caercoed a Heol Marlais sydd â'r perygl mwyaf. Cyflwyna Tabl 6-25 nifer y derbynyddion sy'n bresennol yn Llandybïe sydd mewn perygl o lifogydd.

*Tabl 6-25 Derbynyddion yn Llandybïe*

| Derbynnydd | Perygl Afonol | Perygl Glawog |
|---|---|---|
| Hyd y Ffyrdd (km) | 1920 | 906 |
| Hyd y Rheilffyrdd (km) | 6 | 377 |
| Amgylcheddol (n) | 0 | 2 |
| Tir Amaethyddol ($m^2$) | 232572 | 99764 |
| Eiddo Preswyl | 85 | 113 |
| Eiddo Amhreswyl | 5 | 3 |
| Gwasanaethau Allweddol (n) | 1 | 0 |
| Safleoedd SFCA Ychwanegol | Maes chwaraeon Llandybïe | |
| Dyraniad Preswyl | 1 | 0 |
| Adeiladau Rhestredig (n) | 9* | |

**Mae'r cyfrif yma yn archwilio nifer yr adeiladau rhestredig sy'n bresennol ledled yr ardal gymunedol y nodwyd eu bod yn ardal risg uchel. Nid yw'r cyfrif yn awgrymu bod cyfanswm yr adeiladau mewn perygl o lifogydd afonol a llifogydd glawog—ond yn hytrach eu bod mewn perygl cyffredinol o lifogydd.*

### 6.5.4 Gwaith FRM yn yr ardal ers FRMP-1

Nid oes unrhyw waith FRM a wnaed yn Llandybïe ers FRMP-1.

### 6.5.5 Ardaloedd Risg Llifogydd

Gan na ellir cymhwyso camau gweithredu unigol i fynd i'r afael â'r perygl llifogydd ledled cymuned Llandybïe yn gyffredinol, crëwyd dwy ardal ar sail eu hardaloedd risg llifogydd a dalgylchoedd. Ceir gwybodaeth mwy penodol am y perygl llifogydd yn yr ardaloedd hyn yn 6-26.

#### *6.5.5.1 4019-A Canol Llandybïe a Nant Gwyddfan*


***Disgrifiad o'r Ardal***

Mae Ardal 4019-A (Ffigur 6) yn cynnwys dwy ardal llifogydd gwahanol. Ardal preswyl trefol tuag at ganol Llandybïe yw'r rhan ogleddol. Mae Afon Marlas (prif afon) yn llifo drwy ganol yr ardal ac mae'r perygl llifogydd afonol yn gysylltiedig â sianel y cwrs dŵr. Dylai CNC arwain y gwaith o reoli'r risg hon.

Ymhellach i'r de, mae dwy gangen Nant Gwyddfan yn llifo oddi ar lethrau gorllewinol y Mynydd Du ac o dan Heol Rhydaman a'r rheilffordd cyn cwrdd ag Afon Marlais. CSC fydd yn arwain y gwaith o reoli perygl llifogydd yn yr ardal hon.

***Gwaith Amddiffyn rhag Llifogydd***

Cyflwynwyd cais blaenorol i Lywodraeth Cymru am gyllid ar gyfer gwaith amddiffyn rhag llifogydd, ond nid oedd yn llwyddiannus. Nid oes unrhyw waith arall ar y gweill ar hyn o bryd.




*Ffigur 6-12 Ardal Risg Llifogydd 4019-A*


#### 6.5.5.2 4019-B Woodfield Road

***Disgrifiad o'r Ardal***

Ardal preswyl trefol i'r gorllewin o Landybïe yw Ardal 4019-B, ardal Woodfield Road, (Ffigur 6). Mae Nant Gwinau, cwrs dŵr cyffredin, yn llifo i'r de a'r gorllewin o'r ardal ac er nas deellir yn llawn eto, credir bod cysylltiad agos rhwng y perygl llifogydd glawog a'r nodwedd honno.

***Gwaith Amddiffyn rhag Llifogydd***

Cyflwynwyd cais blaenorol am gyllid ar gyfer gwaith amddiffyn rhag llifogydd ond nid oedd yn llwyddiannus. Nid oes unrhyw waith arall ar y gweill ar hyn o bryd.




*Ffigur 6-13 Ardal Risg Llifogydd 4019-B*

*Tabl 6-26 Crynodeb o Ardaloedd Risg Llifogydd Llandybïe*

| Ardal Risg Llifogydd | Gwybodaeth am Amddiffynfeydd rhag Llifogydd ac Asedau | Cyfeiriadau mewn Perygl | Derbynyddion Allweddol | Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol | Partneriaid FRM Allweddol | Ymgysylltu â'r Gymuned |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4019-A | • Gwael | • Afonol: 108<br>• Glawog: 31 | • Gorsaf Drenau Llandybïe<br>• Prif Ffordd (A483)<br>• Clwb Cymdeithasol Llandybïe | • Ni ddarparwyd gwybodaeth | • Ni ddarparwyd gwybodaeth | • Dymunol (tymor canolig) |
| 4019-B | • Gwael | • Afonol: 2<br>• Glawog: 95 | • Cartref Preswyl Glanmarlais<br>• Maes Chwaraeon Llandybïe<br>• Ffyrdd (B4556) | • Ni ddarparwyd gwybodaeth | • DCWW/Priffyrdd CSC | • Dymunol (tymor canolig) |

### 6.5.6 Camau Gweithredu a Nodiwyd

Ar ôl nodi'r ardaloedd risg llifogydd ledled cymuned Llandybïe, datblygwyd rhestr o gamau gweithredu isod yn  6-27 i fynd i'r afael â pherygl llifogydd, gan ei reoli a'i leihau.

*Tabl 6-27* Rhestr Hir o Gamau Gweithredu Posibl yn Llandybïe

| Ardal | Camau Gweithredu Posibl | Math o Weithred | Disgrifiad | Cwblhawyd / Tymor Byr / Canolig / Hirdymor | Amcangyfrif o'r Costau |
|---|---|---|---|---|---|
| 4019-A | Rheoli Llifogydd Naturiol | Atal | Gallai technegau Rheoli Llifogydd Naturiol yn y dalgylch uchaf leihau llifoedd brig a lleihau pwysau i lawr yr afon. Gallai ailgysylltu coetiroedd gwlyb/gorlifdir i fyny'r afon o'r strwythur rheilffordd ddarparu storfa.<br><br>Gallai ymyriadau ar gyrsiau dŵr cyffredin o fewn ffin y gymuned ddarparu budd o ran arafu'r llif. | Canolig | £££ |
| | Peirianneg Caled | Diogelu | Cefnogi CNC pe byddai'n ymchwilio i ddichonoldeb atebion peirianneg caled megis waliau neu argloddiau i liniaru'r perygl o Afon Marlas. Gallai creu storfa llifogydd i fyny'r afon o'r dref/strwythur rheilffordd leihau llifoedd brig drwy'r dref. | Hirdymor | ££££ |
| | Mapio a Modelu Llifogydd yn Well | Adolygu | Gallai modelu hydrolig ac astudiaeth fapio wella dealltwriaeth o berygl llifogydd yn yr ardal hon a'r modd y mae gwahanol ffynonellau perygl llifogydd yn rhyngweithio. | Canolig | ££ |


| Ardal | Camau Gweithredu Posibl | Math o Weithred | Disgrifiad | Cwblhawyd / Tymor Byr / Canolig / Hirdymor | Amcangyfrif o'r Costau |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cydnerthedd Gwrthsefyll Llifogydd Eiddo | Diogelu | Grymuso preswylwyr i dderbyn cyfrifoldeb am eu perygl llifogydd eu hunain drwy archwilio mesurau Cydnerthedd Gwrthsefyll Llifogydd Eiddo. | Canolig | £ |
| 4019-B | Rheoli Llifogydd Naturiol | Atal | Gallai technegau Rheoli Llifogydd Naturiol ar gwrs dŵr cyffredin i fyny'r afon i'r dref ddarparu gwanhad ac atal llifogydd i lawr yr afon. | Canolig | £££ |
| | Ôl-osod SDCau | Diogelu | Gallai ôl-osod SDCau mewn ardal drefol ddarparu gwanhad er mwyn lleihau effaith y perygl o lifogydd dŵr wyneb. | Canolig | £££ |
| | Mapio a Modelu Llifogydd yn Well | Adolygu | Gallai modelu hydrolig ac astudiaeth fapio wella dealltwriaeth o berygl llifogydd yn yr ardal hon a'r modd y mae gwahanol ffynonellau perygl llifogydd yn rhyngweithio. | Canolig | ££ |
| | Rheoli a Chynnal a Chadw Asedau | Atal | Ymchwiliad i briffyrdd CSC ac asedau DCWW mewn ardal drefol er mwyn penderfynu a ellid gwneud gwelliannau.<br><br>Cynlluniau rheoli asedau ar gyfer asedau allweddol er mwyn rhoi trefniadau cynnal a chadw ar waith. | Canolig | £ |

| Ardal | Camau Gweithredu Posibl | Math o Weithred | Disgrifiad | Cwblhawyd / Tymor Byr / Canolig / Hirdymor | Amcangyfrif o'r Costau |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cydnerthedd Gwrthsefyll Llifogydd Eiddo | Diogelu | Grymuso preswylwyr i dderbyn cyfrifoldeb am eu perygl llifogydd eu hunain drwy archwilio mesurau Cydnerthedd Gwrthsefyll Llifogydd Eiddo. | Byr | £ |

## 6.6 Llangennech—4064

### 6.6.1 Disgrifiad o'r Ardal Gymunedol

Pentref a chymuned a leolir yn ABA Llwchwr Aman yn ne Sir Gaerfyrddin yw Llangennech (Ffigur 6). Yn 2021, oddeutu 5,437 o bobl oedd cyfanswm poblogaeth Llangennech[21]. Mae Afon Morlais (prif afon) a sawl cwrs dŵr cyffredin sy'n llifo drwy'r ardal gymunedol. Mae'r ardal yn ffinio Afon Llwchwr i'r dwyrain. Mae oddeutu 1 o bob 15 o bobl mewn perygl o lifogydd afonol a glawog. Mae'r ardal yn gymysgedd o fannau preswyl a gwledig ond gydag ardaloedd masnachol a diwydiannol allweddol o ystyried ei bod yn agos at yr M4 drwy'r A4138. Mae gorsaf reilffordd Llangennech a'r rheilffordd gysylltiedig hefyd yn seilwaith allweddol ar gyfer cludo teithwyr a nwyddau yn yr ardal gymunedol.




*Ffigur 6-14 Ardal Gymunedol Llangennech*

---

21 [Llangennech (Community, United Kingdom)—Population Statistics, Charts, Map and Location (citypopulation.de)]

### 6.6.2 Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol

Mae hanes o lifogydd glawog ac afonol yn Llangennch ac mae Nant Mwrwg yn ffynhonnell aml o ddigwyddiadau llifogydd. Yn fwy diweddar, yn 2010, bu llifogydd glawog sylweddol ledled yr ardal leol, gan gynnwys Llangennech. Yn 2011, achosodd rhwystr yng nghwlfert rheilffordd Mwrwg lifogydd i eiddo yn Heol yr Orsaf. Mae hanes o lifogydd yn Stryd y Bont hefyd.

Er gwaethaf yr hanes o lifogydd, a'r nifer uchel o eiddo sydd mewn perygl, dengys Tabl 6-28 fod nifer y digwyddiadau llifogydd a adroddir yn is na'r cyfartaledd o'u cymharu â'r ardaloedd risg uchel, blaenoriaeth uchel eraill. Rhwng 2018 a 2024, dim ond 16 o ddigwyddiadau perygl llifogydd a adroddwyd i dîm FRM CSC. Mae DCWW wedi cofnodi 3 digwyddiad llifogydd yn ystod yr un cyfnod, mae'r Awdurdod Priffyrdd wedi cofnodi un digwyddiad llifogydd, ac adroddwyd 4 digwyddiad i CNC.

*Tabl 6-28 Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol yn Llangennech*

| Math o Ddigwyddiad | Nifer yr Achlysuron | Digwyddiadau llifogydd a adroddwyd i sefydliadau partner |
|---|---|---|
| Amhreswyl Allanol | 2 | 1 |
| Preswyl Allanol | 8 | 7 |
| Amhreswyl Mewnol | 1 | - |
| Preswyl Mewnol | 5 | - |

### 6.6.3 Perygl Llifogydd mewn Ardal Gymunedol

Cyflwynir data sy'n ymwneud â nifer yr eiddo sydd mewn perygl o lifogydd afonol neu lawog ledled ardal gymunedol Llangennech isod yn  6-29. Gan fod eiddo ledled Llangennech mewn mwy o berygl o lifogydd afonol na llifogydd glawog, dylai'r gwaith lliniaru perygl llifogydd gael ei sbarduno gan gamau gweithredu a mentrau dan arweiniad CNC.

*Tabl 6-29 Cyfanswm y Cyfeiriadau sydd mewn Perygl o Lifogydd Glawog ac Afonol yn Llangennech*

| Math o Lifogydd | Nifer yr Eiddo sydd mewn Perygl |
|---|---|
| Llifogydd Glawog | 67 |
| Llifogydd Afonol | 101 |

Gellir rhannu'r derbynyddion yn Llangennech yn ardaloedd perygl afonol ar hyd Afon Morlais gan gynnwys Parc Diwydiannol Llanelli, rhannau o Heol Pontarddulais, Parc Diwydiannol Riverside, Heol Maes a Heol yr Orsaf. I'r gorllewin o'r dref, mae gennym

risg glawog sy'n gysylltiedig â chwrs dŵr cyffredin, Nant Mwrwg. Mae hyn yn risg i rannau o Barc Busnes y Strade, Heol Mwrwg, Bridge Street, Estuary Park a Heol yr Orsaf. Dangosir bod Gorsaf Reilffordd Llangennech a ffyrdd gan gynnwys Bridge Street mewn perygl o lifogydd afonol a glawog. Dangosir hefyd fod rhannau o'r A4138 mewn perygl o lifogydd glawog yn y gymuned hon. Cyflwyna Tabl 6-30 nifer y derbynyddion sy'n bresennol yn Llangennech sydd mewn perygl o lifogydd.

*Tabl 6-30 Derbynyddion yn Llangennech*

| Derbynnydd | Perygl Afonol | Perygl Glawog |
|---|---|---|
| Hyd y Ffyrdd (km) | 2509 | 1533 |
| Hyd y Rheilffyrdd (km) | 1025 | 0 |
| Amgylcheddol (n) | 2 | 2 |
| Tir Amaethyddol ($m^2$) | 781364 | 70612 |
| Eiddo Preswyl | 92 | 54 |
| Eiddo Amhreswyl | 9 | 13 |
| Gwasanaethau Allweddol (n) | 2 | 1 |
| Safleoedd SFCA Ychwanegol | 2 | 2 |
| Dyraniad Preswyl | 0 | 3 |
| Adeiladau Rhestredig (n) | 4* | |
| **Mae'r cyfrif yma yn archwilio nifer yr adeiladau rhestredig sy'n bresennol ledled yr ardal gymunedol y nodwyd eu bod yn ardal risg uchel. Nid yw'r cyfrif yn awgrymu bod cyfanswm yr adeiladau mewn perygl o lifogydd afonol a llifogydd glawog—ond yn hytrach eu bod mewn perygl cyffredinol o lifogydd.* | | |

### 6.6.4 Gwaith FRM yn yr ardal ers FRMP-1

Cyflwynir gwaith FRM a wnaed yn Llangennech ers FRMP-1 isod yn 6-31.

*Tabl 6-31 Gwaith FRM a wnaed yn Llangennech ers FRMP-1 CSC.*

| Ardal Benodol (Ardal Uned Bolisi) | Camau Gweithredu FRM (FRMP-1) | Cynnydd |
|---|---|---|
| Llangennech | Bydd cwlfert ffordd osgoi Heol Mwrwg yn cael ei arolygu â theledu cylch cyfyng a chynhelir gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio yn unol â hynny. | Cwblhawyd |

## 6.6.5 Ardaloedd Risg Llifogydd


### *6.6.5.1 4064-A—Llangennech*

***Disgrifiad o'r Ardal***

Ardal trefol preswyl i raddau helaeth gyda rhywfaint o ddefnydd diwydiannol i'r gogledd o'r ardal yw Ardal 4046-A (Ffigur 6). Mae'r B4297 yn rhannu cyfran ganolog y safle. Mae Afon Morlais (prif afon) yn llifo drwy'r gogledd ac mae Nant Mwrwg yn llifo drwy'r de.

***Gwaith Amddiffyn rhag Llifogydd***

Ar y cyd â Llywodraeth Cymru ac Ymgynghorwyr, mae CSC wedi bod yn ymchwilio i hanes a dulliau llifogydd yn y gymuned. Mae hyn wedi cynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid, modelu hydrolig ac asesu dewisiadau lliniaru llifogydd sy'n arwain at baratoi Achos Busnes. Mae'r cynllun ar gam dylunio manwl ar hyn o bryd a nodwyd Cydnerthedd Gwrthsefyll Llifogydd Eiddo yn ddewis blaenllaw i'w ddatblygu.




*Ffigur 6-15 Ardal Risg Llifogydd 4064-A*

*Tabl 6-32 Crynodeb o Ardaloedd Risg Llifogydd Llangennech*

| Ardal Risg Llifogydd | Gwybodaeth am Amddiffynfeydd rhag Llifogydd ac Asedau | Cyfeiriadau mewn Perygl | Derbynyddion Allweddol | Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol | Partneriaid FRM Allweddol | Ymgysylltu â'r Gymuned |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4064-A | • Ni ddarparwyd gwybodaeth | Afonol: 165<br>Glawog: 60 | • Cae Criced Llangennech<br>• Prif Lwybr Llanelli<br>• Ffyrdd (B4297)<br>• Eglwys Plwyf Llangennech a Salem Eglwys y Bedyddwyr<br>• Canolfan Gymunedol Llangennech<br>• Cartref Nyrsio Llandaff House<br>• Parc Diwydiannol Riverside | • Oes, yn hanesyddol ond dim byd yn ddiweddar | • Regen<br>• CNC<br>• Tirfeddianwyr Lleol<br>• Llywodraeth Cymru<br>• DCWW | • Gwnaed |

### 6.6.6 Camau Gweithredu a Nodiwyd

Ar ôl nodi'r ardaloedd risg llifogydd ledled cymuned Llangennech, datblygwyd rhestr o gamau gweithredu isod yn 6-33 i fynd i'r afael â pherygl llifogydd, gan ei reoli a'i leihau.

*Tabl 6-33* Rhestr Hir o Gamau Gweithredu Posibl yn Llangennech

| Ardal | Camau Gweithredu Posibl | Math o Weithred | Disgrifiad | Cwblhawyd / Tymor Byr / Canolig / Hirdymor | Amcangyfrif o'r costau |
|---|---|---|---|---|---|
| 4064-A | Rheoli a Chynnal a Chadw Asedau | Atal | Gweithredu'r cam adeiladu a'r RFR sy'n gysylltiedig â'r gwaith gwerthuso llifogydd a datblygu achos busnes yn ystod y 4 blynedd ddiwethaf. | Byr | £££ |
| | Gweithio mewn Partneriaeth | Adolygu | Cefnogi CNC mewn unrhyw waith y gallai ei wneud i reoli'r perygl llifogydd o Afon Morlais. | Hirdymor | £££ |
| | Rheoli a Chynnal a Chadw Asedau | Atal | Cynlluniau rheoli asedau ar gyfer asedau allweddol er mwyn rhoi trefniadau cynnal a chadw ar waith. | Canolig | £ |
| | Cydnerthedd Gwrthsefyll Llifogydd Eiddo | Diogelu | Grymuso preswylwyr i dderbyn cyfrifoldeb am eu perygl llifogydd eu hunain drwy archwilio mesurau Cydnerthedd Gwrthsefyll Llifogydd Eiddo. | Byr | £ |

# 7 Ardal Basn Afon Tywi Isaf

## 7.1 Abergwili—4038


### 7.1.1 Disgrifiad o'r Ardal Gymunedol

Pentref a leolir y tu allan i Gaerfyrddin ar lan ogleddol Afon Tywi ac wrth aber Afon Gwili yw Abergwili (Ffigur 7-1). Yn 2021, 1,564 oedd cyfanswm poblogaeth Abergwili[22].

Mae'r prif afonydd yn Abergwili yn cynnwys Afon Tywi, Nant Bwlch, Afon Gwili a Melin ddwyreiniol Abergwili. Mae cronfeydd dŵr Cwmoernant yng ngorllewin pellaf yr ardal. Maent yn cynnwys dwy gronfa dŵr rhaeadrol, sy'n llifo i lawr Reservoir Road â chwlfert cyn gollwng i orlifdir Afon Tywi. Mae capasiti y gronfa ddŵr yn llai na 10,000$m^3$ a dylid ei thynnu oddi ar gofrestr cronfeydd dŵr CNC oherwydd ei risg isel.

Mae 1 o bob 87 o bobl mewn perygl o lifogydd afonol ac mae 1 o bob 51 o bobl mewn perygl o lifogydd glawog yn Abergwili. Mae Abergwili yn wledig i raddau helaeth, a lleolir trefoli ym mhentref Abergwili sydd hefyd yn gartref i Amgueddfa Caerfyrddin, Swyddfa Esgobaeth yr Eglwys Cymru a dechrau llwybr beicio dyffryn Tywi. Mae cefnffordd yr A40 yn rhedeg drwy bentref Abergwili i gyfeiriad y dwyrain a'r gorllewin.

[22] Abergwili (Community, United Kingdom)—Population Statistics, Charts, Map and Location (citypopulation.de)




*Ffigur 7-1 Ardal Gymunedol Abergwili*

### 7.1.2 Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol

Bu llifogydd sylweddol yn Abergwili yn hanesyddol, yn enwedig ym 1987 a 2000. Yn fwy diweddar, bu llifogydd ar Reservoir Road pan gwympodd rhan breifat o gwrs dŵr â chwlfert, gan rwystro llifoedd. Dengys Tabl 7-1 mai nifer y digwyddiadau llifogydd a adroddwyd, yn Abergwili, a'r hyn a adroddwyd i dîm FRM CSC rhwng 2018 a 2024, yw 37. Dyma nifer cyfartalog y digwyddiadau llifogydd a adroddwyd o'u cymharu â'r 27 o ardaloedd risg uchel, blaenoriaeth uchel eraill. O ystyried y risgiau o'r prif afonydd, byddem yn disgwyl i CNC ymdrin â'r mwyafrif o'r digwyddiadau llifogydd a adroddir, ond mae wedi dweud mai dim ond 4 digwyddiad sydd wedi eu hadrodd iddo.

*Tabl 7-1 Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol yn Abergwili*

| Math o Ddigwyddiad | Nifer yr Achlysuron | Digwyddiadau llifogydd a adroddwyd i sefydliadau partner |
|---|---|---|
| Amhreswyl Allanol | 2 | - |
| Preswyl Allanol | 17 | 4 |

| | | |
|---|---|---|
| Amhreswyl Mewnol | 4 | - |
| Preswyl Mewnol | 14 | - |

### 7.1.3 Perygl Llifogydd mewn Ardal Gymunedol

Mae amddiffynfeydd rhag llifogydd CNC yn bresennol yn Abergwili, sy'n amddiffyn y rhan fwyaf o'r pentref rhag llifogydd. Mae perygl o hyd i nifer bach o anheddau y tu allan i'r amddiffynfeydd hyn. Cyflwynir data sy'n ymwneud â nifer yr eiddo sydd mewn perygl o lifogydd afonol neu lawog ledled ardal gymunedol Abergwili isod yn 7-2. Lleolir 12 o'r cyfeiriadau sydd mewn perygl o lifogydd glawog ger Ysbyty Cyffredinol Glangwili. Gan fod eiddo y tu allan i amddiffynfeydd CNC mewn perygl llawer mwy o lifogydd glawog, bydd y gwaith lliniaru perygl o lifogydd yn cael ei sbarduno gan gamau gweithredu a mentrau dan arweiniad CSC.

*Tabl 7-2 Cyfanswm y Cyfeiriadau sydd mewn Perygl o Lifogydd Glawog ac Afonol yn Abergwili*

| Math o Lifogydd | Nifer yr Eiddo sydd mewn Perygl |
|---|---|
| Llifogydd Glawog | 15 |
| Llifogydd Afonol | 5 |

Fel y nodir yn FRMP-1, dangosir bod Ysbyty Glangwilli, ynghyd â mannau isel ynysig eraill, mewn perygl o lifogydd glawog. Dangosir bod rhannau bach o Heol Abergwili a Heol Castell Pigyn mewn perygl o lifogydd afonol. Cyflwyna Tabl 7-3 nifer y derbynyddion sy'n bresennol yn Abergwili sydd mewn perygl o lifogydd.

*Tabl 7-3 Derbynyddion yn Abergwili*

| Derbynnydd | Perygl Afonol | Perygl Glawog |
|---|---|---|
| Hyd y Ffyrdd (km) | 1607 | 1419 |
| Hyd y Rheilffyrdd (km) | 0 | 59 |
| Amgylcheddol (n) | 3 | 5 |
| Tir Amaethyddol ($m^2$) | 1928136 | 146040 |
| Eiddo Preswyl | 5 | 5 |
| Eiddo Amhreswyl | 0 | 0 |
| Gwasanaethau Allweddol (n) | 0 | 0 |
| Dyraniad Preswyl | 0 | 1 |
| Adeiladau Rhestredig (n) | 7* | |

**Mae'r cyfrif yma yn archwilio nifer yr adeiladau rhestredig sy'n bresennol ledled yr ardal gymunedol y nodwyd eu bod yn ardal risg uchel. Nid yw'r cyfrif yn awgrymu bod cyfanswm yr adeiladau mewn perygl o lifogydd afonol a llifogydd glawog—ond yn hytrach eu bod mewn perygl cyffredinol o lifogydd.*

### 7.1.4 Gwaith FRM yn yr ardal ers FRMP-1

Cyflwynir gwaith FRM a wnaed yn Abergwili ers FRMP-1 isod yn 7-4.

*Tabl 7-4 Gwaith FRM a wnaed yn Abergwili ers FRMP-1 CSC.*

| Ardal Benodol (Ardal Uned Bolisi) | Camau Gweithredu FRM (FRMP-1) | Cynnydd |
|---|---|---|
| Abergwili | Bydd CSC yn parhau i ymchwilio i ddigwyddiadau llifogydd ac yn cysylltu â CNC mewn cysylltiad â llifogydd y brif afon. | Ar y Gweill |
| Gwaith nad yw'n waith FRMP-1 | Asesiad o'r risg a'r cyfeintiau yng nghronfa ddŵr Cwmoernant. | Cwblhawyd |
| | Uwchraddio sgrin brigau islaw Cronfa Ddŵr Cwmoernant. | Cwblhawyd |
| | Arolygiadau blynyddol a chynnal a chadw'r gronfa ddŵr, yn unol â gofynion y Ddeddf Cronfeydd Dŵr. | Ar y Gweill |

### 7.1.5 Ardaloedd Risg Llifogydd

Er nad yw ardal risg llifogydd penodol wedi ei nodi ar gyfer cymuned Abergwili, cyflwynir gwybodaeth allweddol sy'n ymwneud â'r risg llifogydd ledled Abergwili yn 7-5 a dangosir y camau rheoli perygl o lifogydd tymor byr, canolig a hirdymor arfaethedig yn 7-6.

*Tabl 7-5 Crynodeb o Wybodaeth Allweddol Abergwili*

| Ardal Risg Llifogydd | Gwybodaeth am Amddiffynfeydd rhag Llifogydd ac Asedau | Derbynyddion Allweddol | Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol | Partneriaid FRM Allweddol | Ymgysylltu â'r Gymuned |
|---|---|---|---|---|---|
| 4038 | • Gwael, fodd bynnag, mae'r holl ffyrdd A wedi eu harolygu ac mae draeniau y | • Cefnffordd<br>• Amgueddfa<br>• Llwybr dyffryn Tywi<br>• Ysbyty Cyffredinol Glangwili | • Yn aml<br>• Pibell wedi torri neu ei rhwystro ar Reservoir Road yn | • Llywodraeth Cymru<br>• Cefnffordd<br>• CNC | • Uchelgeisiol—hirdymor |

| Ardal Risg Llifogydd | Gwybodaeth am Amddiffynfeydd rhag Llifogydd ac Asedau | Derbynyddion Allweddol | Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol | Partneriaid FRM Allweddol | Ymgysylltu â'r Gymuned |
|---|---|---|---|---|---|
| | gronfa ddŵr wedi eu harolygu | • Is-orsaf Abergwili Sawmill<br>• Yr Eglwys yng Nghymru | achosi llifogydd | | |

### 7.1.6 Camau Gweithredu a Nodiwyd

Ar ôl nodi'r ardaloedd risg llifogydd ledled cymuned Abergwili, datblygwyd rhestr o gamau gweithredu isod yn 7-6 i fynd i'r afael â pherygl llifogydd, gan ei reoli a'i leihau.

*Tabl 7-6 Rhestr Hir o Gamau Gweithredu Posibl yn Abergwili*

| Ardal | Camau Gweithredu Posibl | Math o Weithred | Disgrifiad | Cwblhawyd / Tymor Byr / Canolig / Hirdymor | Amcangyfrif o'r costau |
|---|---|---|---|---|---|
| 4038 | Rheoli a Chynnal a Chadw Asedau | Diogelu | Cefnogi CNC i reoli, arolygu a chynnal a chadw amddiffynfeydd rhag llifogydd (llifddor ac argloddiau) ger Lôn y Felin. | Byr | £ |
| | Rheoli a Chynnal a Chadw Asedau | Diogelu | Rheoli, arolygu a chynnal a chadw'r gronfa ddŵr a'r cynllun. | Byr | £ |
| | Ôl-osod SDCau | Atal | Ceisio cyfleoedd i ôl-osod SDCau ar draws ardaloedd caled yr ysbyty. | Canolig | £££ |


## 7.2 Caefyrddin—4017

### 7.2.1 Disgrifiad o'r Ardal Gymunedol

Tref a leolir yn ABA Tywi Isaf, yng nghanol Sir Gaerfyrddin, yw Caerfyrddin (Ffigur 7-2). Yn 2021, oddeutu 14,636 o bobl oedd cyfanswm poblogaeth Caerfyrddin.[23]

Mae prif afonydd Caerfyrddin yn cynnwys Afon Tywi a Nant Tawlen. Mae Afon Tywi yn llifo drwy ran dde-ddwyreiniol Caerfyrddin, ac mae dalgylch Nant Tawlen ymhellach i'r gorllewin yn y gymuned. Mae 1 o bob 200 o bobl mewn perygl o lifogydd afonol ac mae 1 o bob 24 o bobl mewn perygl o lifogydd glawog yng Nghaerfyrddin.

Mae'r rhan fwyaf o ardal gymunedol Caerfyrddin yn drefol. Mae sawl ffordd A sy'n pasio drwy Gaerfyrddin, sef yr A40, yr A484 a'r A4242. Lleolir gorsaf reilffordd Caerfyrddin a'r rheilffordd gysylltiedig hefyd yn yr ardal gymunedol.




*Ffigur 7-2 Ardal Gymunedol Caerfyrddin*

---

[23] Caerfyrddin (Community, United Kingdom)—Population Statistics, Charts, Map and Location (citypopulation.de)

### 7.2.2 Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol

Mae hanes hir o lifogydd yng Nghaerfyrddin. Er bod amddiffynfeydd rhag llifogydd CNC yn amddiffyn ardaloedd preswyl a masnachol rhag llifogydd afonol, mae llifogydd glawog yn dal yn gyffredin ac mae'r llanw'n cau'r systemau draenio y tu ôl i'r amddiffynfeydd hyn. Yn fwyaf diweddar, yn 2018, gorlifodd amddiffynfeydd CNC ar Afon Tywi a gwelsom lifogydd sylweddol ym Mhen-sarn ac yn Nhre Ioan. Er bod Tre Ioan yn ardal fwy preswyl, masnachol yn bennaf yw'r rhan fwyaf o ardaloedd eraill sydd mewn perygl o lifogydd o Afon Tywi, ac adlewyrchir hyn yn yr ystadegau yn 7-7.

*Tabl 7-7 Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol yng Nghaerfyrddin*

| Math o Ddigwyddiad | Nifer yr Achlysuron |
|---|---|
| Amhreswyl Allanol | 10 |
| Preswyl Allanol | 38 |
| Amhreswyl Mewnol | 64 |
| Preswyl Mewnol | 47 |

### 7.2.3 Perygl Llifogydd mewn Ardal Gymunedol

Er gwaethaf y risg gymharol, dim ond 23 eiddo sydd mewn perygl o lifogydd afonol yn yr ardal, oherwydd bod amddiffynfeydd CNC sylweddol ar waith i amddiffyn glannau Afon Tywi a Nant Tawelan.

O ystyried natur drefol yr ardal ehangach, mae llifogydd glawog yn dominyddu'r risg, a system carthffosiaeth cyfunol DCWW a systemau draenio priffyrdd CSC yw'r prif seilwaith draenio. O dan y ddaear y mae'r systemau hyn.

Cyflwynir data sy'n ymwneud â nifer yr eiddo sydd mewn perygl o lifogydd afonol neu lawog ledled ardal gymunedol Caerfyrddin isod yn 7-8. Gan fod eiddo ledled Caerfyrddin mewn perygl llawer mwy o lifogydd glawog na llifogydd afonol, bydd y gwaith lliniaru perygl o lifogydd yn cael ei sbarduno gan gamau gweithredu a mentrau dan arweiniad CSC, gyda chefnogaeth helaeth gan DCWW.

*Tabl 7-8 Cyfanswm y Cyfeiriadau sydd mewn Perygl o Lifogydd Glawog ac Afonol yng Nghaerfyrddin*

| Math o Lifogydd | Nifer yr Eiddo sydd mewn Perygl |
|---|---|
| Llifogydd Glawog | 190 |
| Llifogydd Afonol | 23 |

Yn ogystal â'r nifer uchel o eiddo preswyl sydd mewn perygl, mae perygl sylweddol i adeiladau masnachol ac mae'r seilwaith priffyrdd mewn perygl yng Nghaerfyrddin. O ystyried natur hanesyddol Caerfyrddin, mae nifer uchel o adeiladau rhestredig hefyd sydd mewn perygl o lifogydd.

Dangosir bod rhannau o Heol y Gwyddau, Heol Ioan a Heol y Berllan ger ardaloedd manwerthu Caerfyrddin mewn perygl o lifogydd glawog. Yn fwy diweddar, rydym wedi gweld llifogydd glawog aml yn Heol yr Hen Orsaf, Hen Heol Llangynnwr, Pensarn Road, Ffordd Steffan, Station Approach ac Old Llansteffan Road. Mae'r ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd yn adnabyddus ac maent yn cynnwys y Cei, yr A4242 a Pharc Manwerthu Pen-sarn (Pensarn Road a Hen Heol Llangynnwr). Cyflwyna Tabl 7-9 nifer y derbynyddion sy'n bresennol yng Nghaerfyrddin sydd mewn perygl o lifogydd.

*Tabl 7-9 Derbynyddion yng Nghaerfyrddin*

| Derbynnydd | Perygl Afonol | Perygl Glawog |
|---|---|---|
| Hyd y Ffyrdd (km) | 2923 | 4311 |
| Hyd y Rheilffyrdd (km) | 235 | 10 |
| Amgylcheddol (n) | 7 | 6 |
| Tir Amaethyddol ($m^2$) | 703188 | 132856 |
| Eiddo Preswyl | 6 | 102 |
| Eiddo Amhreswyl | 17 | 88 |
| Gwasanaethau Allweddol (n) | 2 | 3 |
| Safle Strategol | 0 | Yr Egin |
| Safleoedd SFA Ychwanegol | 2 | 3 |
| Parc Manwerthu | 0 | Ffordd Steffan a Pharc Pensarn |
| Dyraniad Preswyl | 1 | 1 |
| Defnydd Cymysg | 1 | 1 |
| Adeiladau Rhestredig (n) | 303* | |

**Mae'r cyfrif yma yn archwilio nifer yr adeiladau rhestredig sy'n bresennol ledled yr ardal gymunedol y nodwyd eu bod yn ardal risg uchel. Nid yw'r cyfrif yn awgrymu bod cyfanswm yr adeiladau mewn perygl o lifogydd afonol a llifogydd glawog—ond yn hytrach eu bod mewn perygl cyffredinol o lifogydd.*

### 7.2.4 Gwaith FRM yn yr ardal ers FRMP-1

Cyflwynir gwaith FRM a wnaed yng Nghaerfyrddin ers FRMP-1 isod yn  7-10.

*Tabl 7-10 Gwaith FRM a wnaed yng Nghaerfyrddin ers FRMP-1 CSC.*

| Ardal Benodol (Ardal Uned Bolisi) | Camau Gweithredu FRM (FRMP-1) | Cynnydd |
|---|---|---|
| Heol Llansteffan, Caerfyrddin | Cysylltu â DCWW ynghylch cynnal a chadw'r system dŵr wyneb cyhoeddus | Cwblhawyd |

Daeth achos busnes a ddatblygodd CSC yn 2020, a oedd yn ceisio ennill cyllid gan Lywodraeth Cymru i reoli'r perygl o lifogydd dŵr wyneb i Ben-sarn, i'r casgliad bod unrhyw ymyriadau yn yr ardal hon yn rhy gostus. Mae sefyllfa bresennol CNC mewn cysylltiad â waliau llifogydd Pen-sarn yn parhau, ac ni fydd yr amddiffynfeydd yn cael eu huwchraddio er mwyn ymateb i unrhyw berygl ychwanegol o Afon Tywi.

Ar ôl y llifogydd a ddigwyddodd yn ystod Storm Callum yn 2018, mae nifer o brosesau a roddir ar waith yn ystod digwyddiadau tywydd eithafol er mwyn helpu i reoli'r perygl yn ardal Caerfyrddin.

### 7.2.5 Ardaloedd Risg Llifogydd

Gan na ellir cymhwyso camau gweithredu unigol i fynd i'r afael â'r perygl llifogydd ledled cymuned Caerfyrddin yn gyffredinol, crëwyd 3 is-ardal ar sail y perygl llifogydd a'r dalgylchoedd. Ceir gwybodaeth mwy penodol am y perygl llifogydd yn yr ardaloedd hyn yn  7-11.


#### *7.2.5.1 4017-A Canol Tref Caerfyrddin*

***Disgrifiad o'r Ardal***

Ardal drefol yn bennaf a leolir ar lan ogleddol Afon Tywi yw 4017-A (Ffigur 7-3). Yr ardal hon yw prif ganolfan siopa y dref a dyma lle mae llawer o fusnesau yn gweithredu. Mae'r ardal hon hefyd yn croesawu llawer o dwristiaid bob blwyddyn sy'n dod i weld y castell a nodweddion hanesyddol eraill y dref.

***Gwaith Amddiffyn rhag Llifogydd***

Nid oes unrhyw waith ar y gweill ar hyn o bryd.




*Ffigur 7-3 Ardal Risg Llifogydd 4017-A*

### 7.2.5.2 4017-B Parc Manwerthu Pen-sarn


**_Disgrifiad o'r Ardal_**

Masnachol yw ardal Pen-sarn (Ardal 4017-B; Ffigur 7-4) yn bennaf, ac mae gorsaf drenau Sir Gaerfyrddin yn ganolbwynt. Ardal isel sydd wedi datblygu er gwaethaf ei pherygl llifogydd yw hi. Er bod yr ardal yn elwa ar wal lifogydd CNC a gorsaf pwmpio dŵr wyneb CSC, mae digwyddiadau llifogydd blynyddol ac effeithiodd llifogydd sylweddol ar yr ardal yn 2018 a 2020.

**_Gwaith Amddiffyn rhag Llifogydd_**

Mae sefyllfa bresennol CNC yn parhau ac ni fydd yr amddiffynfeydd yn cael eu huwchraddio er mwyn ymateb i unrhyw berygl ychwanegol o Afon Tywi.

Daeth achos busnes a ddatblygodd CSC yn 2020, a oedd yn ceisio ennill cyllid gan Lywodraeth Cymru i reoli'r perygl o lifogydd dŵr wyneb, i'r casgliad bod unrhyw ymyriadau yn yr ardal hon yn rhy gostus.




*Ffigur 7-4 Ardal Risg Llifogydd 4017-B*


### 7.2.5.3 4017-C Tre Ioan

***Disgrifiad o'r Ardal***

Mae Nant Tawelan, sy'n brif afon, yn dominyddu ardal Tre Ioan, Caerfyrddin (Ffigur 7-5). Mae'r ardal yn elwa ar amddiffynfeydd llifogydd CNC sy'n cyfyngu ar Nant Tawelan, ond mae'r ardaloedd trefol uchel i'r gogledd yn gollwng dŵr i waelod y dyffryn drwy gymysgedd o asedau CSC a DCWW. Mae'r llanw'n cau y systemau hyn pan fo llif Nant Tawelan ar ei frig, a all arwain at lifogydd lleol sylweddol.

***Gwaith Amddiffyn rhag Llifogydd***

Cynhaliwyd ymchwiliadau a gwaith rheoli asedau sylweddol ar ôl Storm Callum yn 2018. Gwnaed uwchraddiadau lleol i'r seilwaith draenio ac mae ein gwybodaeth yma mor fanwl ag unrhyw le yn y sir. Mae gennym gynllun pwmpio hefyd y gellir ei weithredu pan fo llifogydd yn Old Llansteffan Road neu Hen Heol Sanclêr. Nid oes unrhyw waith arall a gynlluniwyd nac sydd ar y gweill ar hyn o bryd oherwydd deellir y rhwydwaith risg a draenio i raddau helaeth.




*Ffigur 7-5 Ardal Risg Llifogydd 4017-C*

*Tabl 7-11 Crynodeb o Ardaloedd Risg Llifogydd Caerfyrddin*

| Ardal Risg Llifogydd | Gwybodaeth am Amddiffynfeydd rhag Llifogydd ac Asedau | Cyfeiriadau mewn Perygl | Derbynyddion Allweddol | Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol | Partneriaid FRM Allweddol | Ymgysylltu â'r Gymuned |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4017-A | • Gwael<br>• Mae gan DCWW gynlluniau manwl oherwydd bod yr ardal yn cael ei gwasanaethu gan eu system gyfunol i raddau helaeth<br>• Gwych | Afonol: 6<br>Glawog: 214 | • Neuadd y Sir<br>• Castell Caerfyrddin<br>• Prif Ffyrdd (A4242 Ffordd y Cwrwg, yr A484, y B4312)<br>• Heol yr Hen Orsaf<br>• Eglwysi x 9<br>• Llyfrgell Caerfyrddin<br>• Is-orsafoedd (gan gynnwys Is-orsaf Porth Tywyll, Is-orsaf Rees House, Is-orsaf Eglwys Sant Pedr Caerfyrddin, Is-orsaf Swyddfeydd Cyngor Dosbarth Caerfyrddin)<br>• Cyngor Sir Caerfyrddin | • Storm Callum—2018 | • DCWW, LLFA, Llywodraeth Cymru, CNC | • Dymunol (tymor canolig) |
| 4017-B | | Afonol: 32<br>Glawog: 10 | • Gorsaf drenau<br>• Rheilffordd<br>• Gorsaf betrol<br>• Swyddfa Ddosbarthu'r Post Brenhinol Caerfyrddin | • Storm Callum—2018 | • Perchnogion Busnesau Lleol, Llywodraeth Cymru, LLFA, CNC | |
| 4017-C | | Afonol: 20<br>Glawog: 29 | • Coleg Sir Gar: Campws Ffynnon Job<br>• Is-orsaf Waun Burgess | • Storm Callum 2018 | • LLFA, CNC | |

### 7.2.6 Camau Gweithredu a Nodiwyd

Ar ôl nodi'r ardaloedd risg llifogydd ledled cymuned Caerfyrddin, datblygwyd rhestr o gamau gweithredu isod yn  7-12 i fynd i'r afael â pherygl llifogydd, gan ei reoli a'i leihau.

*Tabl 7-12 Rhestr Hir o Gamau Gweithredu Posibl yng Nghaerfyrddin*

| Ardal | Camau Gweithredu Posibl | Math o Weithred | Disgrifiad | Cwblhawyd / Tymor Byr / Canolig / Hirdymor | Amcangyfrif o'r Gost |
|---|---|---|---|---|---|
| Y Gymuned Gyfan | Gweithio mewn partneriaeth | Adolygu | Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli.<br>Gweithio gyda'r brifysgol i reoli dŵr wyneb oddi ar ei safle. | Canolig i hirdymor | £ |
| 4017-A | Ôl-osod SDCau | Atal | Chwilio am gyfleoedd i ôl-osod SDCau o amgylch ardal canol y dref/Canolfan Siopa Santes Catrin a allai ddarparu gwerth amwynder a manteision eraill yn ogystal â lleihau'r perygl llifogydd.<br>Gallai eiddo yn Park Terrace elwa ar nodweddion SDCau yn y lleoliad hwn. | Canolig | £££ |
| | Rheoli a Chynnal a Chadw Asedau | Atal | Rheoli, arolygu a chynnal a chadw amddiffynfeydd rhag llifogydd. | Ar y Gweill | £ |
| | Rheoli a Chynnal a Chadw Asedau | Atal | Gweithio gyda DCWW a'r Awdurdod Priffyrdd i ddatblygu map carthffosiaeth dŵr wyneb ar gyfer yr ardal. | Ar y Gweill | ££ |
| | Peirianneg Caled | Diogelu | Chwilio am gyfleoedd i weithio gyda DCWW a'r Awdurdod Priffyrdd i werthuso'r seilwaith draenio. Edrych ar wahanu rhwydweithiau dŵr wyneb a | Canolig | £££ |

| Ardal | Camau Gweithredu Posibl | Math o Weithred | Disgrifiad | Cwblhawyd / Tymor Byr / Canolig / Hirdymor | Amcangyfrif o'r Gost |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | charthffosiaeth budr, gan gynyddu capasiti pibellau. | | |
| 4017-B | Gweithio mewn Partneriaeth | Adolygu | Chwilio am gyfleoedd i weithio gyda thîm Adfywio a Busnes CSC ac i drafod dyfodol Parc Manwerthu Pen-sarn. | Hirdymor | ££££ |
| | Rheoli a Chynnal a Chadw Asedau | Atal/Diogelu | Rheoli, arolygu a chynnal a chadw amddiffynfeydd rhag llifogydd (waliau, dros dro ac argloddiau) ar hyd Afon Tywi. | Ar y Gweill | £ |
| 4017-C | Ôl-osod SDCau | Atal | Gallai darparu SDCau ar hyd Hen Heol Sanclêr a chlystyrau eraill o eiddo sydd mewn perygl leihau'r perygl o lifogydd dŵr wyneb. | Byr | £££ |
| | Rheoli a Chynnal a Chadw Asedau | Atal/Diogelu | Rheoli, arolygu a chynnal a chadw amddiffynfeydd rhag llifogydd (waliau, rhwystrau dros dro ac argloddiau) ar hyd Nant Tawelan. | Ar y Gweill | £ |
| | Ôl-osod SDCau | Atal | Chwilio am gyfleoedd i weithio gyda Phrifysgol Cymru a'r Bwrdd Iechyd Lleol o ran rheoli dŵr wyneb o'u hystadau. | Hirdymor | ££££ |


# 8 Ardal Basn Afon Teifi

## 8.1 Cwm-ann—4043

### 8.1.1 Disgrifiad o'r Ardal Gymunedol

Pentref bychan a leolir ar lan ddeheuol Afon Teifi yn ABA Teifi yw Cwm-ann (Ffigur 8-1). Yn 2021, oddeutu 972 o bobl oedd cyfanswm poblogaeth Cwm-ann[24].

Mae Afon Teifi yn llifo drwy ran ogleddol yr ardal gymunedol. Mae 1 o bob 18 o bobl mewn perygl o lifogydd afonol ac mae 1 o bob 10 o bobl mewn perygl o lifogydd glawog yng Nghwm-ann. Gwledig yw'r ardal gymunedol i raddau helaeth, ac mae trefoli ar hyd y prif ffyrdd. Mae'r prif seilwaith yn cynnwys yr A482 a'r A485.




*Ffigur 8-1 Ardal Gymunedol Cwm-ann*

---

24 [Cwm-ann (Sir Gaerfyrddin, Cymru, Y Deyrnas Unedig)—Ystadegau Poblogaeth, Siartiau, Map, Lleoliad, Tywydd a Gwybodaeth am y We (citypopulation.de)](#)

### 8.1.2 Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol

Bu llifogydd sylweddol yng Nghwm-ann yn hanesyddol, a 1987 oedd un o'r digwyddiadau gwaethaf. Dengys Tabl 8-1 nifer y digwyddiadau llifogydd a adroddwyd, yng Nghwm-ann, a adroddwyd i dîm FRM CSC rhwng 2018 a 2024. Nifer isel iawn o ddigwyddiadau llifogydd a adroddir yn y gymuned hon o'i chymharu â'r 27 o ardaloedd risg uchel, blaenoriaeth uchel eraill.

*Tabl 8-1 Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol yng Nghwm-ann*

| Math o Ddigwyddiad | Nifer yr Achlysuron |
|---|---|
| Amhreswyl Allanol | 1 |
| Preswyl Allanol | 0 |
| Amhreswyl Mewnol | 2 |
| Preswyl Mewnol | 3 |

### 8.1.3 Perygl Llifogydd mewn Ardal Gymunedol

Mae'r mwyafrif o eiddo mewn perygl o lifogydd glawog wrth i ddŵr raeadru ar y tir uchel i'r de, gan lifo tua'r gogledd tuag at brif Afon Teifi. Mae nifer o nentydd bach sy'n dal y dŵr hwn, a system draenio priffyrdd. Gorlwytho a gorlifo'r nodweddion hyn yw'r risg.

Yng ngogledd yr ardal, mae gan brif Afon Tywi orlifdir eang ac mae 13 eiddo sydd mewn perygl yn yr ardal hon. CNC sy'n rheoli'r perygl llifogydd o Afon Teifi ac Afon Tywi.

Cyflwynir data sy'n ymwneud â nifer yr eiddo sydd mewn perygl o lifogydd afonol neu lawog ledled ardal gymunedol Cwm-ann isod yn  8-2. Gan fod eiddo ledled Cwm-ann mewn perygl mwy o lifogydd glawog na llifogydd afonol, bydd y gwaith lliniaru perygl o lifogydd yn cael ei sbarduno gan gamau gweithredu a mentrau dan arweiniad CSC.

*Tabl 8-2 Cyfanswm y Cyfeiriadau sydd mewn Perygl o Lifogydd Glawog ac Afonol yng Nghwm-ann*

| Math o Lifogydd | Nifer yr Eiddo sydd mewn Perygl |
|---|---|
| Llifogydd Glawog | 34 |
| Llifogydd Afonol | 13 |

Yn ogystal â'r eiddo a amlygir uchod, i seilwaith y priffyrdd, sy'n allweddol yn yr ardal hon, y mae'r risg fwyaf. Dangosir bod ffyrdd arwyddocaol, gan gynnwys rhannau o'r A485 a'r B4383, mewn perygl o lifogydd afonol. Mae ysgol gynradd yng Nghwm-ann

hefyd wrth y Ram sydd mewn perygl o lifogydd. Cyflwyna Tabl 8-3 nifer y derbynyddion sy'n bresennol yng Nghwm-ann sydd mewn perygl o lifogydd.

*Tabl 8-3 Derbynyddion yng Nghwm-ann*

| Derbynnydd | Perygl Afonol | Perygl Glawog |
|---|---|---|
| Hyd y Ffyrdd (km) | 1649 | 1468 |
| Hyd y Rheilffyrdd (km) | 0 | 0 |
| Amgylcheddol (n) | 12 | 2 |
| Tir Amaethyddol ($m^2$) | 1007788 | 219544 |
| Eiddo Preswyl | 12 | 33 |
| Eiddo Amhreswyl | 1 | 1 |
| Gwasanaethau Allweddol (n) | 0 | 1 |
| Dyraniad Preswyl | 0 | 2 |
| Adeiladau Rhestredig (n) | 2* | |
| *Mae'r cyfrif yma yn archwilio nifer yr adeiladau rhestredig sy'n bresennol ledled yr ardal gymunedol y nodwyd eu bod yn ardal risg uchel. Nid yw'r cyfrif yn awgrymu bod cyfanswm yr adeiladau mewn perygl o lifogydd afonol a llifogydd glawog—ond yn hytrach eu bod mewn perygl cyffredinol o lifogydd.* | | |

### 8.1.4 Gwaith FRM yn yr ardal ers FRMP-1

Nid oes unrhyw waith FRM a wnaed yng Nghwm-ann ers y FRMP-1 blaenorol.


### 8.1.5 Ardaloedd Risg Llifogydd

***Disgrifiad o'r Ardal***

O ystyried ein dealltwriaeth o'r perygl a'n dadansoddiad o'r data sydd ar gael inni ar hyn o bryd, ein nod yw canolbwyntio ein hadnoddau ar y gwaith sydd ar y gweill gennym yn Heol Treherbert a sgrin brigau Cwm-ann. Fel y dangosir yn Ffigur 8-2. Ceir gwybodaeth mwy penodol am y perygl llifogydd yn yr ardal hon yn  8-4.

***Gwaith Amddiffyn rhag Llifogydd***

Ar hyn o bryd, mae CSC yn bwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu achos busnes er mwyn ceisio cyllid i uwchraddio'r cwrs dŵr â chwlfert yn Heol Treherbert. Gwnaed gwaith i fyny'r dalgylch yn flaenorol ac mae sgrin brigau newydd wedi ei dylunio.




*Ffigur 8-2 Ardal Risg Llifogydd 4043-A*

*Tabl 8-4 Crynodeb o Ardaloedd Risg Llifogydd Cwm-ann*

| Ardal Risg Llifogydd | Gwybodaeth am Amddiffynfeydd rhag Llifogydd ac Asedau | Cyfeiriadau mewn Perygl | Derbynyddion Allweddol | Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol | Partneriaid FRM Allweddol | Ymgysylltu â'r Gymuned |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4043-A | • Cyfartaledd (ac eithrio asedau yr A482) | • Afonol: 0<br>• Glawog: 33 | • Ysgol | • Storm Callum—2018 | • DCWW, CNC | • Dymunol—Tymor byr (er mwyn cefnogi prif waith presennol) |

### 8.1.6 Camau Gweithredu a Nodiwyd

Ar ôl nodi'r ardaloedd risg llifogydd ledled cymuned Cwm-ann, datblygwyd rhestr o gamau gweithredu isod yn 8-5 i fynd i'r afael â pherygl llifogydd, gan ei reoli a'i leihau.

*Tabl 8-5* Rhestr Hir o Gamau Gweithredu Posibl yng Nghwm-ann

| Ardal | Camau Gweithredu Posibl | Math o Weithred | Disgrifiad | Cwblhawyd / Tymor Byr / Canolig / Hirdymor | Amcangyfrif o'r Costau |
|---|---|---|---|---|---|
| 4043-A | Rheoli a Chynnal a Chadw Asedau | Atal/Diogelu | Busnes fel arfer—rheoli, arolygu a chynnal a chadw asedau draenio presennol mewn meysydd risg allweddol. | Ar y Gweill | £ |
| | Cydnerthedd Gwrthsefyll Llifogydd Eiddo | Diogelu | Hybu'r defnydd o Gydnerthedd Gwrthsefyll Llifogydd Eiddo er mwyn grymuso preswylwyr i reoli'r perygl llifogydd o Afon Arad. | Hirdymor | |
| | Peirianneg Caled | Diogelu | Uwchraddio sgrin brigau Cwm-ann (os oes cyllid grant ar gael). | Byr | £££ |


| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Peirianneg Caled | Diogelu | Yn amodol ar gyllid parhaus LlC, cwblhau'r dyluniad manwl ac adeiladu'r gwaith lliniaru llifogydd yn Heol Treherbert. | Byr i ganolig | £££ |

## 8.2 Dre-fach Felindre—4084

### 8.2.1 Disgrifiad o'r Ardal Gymunedol

Pentref a leolir yn ABA Teifi yng ngogledd-orllewin Sir Gaerfyrddin yw Dre-fach Felindre (Ffigur 8-3). Yn 2001, oddeutu 1,200 o bobl oedd cyfanswm poblogaeth Dre-fach Felindre.

Gorwedda'r pentref wrth gydlifiad tair nant sy'n llifo'n gyflym, sef Nant Bargod, Nant Esgair a Nant Brân, lle maent yn agor yn Nyffryn Teifi. Mae 1 o bob 12 o bobl mewn perygl o lifogydd afonol ac mae 1 o bob 20 o bobl mewn perygl o lifogydd glawog yn Nhre-fach. Gwledig yw'r ardal i raddau helaeth. Mae sawl adeilad rhestredig yn yr ardal gymunedol.




*Ffigur 8-3 Ardal Gymunedol Dre-fach Felindre*

### 8.2.2 Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol

Yn hanesyddol, bu llifogydd sylweddol yn Nhre-fach Felindre ym 1987. Dengys Tabl 8-6 mai dim ond 11 o ddigwyddiadau llifogydd yn Nhre-fach Felindre a adroddwyd i

dîm FRM CSC rhwng 2018 a 2024. Nifer isel o ddigwyddiadau llifogydd a adroddir yn y gymuned hon o'i chymharu â'r 27 o ardaloedd risg uchel, blaenoriaeth uchel eraill.

*Tabl 8-6 Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol yn Nhre-fach Felindre*

| Math o Ddigwyddiad | Nifer yr Achlysuron |
|---|---|
| Amhreswyl Allanol | 1 |
| Preswyl Allanol | 5 |
| Amhreswyl Mewnol | 0 |
| Preswyl Mewnol | 5 |

### 8.2.3 Perygl Llifogydd mewn Ardal Gymunedol

Cyflwynir data sy'n ymwneud â nifer yr eiddo sydd mewn perygl o lifogydd afonol neu lawog ledled ardal gymunedol Dre-fach Felindre isod yn  8-7. Oherwydd bod eiddo ledled Dre-fach Felindre mewn perygl cyfartal o lifogydd afonol a glawog, bydd CSC a CNC yn mynd i'r afael â'r gwaith o liniaru perygl llifogydd ar y cyd.

*Tabl 8-7 Cyfanswm y Cyfeiriadau sydd mewn Perygl o Lifogydd Glawog ac Afonol yn Dre-fach Felindre*

| Math o Lifogydd | Nifer yr Eiddo sydd mewn Perygl |
|---|---|
| Llifogydd Glawog | 18 |
| Llifogydd Afonol | 19 |

Cyflwyna Tabl 8-8 nifer y derbynyddion sy'n bresennol yn Dre-fach Felindre sydd mewn perygl o lifogydd.

*Tabl 8-8 Derbynyddion yn Nhre-fach Felindre*

| Derbynnydd | Perygl Afonol | Perygl Glawog |
|---|---|---|
| Hyd y Ffyrdd (km) | 785 | 397 |
| Hyd y Rheilffyrdd (km) | 0 | 0 |
| Amgylcheddol (n) | 7 | 1 |
| Tir Amaethyddol ($m^2$) | 233932 | 24800 |
| Eiddo Preswyl | 15 | 16 |
| Eiddo Amhreswyl | 4 | 2 |
| Gwasanaethau Allweddol (n) | 2 | 0 |
| Adeiladau Rhestredig (n) | 22* | |

**Mae'r cyfrif yma yn archwilio nifer yr adeiladau rhestredig sy'n bresennol ledled yr ardal gymunedol y nodwyd eu bod yn ardal risg uchel. Nid yw'r cyfrif yn awgrymu bod cyfanswm yr adeiladau mewn perygl o lifogydd afonol a llifogydd glawog—ond yn hytrach eu bod mewn perygl cyffredinol o lifogydd.*

### 8.2.4 Gwaith FRM yn yr ardal ers FRMP-1

Nid oes unrhyw waith FRM a wnaed yn Nhre-fach Felindre ers y FRMP-1 blaenorol.


### 8.2.5 Ardaloedd Risg Llifogydd

***Disgrifiad o’r Ardal***

Mae un ardal risg llifogydd a nodwyd yn Dre-fach Felindre, a labelir fel 4084-A yn Ffigur 8-4. Lleolir Ardal 4084-A rhwng canol ac ochr orllewinol y gymuned. Mae Ardal 4043-A yn gymysgedd o fannau preswyl a gwyrdd. Mae sawl cwrs dŵr cyffredin sy’n rhedeg drwy’r ardal hon. Mae’r ardal mewn perygl o lifogydd glawog ac afonol. Ceir gwybodaeth mwy penodol am y perygl llifogydd yn yr ardaloedd hyn yn  8-9.

***Gwaith Amddiffyn rhag Llifogydd***

Nid oes unrhyw waith ar y gweill ar hyn o bryd.




*Ffigur 8-4 Ardal Risg Llifogydd 4084-A*

*Tabl 8-9 Crynodeb o Ardaloedd Risg Llifogydd Dre-fach*

| Ardal Risg Llifogydd | Gwybodaeth am Amddiffynfeydd rhag Llifogydd ac Asedau | Cyfeiriadau mewn Perygl | Derbynyddion Allweddol | Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol | Partneriaid FRM Allweddol | Ymgysylltu â'r Gymuned |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4084-A | • Gwael | • Afonol: 25<br>• Glawog: 14 | • Ysgol<br>• Amgueddfa Wlân Cymru<br>• Neuadd y Ddraig Goch | • Ni ddarparwyd gwybodaeth | • LLFA, CNC, Bwrdd Rheoli Maetholion | • Dymunol—hirdymor |

## 8.2.6 Camau Gweithredu a Nodiwyd

Ar ôl nodi'r ardaloedd risg llifogydd ledled cymuned Dre-fach Felindre, datblygwyd rhestr o gamau gweithredu isod yn 8-10 i fynd i'r afael â pherygl llifogydd, gan ei reoli a'i leihau.

*Tabl 8-10* Rhestr Hir o Gamau Gweithredu Posibl yn Nhre-fach

| Ardal | Camau Gweithredu Posibl | Math o Weithred | Disgrifiad | Cwblhawyd / Tymor Byr / Canolig / Hirdymor | Amcangyfrif o'r Costau |
|---|---|---|---|---|---|
| 4048-A | Mapio a modelu llifogydd yn well | Adolygu | Chwilio am gyfleoedd i wella ein dealltwriaeth o berygl llifogydd â modelu llifogydd a thelemetreg. | Hirdymor | ££ |
| | Rheoli Llifogydd Naturiol | Atal | Chwilio am gyfleoedd i weithio gyda'r Bwrdd Rheoli Maetholion ac i ddefnyddio technegau Rheoli Llifogydd Naturiol megis basnau gwanhau, gwlyptiroedd, blocio ceunentydd neu argaeau sy'n gollwng er mwyn cyflawni buddion lluosog. | Hirdymor | £££ |


| Ardal | Camau Gweithredu Posibl | Math o Weithred | Disgrifiad | Cwblhawyd / Tymor Byr / Canolig / Hirdymor | Amcangyfrif o'r Costau |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cydnerthedd Gwrthsefyll Llifogydd Eiddo | Diogelu | Chwilio am gyfleoedd i hybu'r defnydd o Gydnerthedd Gwrthsefyll Llifogydd Eiddo er mwyn grymuso preswylwyr i reoli'r perygl llifogydd o Afon Bargoed a'i hisafonydd. | Hirdymor | £ |

## 8.3 Llandysul—4033

### 8.3.1 Disgrifiad o’r Ardal Gymunedol

Tref a chymuned a leolir yn ABA Teifi, yn rhannol yn Sir Gaerfyrddin ac yn rhannol yn sir Ceredigion yw Llandysul (Ffigur 8-5). Yn 2021, oddeutu 1,322 o bobl oedd cyfanswm poblogaeth Llandysul.[25]

Mae Afon Teifi ac Afon Tyweli yn llifo drwy’r ardal gymunedol. Gwledig yw’r ardal i raddau helaeth, gyda threfoli ym Mhont-tyweli ac ar hyd lan chwith Afon Teifi, yn Sir Gaerfyrddin. Mae 1 o bob 28 o bobl mewn perygl o lifogydd afonol a glawog. Mae sawl ffordd B yn yr ardal gymunedol, yn ogystal â sawl adeilad rhestredig. Disgrifir y rhan o’r gymuned a leolir yn Sir Gaerfyrddin, ar lan ddwyreiniol Afon Teifi, yn yr Ardal Risg Llifogydd isod.




*Ffigur 8-5 Ardal Gymunedol Llandysul*

25 https://www.citypopulation.de/en/uk/wales/ceredigion/W45000269__llandysul/

### 8.3.2 Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol

Bu llifogydd sylweddol yn Llandysul yn hanesyddol, ac yn 2018, yn ystod Storm Callum, yr oedd y digwyddiad gwaethaf. Dengys Tabl 8-11 mai 94 yw nifer y digwyddiadau llifogydd a adroddwyd, yn Llandysul, a adroddwyd i dîm FRM CSC rhwng 2018 a 2024. Mae gan y gymuned hon un o'r niferoedd uchaf o ddigwyddiadau llifogydd a adroddir o'i chymharu â'r 27 o ardaloedd risg uchel, blaenoriaeth uchel eraill.

*Tabl 8-11 Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol yn Llandysul*

| Math o Ddigwyddiad | Nifer yr Achlysuron |
|---|---|
| Amhreswyl Allanol | 6 |
| Preswyl Allanol | 4 |
| Amhreswyl Mewnol | 38 |
| Preswyl Mewnol | 46 |

### 8.3.3 Perygl Llifogydd mewn Ardal Gymunedol

Cyflwynir data sy'n ymwneud â nifer yr eiddo sydd mewn perygl o lifogydd afonol neu lawog ledled ardal gymunedol Llandysul isod yn 8-12. Gan fod eiddo ledled Llandysul mewn mwy o berygl o lifogydd afonol na llifogydd glawog, dylai'r gwaith lliniaru perygl llifogydd gael ei sbarduno gan gamau gweithredu a mentrau dan arweiniad CNC.

*Tabl 8-12 Cyfanswm y Cyfeiriadau sydd mewn Perygl o Lifogydd Glawog ac Afonol yn Llandysul*

| Math o Lifogydd | Nifer yr Eiddo sydd mewn Perygl |
|---|---|
| Llifogydd Glawog | 13 |
| Llifogydd Afonol | 36 |

Mae derbynyddion allweddol yn cynnwys y ganolfan gweithgareddau awyr agored, Ystad Ddiwydiannol Llandysul, yr orsaf dân, milfeddygon a siopau lleol. Mae'r gwaith trin carthion uwchben y gorlifdir gweithredol, ond nid yw'r orsaf bwmpio. Fel y gwelwyd yn ystod Storm Callum, mae Station Road a Chapel Street ym Mhont-tyweli mewn perygl sylweddol o lifogydd afonol. Cyflwyna Tabl 8-13 nifer y derbynyddion sy'n bresennol yn Llandysul sydd mewn perygl o lifogydd.

*Tabl 8-13 Derbynyddion yn Llandysul*

| Derbynnydd | Perygl Afonol | Perygl Glawog |
|---|---|---|
| Hyd y Ffyrdd (km) | 1436 | 517 |
| Hyd y Rheilffyrdd (km) | 0 | 0 |
| Amgylcheddol (n) | 3 | 2 |
| Tir Amaethyddol ($m^2$) | 1154124 | 112204 |
| Eiddo Preswyl | 3 | 11 |
| Eiddo Amhreswyl | 13 | 1 |
| Gwasanaethau Allweddol (n) | 1 | 0 |
| Dyraniad Preswyl | 0 | 1 |
| Adeiladau Rhestredig (n) | 37* | |
| *Mae'r cyfrif yma yn archwilio nifer yr adeiladau rhestredig sy'n bresennol ledled yr ardal gymunedol y nodwyd eu bod yn ardal risg uchel. Nid yw'r cyfrif yn awgrymu bod cyfanswm yr adeiladau mewn perygl o lifogydd afonol a llifogydd glawog—ond yn hytrach eu bod mewn perygl cyffredinol o lifogydd. | | |

### 8.3.4 Gwaith FRM yn yr ardal ers FRMP-1

Ar ôl Storm Callum yn 2018, bu gwaith sylweddol yng nghymuned Pont-tyweli. Er mai afonol yw'r perygl llifogydd yn y gymuned ac felly dylai gael ei arwain gan weithredoedd a mentrau CNC (fel y nodir ym mharagraff 8.3.3), mae CSC wedi gorfod arwain y gwaith o reoli'r perygl llifogydd. Wrth arwain y gwaith hwn yn ystod y 7 mlynedd ddiwethaf, rydym wedi:

- Diweddaru model llifogydd CNC ar gyfer yr ardal.
- Ymgymryd ag Ymchwiliad i ddigwyddiad Adran 19.
- Cynnal gwerthusiad o'r perygl llifogydd a datblygu achosion busnes yn unol â hynny.
- Arweinio grŵp amlasiantaeth sy'n edrych ar berygl llifogydd yn yr ardal.
- Gwneud cais llwyddiannus am gyllid grant gan Lywodraeth Cymru er mwyn gwerthuso dewisiadau perygl llifogydd.
- Trefnu a chyflwyno nifer o ddigwyddiadau cymunedol a rhanddeiliaid.

### 8.3.5 Ardaloedd Risg Llifogydd


***Disgrifiad o'r Ardal***

Mae un ardal risg llifogydd a nodwyd yn rhan Sir Gaerfyrddin o Landysul, a labelir fel 4033-A yn Ffigur 8-6. Mae Ardal 4033-A, Pont-tyweli, yn rhedeg o Lyn y Padlwyr, Llandysul, i lawr yr afon ar lan chwith Afon Teifi hyd at Bont-tyweli. Mae'r ardal hon yn gymysgedd o fusnesau, mannau preswyl a gwyrdd. Mae Afon Teifi ac Afon Tyweli yn rhedeg drwy'r ardal risg llifogydd hon. Mae'r ardal mewn perygl o lifogydd glawog yn

bennaf. Ceir gwybodaeth mwy penodol am y perygl llifogydd yn yr ardaloedd hyn yn 8-14.

***Gwaith Amddiffyn rhag Llifogydd***

Fel y nodir uchod, mae CSC wedi cymryd yr awenau a chynnal gwerthusiad o’r perygl llifogydd, gwerthuso amrywiaeth o ymyriadau a chynnal nifer o ddigwyddiadau cymunedol er mwyn cyfleu’r dewisiadau hyn. Ym mis Rhagfyr 2024, cyflwynwyd Achos Busnes Llawn i Lywodraeth Cymru i’w adolygu. Yn yr achos busnes, mae dewisiadau Cydnerthedd Gwrthsefyll Llifogydd Eiddo yn rhoi’r Gymhareb Orau rhwng Budd a Chost.




*Ffigur 8-6 Ardal Risg Llifogydd 4033-A*

*Tabl 8-14 Crynodeb o Ardaloedd Risg Llifogydd Llandysul*

| Ardal Risg Llifogydd | Gwybodaeth am Amddiffynfeydd rhag Llifogydd ac Asedau | Cyfeiriadau mewn Perygl | Derbynyddion Allweddol | Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol | Partneriaid FRM Allweddol | Ymgysylltu â'r Gymuned |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4033-A | • Gwael (ac eithrio Pont-tyweli) | • Afonol: 30<br>• Glawog: 0 | • Gwaith trin carthion DCWW<br>• Canolfan Gymunedol Pwerdy<br>• West Wales Gas<br>• Priffyrdd (yr A486, y B4476, y B4624)<br>• Gorsaf Dân Llandysul<br>• Milfeddygon Tysul<br>• Ystad Ddiwydiannol<br>• Siopau lleol<br>• Canolfan Ceufad Llandysul Paddlers | • Storm Callum—2018 | • LLFA, DCWW, CNC, Bwrdd Rheoli Maetholion, Datblygwyr | • Dechreuwyd (yn rhan o brif waith parhaus) |

### 8.3.6 Camau Gweithredu a Nodiwyd

O ystyried ar ôl Storm Callum ym mis Hydref 2018 fod y tîm wedi gweithio ar ddatblygu achos busnes, ceisio cyllid a gweithio tuag at reoli perygl llifogydd gan reolwyr. Pan fydd cynllun Cydnerthedd Gwrthsefyll Llifogydd Eiddo wedi ei weithredu, ni fydd llawer o waith arfaethedig ychwanegol dros oes yr FRMP2 hwn.

Ar ôl nodi'r ardaloedd risg llifogydd ledled cymuned Llandysul, datblygwyd rhestr o gamau gweithredu isod yn 8-15 i fynd i'r afael â pherygl llifogydd, gan ei reoli a'i leihau.

*Tabl 8-15 Rhestr Hir o Gamau Gweithredu Posibl yn Llandysul*

| Ardal | Camau Gweithredu Posibl | Math o Weithred | Disgrifiad | Cwblhawyd / Tymor Byr / Canolig / Hirdymor | Amcangyfrif o'r Costau |
|---|---|---|---|---|---|
| 4033-A | Rheoli a Chynnal a Chadw Asedau | Atal | Busnes fel arfer—arolygu a chynnal a chadw asedau hysbys presennol yn rheolaidd. | Ar y Gweill | £ |
| | Rheoli Llifogydd Naturiol | Atal | Chwilio am gyfleoedd i weithio gyda'r Bwrdd Rheoli Maetholion ac i ddefnyddio technegau Rheoli Llifogydd Naturiol megis basnau gwanhau, gwlyptiroedd, blocio ceunentydd neu argaeau sy'n gollwng. | Canolig-hir | ££££ |
| | Cydnerthedd Gwrthsefyll Llifogydd Eiddo | Diogelu | Os oes cyllid LlC ar gael, cyflwyno rhaglen Cydnerthedd Gwrthsefyll Llifogydd Eiddo er mwyn grymuso preswylwyr i reoli eu perygl llifogydd. | Byr | £££ |


## 8.4 Llanybydder—4018

### 8.4.1 Disgrifiad o'r Ardal Gymunedol

Tref marchnad a chymuned yn ABA Teifi, yng ngogledd Sir Gaerfyrddin, yw Llanybydder (Ffigur 8-7). Yn 2021, oddeutu 1,182 o bobl oedd cyfanswm poblogaeth Llanbydder[26].

Mae Afon Teifi yn llifo drwy'r ardal gymunedol. Mae 1 o bob 51 o bobl mewn perygl o lifogydd afonol ac mae 1 o bob 45 o bobl mewn perygl o lifogydd glawog yn Llanybydder.

Gwledig yw'r ardal i raddau helaeth, ac mae trefoli o amgylch tref Llanybydder. Mae'r A485 a sawl ffordd B sy'n pasio drwy'r ardal gymunedol. Mae sawl adeilad rhestredig hefyd.




*Ffigur 8-7 Ardal Gymunedol Llanybydder*

---

26 [Llanybydder (Sir Gaerfyrddin, Cymru, Y Deyrnas Unedig)—Ystadegau Poblogaeth, Siartiau, Map, Lleoliad, Tywydd a Gwybodaeth am y We (citypopulation.de)]

### 8.4.2 Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol

Bu llifogydd sylweddol yn Llanybydder yn hanesyddol, er enghraifft yn 2022 ac yn flaenorol yn 2018 yn ystod Storm Callum. Dengys Tabl 8-16 mai 45 yw nifer y digwyddiadau llifogydd a adroddwyd, yn Llanybydder, a adroddwyd i dîm FRM CSC rhwng 2018 a 2024. Mae gan y gymuned hon un o'r niferoedd uchaf o ddigwyddiadau llifogydd a adroddir o'i chymharu â'r 27 o ardaloedd risg uchel, blaenoriaeth uchel eraill.

*Tabl 8-16 Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol yn Llanybydder*

| Math o Ddigwyddiad | Nifer yr Achlysuron |
|---|---|
| Amhreswyl Allanol | 0 |
| Preswyl Allanol | 3 |
| Amhreswyl Mewnol | 6 |
| Preswyl Mewnol | 36 |

### 8.4.3 Perygl Llifogydd mewn Ardal Gymunedol

Cyflwynir data sy'n ymwneud â nifer yr eiddo sydd mewn perygl o lifogydd afonol neu lawog ledled ardal gymunedol Llandysul isod yn 8-17. Mae eiddo ledled Llanybydder mewn perygl tebyg o lifogydd afonol a llifogydd glawog. Nododd modelu llifogydd manwl lleol a gynhaliwyd gan CSC 23 eiddo arall sydd mewn perygl o lifogydd afonol a 51 eiddo sydd mewn perygl o lifogydd glawog yn Llanybydder.

*Tabl 8-17 Cyfanswm y Cyfeiriadau sydd mewn Perygl o Lifogydd Glawog ac Afonol yn Llanybydder*

| Math o Lifogydd | Nifer yr Eiddo sydd mewn Perygl CaRR | Nifer yr eiddo sydd mewn perygl gwerthusiad CSC |
|---|---|---|
| Llifogydd Glawog | 9 | 23 |
| Llifogydd Afonol | 7 | 51 |

Dangosir bod rhannau o Rodfa Dolau (B4337) mewn perygl o lifogydd afonol a glawog. Cyflwyna **Error! Not a valid bookmark self-reference.** nifer y derbynyddion sy'n bresennol yn Llanybydder sydd mewn perygl o lifogydd.

*Tabl 8-18 Derbynyddion yn Llanybydder*

| Derbynnydd | Perygl Afonol | Perygl Glawog |
|---|---|---|
| Hyd y Ffyrdd (km) | 524 | 603 |
| Hyd y Rheilffyrdd (km) | 0 | 0 |
| Amgylcheddol (n) | 13 | 14 |

| Derbynnydd | Perygl Afonol | Perygl Glawog |
|---|---|---|
| Tir Amaethyddol ($m^2$) | 1314028 | 204488 |
| Eiddo Preswyl | 5 | 8 |
| Eiddo Amhreswyl | 2 | 1 |
| Gwasanaethau Allweddol (n) | 0 | 0 |
| Adeiladau Rhestredig (n) | 12* | |
| **Mae'r cyfrif yma yn archwilio nifer yr adeiladau rhestredig sy'n bresennol ledled yr ardal gymunedol y nodwyd eu bod yn ardal risg uchel. Nid yw'r cyfrif yn awgrymu bod cyfanswm yr adeiladau mewn perygl o lifogydd afonol a llifogydd glawog—ond yn hytrach eu bod mewn perygl cyffredinol o lifogydd.* | | |

### 8.4.4 Gwaith FRM yn yr ardal ers FRMP-1

Cyflwynir gwaith FRM a wnaed yn Llanybydder ers FRMP-1 isod yn  8-19.

*Tabl 8-19 Gwaith FRM a wnaed yn Llanybydder ers FRMP-1 CSC.*

| Ardal Benodol/Ardal Uned Bolisi | Camau Gweithredu FRM (FRMP-1) | Cynnydd |
|---|---|---|
| Station Road, Llanybydder | Mapio rhwydwaith draenio dŵr wyneb. | Cwblhawyd |
| | Cysylltu â CNC ynghylch unrhyw bosibilrwydd o leihau difrifoldeb ac amlder llifogydd. | Cwblhawyd |

Ar ôl Storm Callum yn 2018, bu gwaith sylweddol yng nghymuned Llanybydder. Er mai afonol oedd y digwyddiadau mawr diweddar ac felly dylai gael ei arwain gan weithredoedd a mentrau CNC, mae CSC wedi gorfod arwain y gwaith o reoli'r perygl llifogydd. Wrth arwain y gwaith hwn yn ystod y 7 mlynedd ddiwethaf, rydym wedi:

- Diweddaru model llifogydd CNC ar gyfer yr ardal.
- Ymgymryd ag Ymchwiliad i ddigwyddiad Adran 19.
- Cynnal gwerthusiad o'r perygl llifogydd a datblygu achosion busnes yn unol â hynny.
- Arweinio grŵp amlasiantaeth sy'n edrych ar berygl llifogydd yn yr ardal.
- Gwneud cais llwyddiannus am gyllid grant gan Lywodraeth Cymru er mwyn gwerthuso dewisiadau perygl llifogydd.
- Trefnu a chyflwyno nifer o ddigwyddiadau cymunedol a rhanddeiliaid.

### 8.4.5 Ardaloedd Risg Llifogydd

***Disgrifiad o'r Ardal***


Mae un ardal risg llifogydd a nodwyd yn Llanybydder, a labelir fel 4018-A yn Ffigur 8-8. Lleolir Ardal 4018-A yng nghanol y gymuned ac mae'n ymestyn ychydig i sir gyfagos Ceredigion. Mae Ardal 4018-A yn gymysgedd o fannau preswyl a gwyrdd. Mae'r ardal risg llifogydd yn ffinio Afon Teifi yn y gogledd. Mae'r ardal mewn perygl o lifogydd afonol a glawog. Ceir gwybodaeth mwy penodol am y perygl llifogydd yn yr ardal hon yn  8-20.

***Gwaith Amddiffyn rhag Llifogydd***

Yn dilyn Storm Callum, uwchraddiwyd cwlfert B4337 Nant Einon er mwyn cyfyngu ar y rhwystrau a rheoli'r perygl llifogydd. Ar hyn o bryd, mae CSC yn datblygu cynllun lliniaru llifogydd ac mae Achos Busnes Llawn wedi ei ddatblygu mewn cydweithrediad â Chyngor Ceredigion a CNC, ac mae gwaith dylunio manwl yn ymwneud â dewisiadau Cydnerthedd Gwrthsefyll Llifogydd Eiddo yn gwneud cynnydd.

Mae cynllun ôl-osod SDCau yn cael ei gynllunio ym maes parcio y pentref hefyd er mwyn rheoli'r perygl o lifogydd dŵr wyneb yn Nheras yr Orsaf.

Cafodd draenio dŵr wyneb/draenio priffyrdd yn Station Road ei uwchraddio yn 2020 er mwyn rheoli'r perygl o lifogydd dŵr wyneb.




*Ffigur 8-8 Ardal Risg Llifogydd 4018-A*

*Tabl 8-20 Crynodeb o Ardaloedd Risg Llifogydd Llanybydder*

| Ardal Risg Llifogydd | Gwybodaeth am Amddiffynfeydd rhag Llifogydd ac Asedau | Cyfeiriadau mewn Perygl | Derbynyddion Allweddol | Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol | Partneriaid FRM Allweddol | Ymgysylltu â'r Gymuned |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4018-A | • Yn dda yng nghanol Llanybydder | • Afonol: 7<br>• Glawog: 6 | • Croesfan afon allweddol yn yr ardal yn Stryd y Bont (B4337)<br>• Marchnad Da Byw<br>• Busnesau Lleol | • Storm Callum—2018 | • LLFA, DCWW, CNC | • Gweithredol (yn rhan o brif waith parhaus) |

## 8.4.6 Camau Gweithredu a Nodiwyd

Ar ôl nodi'r ardaloedd risg llifogydd ledled cymuned Llanybydder, datblygwyd rhestr o gamau gweithredu isod yn 8-21 i fynd i'r afael â pherygl llifogydd, gan ei reoli a'i leihau.

*Tabl 8-21 Rhestr Hir o Gamau Gweithredu Posibl yn Llanybydder*

| Ardal | Camau Gweithredu Posibl | Math o Weithred | Disgrifiad | Cwblhawyd / Tymor Byr / Canolig / Hirdymor | Amcangyfrif o'r Costau |
|---|---|---|---|---|---|
| 4018-A | Rheoli a Chynnal a Chadw Asedau | Atal/Diogelu | Rheoli, arolygu a chynnal a chadw asedau draenio presennol mewn meysydd risg allweddol. | Ar y Gweill | £ |
| | Rheoli Llifogydd Naturiol | Atal | Chwilio am gyfleoedd i weithio gyda'r Bwrdd Rheoli Maetholion ac i ddefnyddio technegau Rheoli Llifogydd Naturiol megis basnau gwanhau, gwlyptiroedd, blocio ceunentydd neu argaeau sy'n gollwng. | Canolig i Hir | ££££ |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cydnerthedd Gwrthsefyll Llifogydd Eiddo | Diogelu | Os oes cyllid LlC ar gael, cyflwyno rhaglen Cydnerthedd Gwrthsefyll Llifogydd Eiddo er mwyn grymuso preswylwyr i reoli eu perygl llifogydd. | Byr | £££ |
| | Ôl-osod SDCau | Diogelu | Cyflawni'r prosiect ôl-osod SDCau ym maes parcio y pentref. | Byr | ££ |


## 8.5 Castellnewydd Emlyn—4066

### 8.5.1 Disgrifiad o’r Ardal Gymunedol

Tref yn ABA Teifi, sy’n rhychwantu Sir Gaerfyrddin a Cheredigion, yw Castellnewydd Emlyn (Ffigur 8-9). Yn 2021, oddeutu 1,144 o bobl oedd cyfanswm poblogaeth Castellnewydd Emlyn[27].

Mae Afon Teifi yn llifo drwy’r ardal gymunedol. Mae 1 o bob 39 o bobl mewn perygl o lifogydd afonol ac mae 1 o bob 8 o bobl mewn perygl o lifogydd glawog yng Nghastellnewydd Emlyn.

Trefol yw’r ardal o amgylch y dref i raddau helaeth ac mae mannau gwyrdd yn yr ardal gyfagos. Mae sawl adeilad rhestredig hefyd. Mae cefnffyrdd yr A484 a’r A475 yn pasio drwy’r ardal gymunedol.




*Ffigur 8-9 Ardal Gymunedol Castellnewydd Emlyn*

---

[27] Castellnewydd Emlyn (Community, United Kingdom)—Population Statistics, Charts, Map and Location (citypopulation.de)

### 8.5.2 Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol

Yn hanesyddol, bu llifogydd sylweddol yng Nghastellnewydd Emlyn yn 2018 ac yn 2021. Dengys Tabl 8-22 mai 21 yw nifer y digwyddiadau llifogydd a adroddwyd, yng Nghastellnewydd Emlyn, a adroddwyd i dîm FRM CSC rhwng 2018 a 2024. Mae gan y gymuned hon un o'r niferoedd isaf o ddigwyddiadau llifogydd a adroddir o'i chymharu â'r 27 o ardaloedd risg uchel, blaenoriaeth uchel eraill. Mae DCWW wedi cofnodi 36 o ddigwyddiadau llifogydd yn ystod yr un cyfnod.

*Tabl 8-22 Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol yng Nghastellnewydd Emlyn*

| Math o Ddigwyddiad | Nifer yr Achlysuron | Digwyddiadau llifogydd a adroddwyd i sefydliadau partner |
|---|---|---|
| Amhreswyl Allanol | 3 | - |
| Preswyl Allanol | 4 | 36 |
| Amhreswyl Mewnol | 4 | - |
| Preswyl Mewnol | 10 | - |

### 8.5.3 Perygl Llifogydd mewn Ardal Gymunedol

Cyflwynir data sy'n ymwneud â nifer yr eiddo sydd mewn perygl o lifogydd afonol neu lawog ledled ardal gymunedol Castellnewydd Emlyn isod yn  8-23. Gan fod eiddo ledled Castellnewydd Emlyn mewn perygl mwy o lifogydd glawog na llifogydd afonol, bydd y gwaith lliniaru perygl o lifogydd yn cael ei sbarduno gan gamau gweithredu a mentrau dan arweiniad CSC.

*Tabl 8-23 Cyfanswm y Cyfeiriadau sydd mewn Perygl o Lifogydd Glawog ac Afonol yng Nghastellnewydd Emlyn*

| Math o Lifogydd | Nifer yr Eiddo sydd mewn Perygl |
|---|---|
| Llifogydd Glawog | 52 |
| Llifogydd Afonol | 12 |

Dangosir bod derbynyddion gan gynnwys Canol Tref Castellnewydd Emlyn, Station Road a Chware Ffinnant mewn perygl o lifogydd glawog. O Afon Arad y daw'r perygl llifogydd afonol mwyaf, a'r llaethdy a Heol Arad a Station Road sydd â'r perygl mwyaf. Mae'r perygl o Afon Teifi yn yr ardal hon, ar lan Caerfyrddin yn llai. Cyflwyna Tabl 8-24 nifer y derbynyddion sy'n bresennol yng Nghastellnewydd Emlyn sydd mewn perygl o lifogydd.

*Tabl 8-24 Derbynyddion yng Nghastellnewydd Emlyn*

| Derbynnydd | Perygl Afonol | Perygl Glawog |
|---|---|---|
| Hyd y Ffyrdd (km) | 786 | 673 |
| Hyd y Rheilffyrdd (km) | 0 | 0 |
| Amgylcheddol (n) | 3 | 2 |
| Tir Amaethyddol ($m^2$) | 622368 | 57496 |
| Eiddo Preswyl | 12 | 23 |
| Eiddo Amhreswyl | 0 | 29 |
| Gwasanaethau Allweddol (n) | 0 | 2 |
| Canol y Dref | Canol Tref Castellnewydd Emlyn | |
| Dyraniad Preswyl | 0 | 1 |
| Adeiladau Rhestredig (n) | 34* | |

**Mae'r cyfrif yma yn archwilio nifer yr adeiladau rhestredig sy'n bresennol ledled yr ardal gymunedol y nodwyd eu bod yn ardal risg uchel. Nid yw'r cyfrif yn awgrymu bod cyfanswm yr adeiladau mewn perygl o lifogydd afonol a llifogydd glawog—ond yn hytrach eu bod mewn perygl cyffredinol o lifogydd.*

### 8.5.4 Gwaith FRM yn yr ardal ers FRMP-1

Cyflwynir gwaith FRM a wnaed yng Nghastellnewydd Emlyn ers FRMP-1 isod yn 8-25:

*Tabl 8-25 Gwaith FRM a wnaed yng Nghastellnewydd Emlyn ers FRMP-1 CSC.*

| Ardal Benodol/Ardal Uned Bolisi | Camau Gweithredu FRM (FRMP-1) | Cynnydd |
|---|---|---|
| Castellnewydd Emlyn | Gofynnwyd i Lywodraeth Cymru am gyllid i adnewyddu'r cwlfert rhwng Cware Ffinnant ac Ebenezer Street. | Cwblhawyd |

### 8.5.5 Ardaloedd Risg Llifogydd

Gan na ellir cymhwyso camau gweithredu unigol i fynd i'r afael â'r perygl llifogydd ledled cymuned Castellnewydd Emlyn yn gyffredinol, crëwyd dwy ardal ar sail eu hardaloedd risg llifogydd a dalgylchoedd. Ceir gwybodaeth mwy penodol am y perygl llifogydd yn yr ardaloedd hyn yn  8-26.


### *8.5.5.1 4066-A Castellnewydd Emlyn, Canol Tref a Chware Ffinnant*

***Disgrifiad o'r Ardal***

Lleolir Ardal 4066-A (Ffigur 8-10) yng nghanol Castellnewydd Emlyn, lle mae'r ardal drefol yn cynnwys defnydd tir preswyl a masnachol. Mae'r A484 yn rhannu canol yr ardal. Mae perygl o lifogydd glawog yn gysylltiedig â phrif ffordd yr A484.

***Gwaith Amddiffyn rhag Llifogydd***

Cwblhawyd Cynllun Lliniaru Llifogydd Cware Ffinnant yn 2023, ac roedd cam un yn cynnwys cynllun ailosod cwlfert oddeutu 140 metr. Dechreuodd cam dau yn 2024 ac os bydd cyllid parhaus ar gael, bydd yn rhedeg tan 2026. Mae hyn yn targedu rhannau isaf y cwrs dŵr.




*Ffigur 8-10 Ardal Risg Llifogydd 4066-A*


*8.5.5.2 4066-B Aber Arad*

***Disgrifiad o'r Ardal***

Lleolir Ardal 4066-B (Ffigur 8-11), ardal preswyl trefol, i'r dwyrain o brif ardal gymunedol Castellnewydd Emlyn. Mae cwrs dŵr Afon Arad yn rhedeg drwy ganol yr ardal ac mae'r prif berygl llifogydd yn gysylltiedig â'r nodwedd hon.

***Gwaith Amddiffyn rhag Llifogydd***

Nid oes unrhyw waith ar y gweill ar hyn o bryd.




*Ffigur 8-11 Ardal Risg Llifogydd 4066-B*

*Tabl 8-26 Crynodeb o Ardaloedd Risg Llifogydd Castellnewydd Emlyn*

| Ardal Risg Llifogydd | Gwybodaeth am Amddiffynfeydd rhag Llifogydd ac Asedau | Cyfeiriadau mewn Perygl | Derbynyddion Allweddol | Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol | Partneriaid FRM Allweddol | Ymgysylltu â'r Gymuned |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4066-A | • Canolig | • Afonol: 1<br>• Glawog: 58 | • Prif Ffyrdd (yr A475, yr A484)<br>• Cartref Gofal Glyn Nest<br>• Gorsaf Heddlu Castellnewydd Emlyn Heddlu Dyfed-Powys<br>• Swyddfa Bost Castellnewydd Emlyn<br>• Canol y Dref | • Nid oes llifogydd sylweddol sy'n hysbys | • DCWW, Ysgolion a busnesau Lleol, CNC, Cyngor Sir Ceredigion, Y Bwrdd Rheoli Maetholion | • Dechreuwyd (yn rhan o brif waith parhaus) |
| 4066-B | | • Afonol: 11<br>• Glawog: 0 | • Prif Ffordd (A484)<br>• Hufenfa Dairy Partners<br>• Ystad Ddiwydiannol Castellnewydd Emlyn<br>• Parc Busnes | • Nid oes llifogydd sylweddol sy'n hysbys | • CNC, Bwrdd Rheoli Maetholion | |

### 8.5.6 Camau Gweithredu a Nodiwyd

Ar ôl nodi'r ardaloedd risg llifogydd ledled cymuned Castellnewydd Emlyn, datblygwyd rhestr o gamau gweithredu isod yn 8-27 i fynd i'r afael â pherygl llifogydd, gan ei reoli a'i leihau.

*Tabl 8-27 Rhestr Hir o Gamau Gweithredu Posibl yng Nghastellnewydd Emlyn*

| Ardal | Camau Gweithredu Posibl | Math o Weithred | Disgrifiad | Cwblhawyd / Tymor Byr / Canolig / Hirdymor | Amcangyfrif o'r Costau |
|---|---|---|---|---|---|
| 4066-A | Ôl-osod SDCau | Atal | Gallai darparu SDCau ar hyd Cawdor Terrace drwy ganol y dref leihau'r perygl i eiddo a darparu budd amwynder ychwanegol. Mae posibilrwydd y gellid defnyddio SDCau yn Ysgol Gyfun Emlyn i leihau llifoedd i lawr yr afon a darparu arddangosfa addysgol. | Hirdymor | £££ |
| | Rheoli a Chynnal a Chadw Asedau | Atal/Diogelu | Parhau i reoli, arolygu, cynnal a chadw'r cwrs dŵr ac asedau cysylltiedig. | Ar y Gweill | £ |
| | Cydnerthedd Gwrthsefyll Llifogydd Eiddo | Parodrwydd | Chwilio am gyfleoedd i hybu'r defnydd o Gydnerthedd Gwrthsefyll Llifogydd Eiddo er mwyn grymuso preswylwyr i reoli eu perygl llifogydd. | Hirdymor | £££ |
| | Rheoli Llifogydd Naturiol | Atal | Chwilio am gyfleoedd i weithio gyda'r Bwrdd Rheoli Maetholion ac i ddefnyddio technegau Rheoli Llifogydd Naturiol. | Canolig/hirdymor | £££ |
| 4066-B | Cydnerthedd Gwrthsefyll Llifogydd Eiddo | Diogelu | Chwilio am gyfleoedd i hybu'r defnydd o Gydnerthedd Gwrthsefyll Llifogydd Eiddo er mwyn grymuso preswylwyr i reoli'r perygl llifogydd o Afon Arad. | Hirdymor | £ |

| Ardal | Camau Gweithredu Posibl | Math o Weithred | Disgrifiad | Cwblhawyd / Tymor Byr / Canolig / Hirdymor | Amcangyfrif o'r Costau |
|---|---|---|---|---|---|
| | Rheoli Llifogydd Naturiol | Atal | Chwilio am gyfleoedd i weithio gyda'r bwrdd rheoli maetholion ac i ddefnyddio technegau Rheoli Llifogydd Naturiol megis basnau gwanhau, gwlyptiroedd, blocio ceunentydd neu argaeau sy'n gollwng ar Afon Arad, a gallai isafonydd i fyny'r afon o'r dref ddarparu gwanhad er mwyn lleihau llifoedd brig ar y cwrs dŵr. Gallai technegau eraill megis stribedi clustogi leihau llifoedd a llwythi ffosffad sy'n effeithio ar ACA Teifi. | Canolig | £££ |
| | Rheoli a Chynnal a Chadw Asedau | Atal/Diogelu | Parhau i reoli, arolygu, cynnal a chadw'r cwrs dŵr ac asedau cysylltiedig. | Ar y Gweill | £ |

# 9 Ardal Basn Afon Tywi Uchaf

## 9.1 Llandeilo—4087


### 9.1.1 Disgrifiad o'r Ardal Gymunedol

Tref a chymuned yn ABA Tywi Uchaf, yng nghanol Sir Gaerfyrddin, yw Llandeilo (Ffigur 9-1). Yn 2021, oddeutu 1,784 o bobl oedd cyfanswm poblogaeth Llandeilo.[28]

Mae Afon Tywi ac Afon Cennen yn llifo drwy'r ardal gymunedol. Er bod y perygl llifogydd afonol i bobl yn isel iawn, mae 1 o bob 35 o bobl mewn perygl o lifogydd glawog yn Llandeilo.

Gwledig yw'r ardal i raddau helaeth, ac mae trefoli o amgylch trefi Llandeilo a Ffair-fach. Mae'r A40 a'r A483 yn pasio drwy'r ardal gymunedol. Lleolir gorsafoedd trên Llandeilo a Ffair-fach yn yr ardal gymunedol hefyd. Mae nifer sylweddol o adeiladau rhestredig hefyd, yn nhref Llandeilo i raddau helaeth.

[28] Llandeilo (Community, United Kingdom)—Population Statistics, Charts, Map and Location (citypopulation.de)




*Ffigur 9-1 Ardal Gymunedol Llandeilo*

### 9.1.2 Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol

Yn hanesyddol, bu llifogydd sylweddol yn Llandeilo ym 1987, 2018 ac yn 2023. Dengys Tabl 9-1 mai 38 yw nifer y digwyddiadau llifogydd a adroddwyd, yn Llandeilo, a adroddwyd i dîm FRM CSC rhwng 2018 a 2024. Mae nifer y digwyddiadau llifogydd a adroddir yn y gymuned hon yn uwch na'r cyfartaledd o'i chymharu â'r 27 o ardaloedd risg uchel, blaenoriaeth uchel eraill. Dros yr un cyfnod, cafodd DCWW 89 o adroddiadau llifogydd.

*Tabl 9-1 Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol yn Llandeilo*

| Math o Ddigwyddiad | Nifer yr Achlysuron | Digwyddiadau llifogydd a adroddwyd i sefydliadau partner |
|---|---|---|
| Amhreswyl Allanol | 4 | - |
| Preswyl Allanol | 9 | 89 |
| Amhreswyl Mewnol | 4 | - |
| Preswyl Mewnol | 21 | - |

### 9.1.3 Perygl Llifogydd mewn Ardal Gymunedol

Cyflwynir data sy'n ymwneud â nifer yr eiddo sydd mewn perygl o lifogydd afonol neu lawog ledled ardal gymunedol Llandeilo isod yn  9-2. Gan fod eiddo ledled Llandeilo mewn perygl llawer mwy o lifogydd glawog na llifogydd afonol, bydd y gwaith lliniaru perygl o lifogydd yn cael ei sbarduno gan gamau gweithredu a mentrau dan arweiniad CSC, gyda chefnogaeth agos gan DCWW.

*Tabl 9-2 Cyfanswm y Cyfeiriadau sydd mewn Perygl o Lifogydd Glawog ac Afonol yn Llandeilo*

| Math o Lifogydd | Nifer yr Eiddo sydd mewn Perygl |
|---|---|
| Llifogydd Glawog | 15 |
| Llifogydd Afonol | 0 |

Mae'r derbynyddion sydd mewn perygl o lifogydd afonol yn cynnwys eiddo o amgylch Towy Terrace, Bethlehem Road a Pharc Cawdor. Amlygir perygl o lifogydd glawog ar hyd yr A483 a mannau isel ledled tref Llandeilo. Cyflwyna Tabl 9-3 nifer y derbynyddion sy'n bresennol yn Llandeilo sydd mewn perygl o lifogydd.

*Tabl 9-3 Derbynyddion yn Llandeilo*

| Derbynnydd | Perygl Afonol | Perygl Glawog |
|---|---|---|
| Hyd y Ffyrdd (km) | 1021 | 1324 |
| Hyd y Rheilffyrdd (km) | 166 | 18 |
| Amgylcheddol (n) | 3 | 7 |
| Tir Amaethyddol ($m^2$) | 2024268 | 308768 |
| Eiddo Preswyl | 0 | 12 |
| Eiddo Amhreswyl | 0 | 3 |
| Gwasanaethau Allweddol (n) | 0 | 1 |
| Safleoedd SFCA Ychwanegol | 0 | 1 |
| Dyraniad Preswyl | 0 | 1 |
| Defnydd Cymysg | 0 | 1 |
| Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol | Ystad Dinefwr | |
| Parc Cenedlaethol | Bannau Brycheiniog | |
| Adeiladau Rhestredig (n) | 86* | |

**Mae'r cyfrif yma yn archwilio nifer yr adeiladau rhestredig sy'n bresennol ledled yr ardal gymunedol y nodwyd eu bod yn ardal risg uchel. Nid yw'r cyfrif yn awgrymu bod cyfanswm yr adeiladau mewn perygl o lifogydd afonol a llifogydd glawog—ond yn hytrach eu bod mewn perygl cyffredinol o lifogydd.*

### 9.1.4 Gwaith FRM yn yr ardal ers FRMP-1

Nid oes unrhyw waith FRM a wnaed yn Llandeilo ers y FRMP-1 blaenorol.

### 9.1.5 Ardaloedd Risg Llifogydd

Gan na ellir cymhwyso camau gweithredu unigol i fynd i'r afael â'r perygl llifogydd ledled cymuned Llandeilo yn gyffredinol, crëwyd tair ardal ar sail eu hardaloedd risg llifogydd a dalgylchoedd. Ceir gwybodaeth mwy penodol am y perygl llifogydd yn yr ardaloedd hyn yn  9-4.


#### *9.1.5.1 4087-A Tref Llandelio*

***Disgrifiad o'r Ardal***

Tref Llandeilo yw Ardal 4087-A, fel y dangosir yn Ffigur 9-2. Mae'r ardal yn cwmpasu'r brif ardal fanwerthu, y brif ardal breswyl a'r prif seilwaith priffyrdd, sef yr A40 a'r A483, y depo bysiau a'r ysgol gynradd.

***Gwaith Amddiffyn rhag Llifogydd***

Nid oes unrhyw waith ar y gweill ar hyn o bryd.




*Ffigur 9-2 Ardal Risg Llifogydd 4087-A*


### 9.1.5.2 4087-B Ffair-fach

***Disgrifiad o'r Ardal***

Lleolir Ardal 4087-B yn fwy canolog yng nghymuned Llandeilo ac fe'i canolir o amgylch Ffair-fach ar lan ddeheuol (chwith) Afon Tywi (gweler Ffigur 9-3). Canolir y perygl o lifogydd afonol o amgylch Towy Terrace ac mae'r eiddo hyn yn elwa ar amddiffynfeydd rhag llifogydd CNC. Mae eiddo o amgylch Afon Cennen mewn perygl hefyd ac yn cael rhywfaint o amddiffyniad gan arglawdd y rheilffordd, er nad yw'n strwythur amddiffyn rhag llifogydd. Mae'r perygl llifogydd yn yr ardal hon yn gysylltiedig ag ardaloedd isel Bethlehem Road lle mae'r briffordd yn mynd o dan y rheilffordd. Mae eiddo a busnesau o amgylch Heol Myrddin mewn perygl o lifogydd glawog hefyd wrth i ddŵr lifo oddi ar dir amaethyddol i'r de.

***Gwaith Amddiffyn rhag Llifogydd***

Gwnaed gwaith draenio ar dir uwchben Heol Myrddin er mwyn rheoli'r perygl o lifogydd glawog. Mae'r gwaith draenio hwn hefyd wedi ymestyn tua'r gogledd ac ar hyd ffin Ysgol Bro Dinefwr. Yn ystod FRMP-1, gwnaed gwaith FRM yn Geulan-goch ar Bethlehem Road.




*Ffigur 9-3 Ardal Risg Llifogydd 4087-B*

*Tabl 9-4 Crynodeb o Ardaloedd Risg Llifogydd Llandeilo*

| Ardal Risg Llifogydd | Gwybodaeth am Amddiffynfeydd rhag Llifogydd ac Asedau | Cyfeiriadau mewn Perygl | Derbynyddion Allweddol | Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol | Partneriaid FRM Allweddol | Ymgysylltu â'r Gymuned |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4087-A | • Gwael Iawn<br>• Mae gan DCWW set ddata fwy cadarn o asedau draenio | • Afonol: 0<br>• Glawog: 12 | • Yr A483<br>• Ysgolion (Ysgol Gynradd Llandeilo, Ysgol Gymraeg Teilo Sant)<br>• Capel Methodistiaid Calfinaidd Salem<br>• Busnesau Lleol | • Ddim yn hysbys | • DCWW | • Uchelgeisiol |
| 4087-B | • Gwael Iawn | • Afonol: 0<br>• Glawog: 4 | • Eiddo preswyl<br>• Is-orsaf Pont Tywi | • Llifogydd rheolaidd ar raddfa fach | • LLFA, DCWW, CNC | • Uchelgeisiol |

### 9.1.6 Camau Gweithredu a Nodiwyd

Ar ôl nodi'r ardaloedd risg llifogydd ledled cymuned Llandeilo, datblygwyd rhestr o gamau gweithredu isod yn 9-5 i fynd i'r afael â pherygl llifogydd, gan ei reoli a'i leihau.

*Tabl 9-5 Rhestr Hir o Gamau Gweithredu Posibl yn Llandeilo*

| Ardal | Camau Gweithredu Posibl | Math o Weithred | Disgrifiad | Cwblhawyd / Tymor Byr / Canolig / Hirdymor | Amcangyfrif o'r Costau |
|---|---|---|---|---|---|
| 4087-A | Ôl-osod SDCau | Atal | Chwilio am gyfleoedd i ddefnyddio SDCau i leihau dŵr ffo ac i ddarparu gwanhad er mwyn lleihau'r perygl llifogydd a darparu budd amwynder. | Byr | £££ |
| | Rheoli a Chynnal a Chadw Asedau | Atal/Diogelu | Chwilio am gyfleoedd i weithio gyda DCWW a'r Awdurdod Priffyrdd i ddatblygu uwch fap draenio. | Ar y Gweill | ££ |
| 4087-B | Ôl-osod SDCau | Atal | Gallai defnyddio SDCau ar hyd Heol Rhosmaen leihau dŵr ffo a darparu gwanhad er mwyn lleihau'r perygl i eiddo. | Canolig/hirdymor | £££ |
| | Cydnerthedd Gwrthsefyll Llifogydd Eiddo | Parodrwydd | Grymuso preswylwyr i dderbyn cyfrifoldeb am eu perygl llifogydd eu hunain drwy archwilio mesurau Cydnerthedd Gwrthsefyll Llifogydd Eiddo. | Canolig | £££ |

## 9.2 Llanmddyfri—4007

### 9.2.1 Disgrifiad o'r Ardal Gymunedol


Tref a chymuned yn ABA Tywi Uchaf, yn nwyrain Sir Gaerfyrddin, yw Llanymddyfri (Ffigur 9-4). Tref marchnad yw hi a leolir yn nalgylch uchaf ardal basn Afon Tywi sydd mewn perygl llifogydd afonol yn bennaf oherwydd ei bod wrth gydlifiad pedair prif afon. Yn 2021, oddeutu 1,985 o bobl oedd cyfanswm poblogaeth Llanymddyfri[29].

Mae Afon Tywi ac Afon Brân yn llifo drwy'r ardal gymunedol. Mae 1 o bob 3 o bobl mewn perygl o lifogydd afonol ac mae 1 o bob 19 o bobl mewn perygl o lifogydd glawog yn Llanymddyfri.

Gwledig yw'r ardal i raddau helaeth, ac mae trefoli o amgylch y dref. Mae'r A40 a'r A483 yn pasio drwy'r ardal gymunedol. Lleolir gorsaf drenau Llanymddyfri hefyd yn yr ardal gymunedol. Mae'r ardal hon yn elwa ar amddiffynfeydd CNC sylweddol ac mae llifogydd yn digwydd yn aml ar hyd yr A4069 yn Llwyn Jac sy'n achosi i'r ffordd gau.

---

29 Llanymddyfri (Community, United Kingdom)—Population Statistics, Charts, Map and Location (citypopulation.de)




*Ffigur 9-4 Ardal Gymunedol Llanymddyfri*

## 9.2.2 Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol

Pwysleisia Tabl 9-6 fod 14 o ddigwyddiadau llifogydd a adroddwyd i dîm FRM CSC rhwng 2018 a 2024. O'i chymharu â'r 27 o ardaloedd blaenoriaeth eraill, mae hyn yn is na'r cyfartaledd. Mae DCWW wedi cadarnhau ei fod wedi cael 9 adroddiad llifogydd yn ystod yr un cyfnod a thybir y byddai preswylwyr a busnesau lleol yn cysylltu â CNC mewn cysylltiad â llifogydd prif afonydd.

*Tabl 9-6 Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol yn Llanymddyfri*

| Math o Ddigwyddiad | Nifer yr Achlysuron | Digwyddiadau llifogydd a adroddwyd i asiantaethau eraill |
|---|---|---|
| Amhreswyl Allanol | 3 | - |
| Preswyl Allanol | 9 | 9 |
| Amhreswyl Mewnol | 0 | - |
| Preswyl Mewnol | 2 | - |

### 9.2.3 Perygl Llifogydd mewn Ardal Gymunedol

Cyflwynir data sy'n ymwneud â nifer yr eiddo sydd mewn perygl o lifogydd afonol neu lawog ledled ardal gymunedol Llanymddyfri isod yn  9-7. Gan fod eiddo ledled Llanymddyfri mewn llawer mwy o berygl o lifogydd afonol na llifogydd glawog, dylai'r gwaith lliniaru perygl llifogydd gael ei sbarduno gan gamau gweithredu a mentrau dan arweiniad CNC.

*Tabl 9-7 Cyfanswm y Cyfeiriadau sydd mewn Perygl o Lifogydd Glawog ac Afonol yn Llanymddyfri*

| Math o Lifogydd | Nifer yr Eiddo sydd mewn Perygl |
|---|---|
| Llifogydd Glawog | 14 |
| Llifogydd Afonol | 231 |

Mae'r prif dderbynyddion yn cynnwys Canol Tref Llanymddyfri y dangosir ei fod mewn perygl o lifogydd afonol a bod rhannau o Lower Road (yr A4069), Heol y Brenin (yr A40), yr A483 a Stryd y Cerrig mewn perygl o lifogydd afonol a glawog. Cefnffyrdd a phrif rwydweithiau trafnidiaeth yw'r A40 a'r A483. Cyflwyna Tabl 9-8 nifer y derbynyddion sy'n bresennol yn Llanymddyfri sydd mewn perygl o lifogydd.

*Tabl 9-8 Derbynyddion yn Llanymddyfri*

| Derbynnydd | Perygl Afonol | Perygl Glawog |
|---|---|---|
| Hyd y Ffyrdd (km) | 6668 | 1185 |
| Hyd y Rheilffyrdd (km) | 1263 | 450 |
| Amgylcheddol (n) | 3 | 3 |
| Tir Amaethyddol ($m^2$) | 2155308 | 341368 |
| Eiddo Preswyl | 159 | 10 |
| Eiddo Amhreswyl | 72 | 4 |
| Gwasanaethau Allweddol (n) | 3 | 0 |
| Canol y Dref | Canol Tref Llanymddyfri | |
| Safleoedd SFA Ychwanegol | 2 | 4 |
| Parc Cenedlaethol | Bannau Brycheiniog | |
| Adeiladau Rhestredig (n) | 121* | |

**Mae'r cyfrif yma yn archwilio nifer yr adeiladau rhestredig sy'n bresennol ledled yr ardal gymunedol y nodwyd eu bod yn ardal risg uchel. Nid yw'r cyfrif yn awgrymu bod cyfanswm yr adeiladau mewn perygl o lifogydd afonol a llifogydd glawog—ond yn hytrach eu bod mewn perygl cyffredinol o lifogydd.*

### 9.2.4 Gwaith FRM yn yr ardal ers FRMP-1

Cyflwynir gwaith FRM a wnaed yn Llanymddyfri ers FRMP-1 isod yn  9-9.

*Tabl 9-9 Gwaith FRM a wnaed yn Llanymddyfri ers FRMP-1 CSC.*

| Ardal Benodol/Ardal Uned Bolisi | Camau Gweithredu FRM (FRMP-1) | Cynnydd |
|---|---|---|
| Nant Bawddwr, Llanymddyfri | Byddwn yn parhau i gefnogi Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru yn ei hymdrechion i roi ateb ar waith i reoli llifoedd drwy'r cwlfert. | Cwblhawyd |

### 9.2.5 Ardaloedd Risg Llifogydd


***Disgrifiad o'r Ardal***

Mae un ardal risg llifogydd a nodwyd yn Llanymddyfri, a labelir fel 4007-A yn Ffigur 9-5. Canol tref Llanymddyfri yw Ardal 4007. Mae Ardal 4033-A yn breswyl i raddau helaeth ac mae'n ffinio ar Afon Tywi ac Afon Brân. Mae'r ardal mewn perygl o lifogydd glawog yn bennaf. Ceir gwybodaeth mwy penodol am y perygl llifogydd yn yr ardaloedd hyn yn 9-10.

***Gwaith Amddiffyn rhag Llifogydd***

Mae gwaith yn cael ei wneud i uwchraddio sgrin brigau Llys Llanfair yn Heol Cilycwm lle mae Nant Bawddwr yn mynd i mewn i ddarn â chwlfert drwy'r dref. Yn ystod FRMP-1, cynhaliwyd arolygon teledu cylch cyfyng a gwaith cynnal a chadw ar hyd Nant Bawddwr.

Bu trafodaethau gydag asiantaethau partner hefyd ynghylch rheoli'r perygl llifogydd o Nant Bawddwr. Mae CNC wedi bod yn amharod i ganiatáu i'r cwrs dŵr gael ei ddargyfeirio i Afon Tywi i fyny'r afon o'r dref.




*Ffigur 9-5 Ardal Risg Llifogydd 4007-A*

*Tabl 9-10 Crynodeb o Ardaloedd Risg Llifogydd Llanymddyfri*

| Ardal Risg Llifogydd | Gwybodaeth am Amddiffynfeydd rhag Llifogydd ac Asedau | Cyfeiriadau mewn Perygl | Derbynyddion Allweddol | Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol | Partneriaid FRM Allweddol | Ymgysylltu â'r Gymuned |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4007-A | • Cyfartalog ar hyd Afon Bawddwr | • Afonol: 313<br>• Glawog: 15 | • Safle carafanau<br>• Coleg Llanymddyfri<br>• Ysgolion (Ysgol Rhys Prichard)<br>• Gorsaf Drenau a Rheilffordd Llanymddyfri<br>• Rheilffordd Calon Cymru<br>• Ysbyty Llanymddyfri<br>• Gorsaf Dân Llanymddyfri<br>• Cartrefi nyrsio<br>• Depo CSC—priffyrdd<br>• Clwb Golff Llanymddyfri<br>• Prif Ffyrdd (yr A4069, yr A40, yr A483)<br>• Is-orsafoedd<br>• Swyddfa Bost Llanymddyfri<br>• Llyfrgell Llanymddyfri<br>• Canolfan Groeso Llanymddyfri<br>• Ystad Ddiwydiannol Banc yr Eglwys<br>• Canol y Dref<br>• Treftadaeth adeiledig (Castell Llanymddyfri) | • Oes | • LLFA, CNC, DCWW, Tirfeddianwyr Lleol, Ymddiriedolaethau Elusennol | • Dymunol (tymor canolig) |

### 9.2.6 Camau Gweithredu a Nodiwyd

Ar ôl nodi'r ardaloedd risg llifogydd ledled cymuned Llanymddyfri, datblygwyd rhestr o gamau gweithredu isod yn 9-11 i fynd i'r afael â pherygl llifogydd, gan ei reoli a'i leihau.

*Tabl 9-11 Rhestr Hir o Gamau Gweithredu Posibl yn Llanymddyfri*

| Ardal | Camau Gweithredu Posibl | Math o Weithred | Disgrifiad | Cwblhawyd / Tymor Byr / Canolig / Hirdymor | Amcangyfrif o'r costau |
|---|---|---|---|---|---|
| 4007 | Rheoli a Chynnal a Chadw Asedau | Atal/Diogelu | Busnes fel arfer—cynnal amddiffynfeydd afonol yn yr ardal, sgriniau brigau â cwlfert, sianeli, ceunentydd. | Ar y Gweill | ££ |
| | Peirianneg Caled | Diogelu | Chwilio am gyfleoedd i ddylanwadu ar CNC o ran dargyfeirio Afon Bawddwr a llifddor. Byddai hyn yn dargyfeirio mwy o lifoedd brig oddi wrth cwlfert cwrs dŵr cyffredin drwy'r dref. | Canolig/Hirdymor | £ |
| | Rheoli a Chynnal a Chadw Asedau | Adolygu | Chwilio am gyfleoedd i weithio gyda DCWW a'r Awdurdod Priffyrdd er mwyn coladu a mapio asedau perygl llifogydd a draenio ac ymgymryd â gwell gwaith modelu Nant Bawddwr. Gellid cefnogi hyn drwy arolygon teledu cylch cyfyng yn ogystal â mesur telemetreg er mwyn deall trefnau llif yn well a gwella cywirdeb. | Ar y Gweill | £££ |
| | Rheoli Llifogydd Naturiol | Atal | Chwilio am gyfleoedd i weithio gyda sefydliadau partner a'r Bwrdd Rheoli Maetholion ar gyfer technegau Rheoli Llifogydd Naturiol megis argaeau sy'n gollwng, ardaloedd sy'n gwanhau, gwlyptiroedd, plannu coed mewn dalgylchoedd i fyny'r afon a allai ddarparu gwanhad a/neu leihau llifoedd brig er mwyn atal llifogydd i lawr yr afon. | Canolig | £££ |

| Ardal | Camau Gweithredu Posibl | Math o Weithred | Disgrifiad | Cwblhawyd / Tymor Byr / Canolig / Hirdymor | Amcangyfrif o'r costau |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cydnerthedd Gwrthsefyll Llifogydd Eiddo | Parodrwydd | Chwilio am gyfleoedd i rymuso preswylwyr i dderbyn cyfrifoldeb am eu perygl llifogydd eu hunain drwy archwilio mesurau Cydnerthedd Gwrthsefyll Llifogydd Eiddo. | Canolig | £ |


## 9.3 Llanwrda—4044

### 9.3.1 Disgrifiad o'r Ardal Gymunedol

Pentref a chymuned yn ABA Tywi Uchaf, yn nwyrain Sir Gaerfyrddin, yw Llanw (Ffigur 9-6). Yn 2021, oddeutu 464 o bobl oedd cyfanswm poblogaeth Llanwrda[30].

Mae Afon Tywi yn llifo drwy'r ardal gymunedol. Mae 1 o bob 3 o bobl mewn perygl o lifogydd afonol ac mae 1 o bob 15 o bobl mewn perygl o lifogydd glawog yn Llanwrda.

Gwledig yw'r ardal i raddau helaeth, ac mae trefoli o amgylch y dref. Mae'r A40 a'r A482 yn pasio drwy'r ardal gymunedol. Lleolir gorsaf drenau Llanwrda hefyd yn yr ardal gymunedol. Mae sawl adeilad rhestredig hefyd, yn Llanwrda i raddau helaeth.




*Ffigur 9-6 Ardal Gymunedol Llanwrda*

---

30 [Llanwrda (Community, United Kingdom)—Population Statistics, Charts, Map and Location (citypopulation.de)]

### 9.3.2 Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol

Pwysleisia Tabl 9-12 mai dim ond 4 o ddigwyddiadau llifogydd a adroddwyd i dîm FRM CSC rhwng 2018 a 2024. O ystyried bod y perygl yn bennaf o'r prif afonydd y mae CNC yn eu rheoleiddio a'u goruchwylio o ran rheoli perygl llifogydd, mae'n rhesymol awgrymu bod materion llifogydd yn cael eu hadrodd i CNC hefyd; ond mae data gan CNC yn awgrymu nad oes unrhyw ddigwyddiadau llifogydd sy'n cael eu hadrodd.

*Tabl 9-12 Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol yn Llanwrda*

| Math o Ddigwyddiad | Nifer yr Achlysuron |
|---|---|
| Amhreswyl Allanol | 0 |
| Preswyl Allanol | 1 |
| Amhreswyl Mewnol | 0 |
| Preswyl Mewnol | 3 |

### 9.3.3 Perygl Llifogydd mewn Ardal Gymunedol

Cyflwynir data sy'n ymwneud â nifer yr eiddo sydd mewn perygl o lifogydd afonol neu lawog ledled ardal gymunedol Llanwrda isod yn  9-13. Gan fod eiddo ledled Llanwrda mewn llawer mwy o berygl o lifogydd afonol na llifogydd glawog, dylai'r gwaith lliniaru perygl llifogydd gael ei sbarduno gan gamau gweithredu a mentrau dan arweiniad CNC.

*Tabl 9-13 Cyfanswm y Cyfeiriadau sydd mewn Perygl o Lifogydd Glawog ac Afonol yn Llanwrda*

| Math o Lifogydd | Nifer yr Eiddo sydd mewn Perygl |
|---|---|
| Llifogydd Glawog | 6 |
| Llifogydd Afonol | 40 |

Mae'r derbynyddion allweddol yn cynnwys yr A482 a'r A40, y siopau lleol a'r dafarn. Cyflwyna Tabl 9-14 nifer y derbynyddion sy'n bresennol yn Llanwrda sydd mewn perygl o lifogydd.

*Tabl 9-14 Derbynyddion yn Llanwrda*

| Derbynnydd | Perygl Afonol | Perygl Glawog |
|---|---|---|
| Hyd y Ffyrdd (km) | 3467 | 943 |
| Hyd y Rheilffyrdd (km) | 80 | 2 |
| Amgylcheddol (n) | 3 | 2 |
| Tir Amaethyddol ($m^2$) | 2002592 | 219176 |
| Eiddo Preswyl | 33 | 5 |

| Derbynnydd | Perygl Afonol | Perygl Glawog |
|---|---|---|
| Eiddo Amhreswyl | 7 | 0 |
| Gwasanaethau Allweddol (n) | 2 | 0 |
| Adeiladau Rhestredig (n) | 20* | |

**Mae'r cyfrif yma yn archwilio nifer yr adeiladau rhestredig sy'n bresennol ledled yr ardal gymunedol y nodwyd eu bod yn ardal risg uchel. Nid yw'r cyfrif yn awgrymu bod cyfanswm yr adeiladau mewn perygl o lifogydd afonol a llifogydd glawog—ond yn hytrach eu bod mewn perygl cyffredinol o lifogydd.*

### 9.3.4 Gwaith FRM yn yr ardal ers FRMP-1

Nid oes unrhyw waith FRM a wnaed yn Llanwrda ers y FRMP-1 blaenorol.


### 9.3.5 Ardaloedd Risg Llifogydd

***Disgrifiad o'r Ardal***

Mae un ardal risg llifogydd a nodwyd yn Llandwrda, a labelir fel 4044-A yn Ffigur 9-7. Lleolir Ardal 4044-A ar ochr orllewinol y gymuned ac mae pentref Llanwrda yn ei chanol. Preswyl yw Ardal 4044-A i raddau helaeth, ac mae ychydig o wasanaethau pentref megis siop a thafarn. Mae'r ardal risg llifogydd yn ffinio ar Afon Dulais i'r dwyrain, sef prif afon sy'n cael ei rheoleiddio gan CNC. Mae'r ardal mewn perygl o lifogydd glawog yn bennaf. Ceir gwybodaeth mwy penodol am y perygl llifogydd yn yr ardaloedd hyn yn  9-15.

***Gwaith Amddiffyn rhag Llifogydd***

Nid oes unrhyw waith ar y gweill ar hyn o bryd.




*Ffigur 9-7 Ardal Risg Llifogydd 4044-A*

*Tabl 9-15 Crynodeb o Ardaloedd Risg Llifogydd Llanwrda*

| Ardal Risg Llifogydd | Gwybodaeth am Amddiffynfeydd rhag Llifogydd ac Asedau | Cyfeiriadau mewn Perygl | Derbynyddion Allweddol | Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol | Partneriaid FRM Allweddol | Ymgysylltu â'r Gymuned |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4044-A | • Gwael—rhywfaint o waith arolygu Priffyrdd yr A482 | • Afonol: 45<br>• Glawog: 4 | • Yr A482<br>• Gorsaf Reilffordd Llanwrda<br>• Rheilffordd Calon Cymru<br>• Neuadd Bentref Llanwrda<br>• Yr A40 | • Ni ddarparwyd gwybodaeth | • LLFA<br>• CNC<br>• Tirfeddianwyr Lleol<br>• Ymddiriedolaethau Elusennol | • Uchelgeisiol |

### 9.3.6 Camau Gweithredu a Nodiwyd

Ar ôl nodi'r ardaloedd risg llifogydd ledled cymuned Llanwrda, datblygwyd rhestr o gamau gweithredu isod yn 9-16 i fynd i'r afael â pherygl llifogydd, gan ei reoli a'i leihau.

*Tabl 9-16 Rhestr Hir o Gamau Gweithredu Posibl yn Llanwrda*

| Ardal | Camau Gweithredu Posibl | Math o Weithred | Disgrifiad | Cwblhawyd / Tymor Byr / Canolig / Hirdymor | Amcangyfrif o'r costau |
|---|---|---|---|---|---|
| 4044 | Rheoli Llifogydd Naturiol | Atal | Chwilio am gyfleoedd i weithio gyda'r bwrdd rheoli maetholion ac i archwilio technegau Rheoli Llifogydd Naturiol megis argaeau sy'n gollwng, ardaloedd sy'n gwanhau, gwlyptiroedd, plannu coed i fyny'r afon yn nalgylch Afon Dulais a allai ddarparu gwanhad a/neu leihau llifoedd brig er mwyn atal llifogydd i lawr yr afon. | Canolig | £££ |

# 10 Ardal Basn Afon Gorllewinol


## 10.1 Talacharn—4058

### 10.1.1 Disgrifiad o’r Ardal Gymunedol

Tref yn yr ABA Gorllewinol, ar arfordir deheuol Sir Gaerfyrddin, yw Talacharn (Ffigur 10-1). Yn 2021, oddeutu 710 o bobl oedd cyfanswm poblogaeth Talacharn.[31]

Eistedda’r gymuned ar aber Afon Taf lle mae 1 o bob 12 o bobl mewn perygl o lifogydd afonol ac mae 1 o bob 22 o bobl mewn perygl o lifogydd glawog yn Nhalacharn.

Gwledig ac arfordirol yw’r ardal i raddau helaeth, ac mae trefoli o amgylch y dref. Mae’r A4066 yn pasio drwy’r ardal gymunedol. Mae sawl adeilad rhestredig hefyd, yn y dref i raddau helaeth.




*Ffigur 10-1 Ardal Gymunedol Talacharn*

---

[31] [Talacharn (Sir Gaerfyrddin, Cymru, Y Deyrnas Unedig)—Ystadegau Poblogaeth, Siartiau, Map, Lleoliad, Tywydd a Gwybodaeth am y We (citypopulation.de)]

### 10.1.2 Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol

Yn hanesyddol, bu llifogydd sylweddol yn Nhalacharn yn 2014, 2020 a 2023. Dengys Tabl 10-1 mai dim ond 11 o ddigwyddiadau llifogydd a adroddwyd i dîm FRM CSC rhwng 2018 a 2024 yn Nhalacharn. O'n 28 o ardaloedd blaenoriaeth, mae cymuned Talacharn ymhlith yr isaf o ran adrodd materion llifogydd. Mae DCWW wedi cofnodi dau ddigwyddiad llifogydd ac mae CNC wedi cofnodi pedwar yn ystod yr un cyfnod.

*Tabl 10-1 Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol yn Nhalacharn*

| Math o Ddigwyddiad | Nifer yr Achlysuron | Digwyddiadau llifogydd a adroddwyd i asiantaethau partner |
|---|---|---|
| Amhreswyl Allanol | 0 | - |
| Preswyl Allanol | 8 | 6 |
| Amhreswyl Mewnol | 0 | - |
| Preswyl Mewnol | 3 | - |

### 10.1.3 Perygl Llifogydd mewn Ardal Gymunedol

Cyflwynir data sy'n ymwneud â nifer yr eiddo sydd mewn perygl o lifogydd afonol neu lawog ledled ardal gymunedol Talacharn isod yn 10-2. Gan fod eiddo ledled Talacharn mewn mwy o berygl o lifogydd afonol, dylai CNC reoli'r perygl llifogydd yn y gymuned hon yn bennaf.

*Tabl 10-2 Cyfanswm y Cyfeiriadau sydd mewn Perygl o Lifogydd Glawog ac Afonol yn Nhalacharn*

| Math o Lifogydd | Nifer yr Eiddo sydd mewn Perygl |
|---|---|
| Llifogydd Glawog | 14 |
| Llifogydd Afonol | 47 |

The Lacques ac Afon Coran sy'n rhoi'r prif berygl llifogydd afonol yn yr ardal. Mae perygl llifogydd glawog yn gysylltiedig â'r draenio hanesyddol sy'n gwasanaethu'r dref. Yn fwy diweddar, mae newidiadau mewn arferion amaethyddol, plannu indrawn a chynaeafu ddiwedd yr hydref hefyd wedi effeithio'n negyddol ar y perygl llifogydd. Dangosir bod y prif gyswllt trafnidiaeth, sef yr A4066, mewn perygl o lifogydd afonol a glawog. Cyflwyna Tabl 10-3 nifer y derbynyddion sy'n bresennol yn Nhalacharn sydd mewn perygl o lifogydd.

*Tabl 10-3 Derbynyddion yn Nhalacharn*

| Derbynnydd | Perygl Afonol | Perygl Glawog |
|---|---|---|
| Hyd y Ffyrdd (km) | 1582 | 464 |
| Hyd y Rheilffyrdd (km) | 0 | 0 |
| Amgylcheddol (n) | 4 | 2 |
| Tir Amaethyddol ($m^2$) | 19444 | 10976 |
| Eiddo Preswyl | 23 | 9 |
| Eiddo Amhreswyl | 6 | 1 |
| Adeiladau Rhestredig (n) | 54* | |
| *Mae'r cyfrif yma yn archwilio nifer yr adeiladau rhestredig sy'n bresennol ledled yr ardal gymunedol y nodwyd eu bod yn ardal risg uchel. Nid yw'r cyfrif yn awgrymu bod cyfanswm yr adeiladau mewn perygl o lifogydd afonol a llifogydd glawog—ond yn hytrach eu bod mewn perygl cyffredinol o lifogydd. | | |

### 10.1.4 Gwaith FRM yn yr ardal ers FRMP-1

Cyflwynir gwaith FRM a wnaed yn Nhalacharn ers FRMP-1 isod yn  10-4.

*Tabl 10-4 Gwaith FRM a wnaed yn Nhalacharn ers FRMP-1 CSC.*

| Ardal Benodol (Ardal Uned Bolisi) | Camau Gweithredu FRM (FRMP-1) | Cynnydd |
|---|---|---|
| The Laques, Talacharn | Bydd CSC yn arolygu cwlfert The Laques â theledu cylch cyfyng ac yn gweithredu unrhyw waith cynnal a chadw neu atgyweirio yn unol â hynny. | Cwblhawyd |


### 10.1.5 Ardaloedd Risg Llifogydd

***Disgrifiad o'r Ardal***

Mae un ardal risg llifogydd a nodwyd yn Nhalacharn, a labelir fel 4058-A yn Ffigur 10-2. Mae tref Talacharn yng nghanol Ardal 4058-A.  Mae Ardal 4058-A yn gymysgedd o fannau preswyl, gwyrdd ac arfordirol. Mae Afon Coran yn rhedeg drwy'r ardal risg llifogydd hon ac mae amddiffynfeydd CNC sy'n rhoi cydnerthedd gwrthsefyll llifogydd i'r eiddo cyfagos. Mae'r ardal mewn perygl o lifogydd afonol a glawog. Ceir gwybodaeth mwy penodol am y perygl llifogydd yn yr ardaloedd hyn yn  10-5.

***Gwaith Amddiffyn rhag Llifogydd***

Gwnaed mân waith i glirio ac atgyweirio’r draenio ym mhen uchaf y dref. Mae CSC hefyd wedi ymgysylltu â thirfeddianwyr ynghylch eu harferion mewn ymgais i dynnu sylw at y perygl llifogydd glawog sy’n gysylltiedig â rhai arferion amaethyddol.




*Ffigur 10-2 Ardal Risg Llifogydd 4058-A*

*Tabl 10-5 Crynodeb o Ardaloedd Risg Llifogydd Talacharn*

| Ardal Risg Llifogydd | Gwybodaeth am Amddiffynfeydd rhag Llifogydd ac Asedau | Cyfeiriadau mewn Perygl | Derbynyddion Allweddol | Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol | Partneriaid FRM Allweddol | Ymgysylltu â'r Gymuned |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4058-A | • Gwael | • Afonol: 45<br>• Glawog: 13 | • Preswylwyr<br>• Priffordd (yr A4066)<br>• Canol y Dref<br>• Treftadaeth Adeiledig ac Adeiladau Rhestredig<br>• Ardal twristiaeth bach | • Ni ddarparwyd gwybodaeth | • CNC<br>• Llywodraeth Cymru<br>• Tirfeddiannwr Lleol<br>• Ymddiriedolaethau Elusennol<br>• Priffyrdd<br>• DCWW<br>• CSC<br>• LLFA | • Cychwynnwyd (ar ôl llifogydd gaeaf 2023/24) |

### 10.1.6 Camau Gweithredu a Nodiwyd

Ar ôl nodi'r ardaloedd risg llifogydd ledled cymuned Talacharn, datblygwyd rhestr o gamau gweithredu isod yn  10-6 i fynd i'r afael â pherygl llifogydd, gan ei reoli a'i leihau.

*Tabl 10-6 Rhestr Hir o Gamau Gweithredu Posibl yn Nhalacharn*

| Ardal | Camau Gweithredu Posibl | Math o Weithred | Disgrifiad | Cwblhawyd / Tymor Byr / Canolig / Hirdymor | Amcangyfrif o'r costau |
|---|---|---|---|---|---|
| 4058 | Rheoli Llifogydd Naturiol | Atal | Gallai chwilio am gyfleoedd i weithredu Rheolaeth Llifogydd Naturiol ar draws tir amaethyddol ar Afon Coran a dalgylchoedd cyrsiau dŵr cyffredin i fyny'r afon o'r dref leihau llifoedd brig a mynd i'r afael â materion sy'n gysylltiedig â dŵr wyneb. | Hirdymor | £££ |


| Ardal | Camau Gweithredu Posibl | Math o Weithred | Disgrifiad | Cwblhawyd / Tymor Byr / Canolig / Hirdymor | Amcangyfrif o'r costau |
|---|---|---|---|---|---|
| | Rheoli a Chynnal a Chadw Asedau | Atal/Diogelu | Gwella dealltwriaeth o asedau CSC (gan gynnwys draenio) drwy adolygu data ac arolygon. | Ar y Gweill | ££ |
| | Cydnerthedd Gwrthsefyll Llifogydd Eiddo | Parodrwydd | Grymuso preswylwyr i dderbyn cyfrifoldeb am eu perygl llifogydd eu hunain drwy archwilio mesurau Cydnerthedd Gwrthsefyll Llifogydd Eiddo. | Canolig | £ |

## 10.2 Llanddowror—4061

### 10.2.1 Disgrifiad o’r Ardal Gymunedol

Pentref a chymuned yn yr ABA Gorllewinol, yn ne-orllewin Sir Gaerfyrddin, yw Llanddowror (Ffigur 10-3). Yn 2021, oddeutu 787 o bobl oedd cyfanswm poblogaeth Llanddowror[32].

Mae Afon Taf, prif afon, a chwrs dŵr cyffredin, Allt Cwmbrwyn, sy’n llifo drwy’r ardal gymunedol. Mae 1 o bob 14 o bobl mewn perygl o lifogydd afonol ac mae 1 o bob 52 o bobl mewn perygl o lifogydd glawog yn Llanddowror. Gwledig yw’r ardal i raddau helaeth, ac mae trefoli o amgylch tref Llanddowror. Mae cefnffordd newydd yr A477 yn mynd drwy’r ardal gymunedol. Mae ychydig o adeiladau rhestredig yn yr ardal gymunedol.




*Ffigur 10-3 Ardal Gymunedol Llanddowror*

---

32 [Llanddowror (Community, United Kingdom)—Population Statistics, Charts, Map and Location (citypopulation.de)]

### 10.2.2 Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol

Yn hanesyddol, bu llifogydd sylweddol yn Llanddowror yn 2009, 2023. Dengys Tabl 10-7 mai dim ond 5 digwyddiad llifogydd a adroddwyd i dîm FRM CSC rhwng 2018 a 2024 yn Llanddowror. O'n 28 o ardaloedd blaenoriaeth, mae cymuned Llanddowror ymhlith yr isaf o ran adrodd materion llifogydd.

*Tabl 10-7 Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol yn Llanddowror*

| Math o Ddigwyddiad | Nifer yr Achlysuron |
|---|---|
| Amhreswyl Allanol | 1 |
| Preswyl Allanol | 4 |
| Amhreswyl Mewnol | 0 |
| Preswyl Mewnol | 0 |

### 10.2.3 Perygl Llifogydd mewn Ardal Gymunedol

Cyflwynir data sy'n ymwneud â nifer yr eiddo sydd mewn perygl o lifogydd afonol neu lawog ledled ardal gymunedol Llanddowror isod yn  10-8. Gan fod eiddo ledled Llanddowror mewn mwy o berygl o lifogydd afonol sy'n deillio o gwrs dŵr cyffredin, CSC fydd yn rheoli'r perygl llifogydd yn y gymuned hon yn bennaf.

*Tabl 10-8 Cyfanswm y Cyfeiriadau sydd mewn Perygl o Lifogydd Glawog ac Afonol yn Llanddowror*

| Math o Lifogydd | Nifer yr Eiddo sydd mewn Perygl |
|---|---|
| Llifogydd Glawog | 4 |
| Llifogydd Afonol | 33 |

Cyflwyna Tabl 10-9 nifer y derbynyddion sy'n bresennol yn Llanddowror sydd mewn perygl o lifogydd.

*Tabl 10-9 Derbynyddion yn Llanddowror*

| Derbynnydd | Perygl Afonol | Perygl Glawog |
|---|---|---|
| Hyd y Ffyrdd (km) | 3112 | 1239 |
| Hyd y Rheilffyrdd (km) | 0 | 0 |
| Amgylcheddol (n) | 15 | 0 |
| Tir Amaethyddol ($m^2$) | 1488616 | 206552 |
| Eiddo Preswyl | 16 | 4 |
| Eiddo Amhreswyl | 0 | 0 |
| Adeiladau Rhestredig (n) | 9* | |

**Mae'r cyfrif yma yn archwilio nifer yr adeiladau rhestredig sy'n bresennol ledled yr ardal gymunedol y nodwyd eu bod yn ardal risg uchel. Nid yw'r cyfrif yn awgrymu bod cyfanswm yr adeiladau mewn perygl o lifogydd afonol a llifogydd glawog—ond yn hytrach eu bod mewn perygl cyffredinol o lifogydd.*

### 10.2.4 Gwaith FRM yn yr ardal ers FRMP-1

Ni wnaed unrhyw waith ac ni chymerwyd unrhyw gamau FRM yn Llanddowror ar ôl FRMP-1.


### 10.2.5 Ardaloedd Risg Llifogydd

***Disgrifiad o'r Ardal***

Mae un ardal risg llifogydd a nodwyd yn Llanddowror, a labelir fel 4061-A (Ffigur 10-4). Mae pentref Llanddowror yng nghanol Ardal 4061-A. Mae Ardal 4061-A yn gymysgedd o fannau gwyrdd a phreswyl. Mae cwrs dŵr de-gogledd cyffredin, Allt Cwmbrwyn, sy'n llifo drwy'r ardal. Mae'r ardal mewn perygl o lifogydd glawog yn bennaf. Ceir gwybodaeth mwy penodol am y perygl llifogydd yn yr ardaloedd hyn yn  10-10.

***Gwaith Amddiffyn rhag Llifogydd***

Nid oes unrhyw waith ar y gweill ar hyn o bryd. Gwnaed rhywfaint o waith mân yn flaenorol.




*Ffigur 10-4 Ardal Risg Llifogydd 4061-A*

*Tabl 10-10 Crynodeb o Ardaloedd Risg Llifogydd Llanddowror*

| Ardal Risg Llifogydd | Amddiffynfeydd rhag Llifogydd ac Asedau | Cyfeiriadau mewn Perygl | Derbynyddion Allweddol | Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol | Partneriaid FRM Allweddol | Ymgysylltu â'r Gymuned |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4061-A | • Gwael | • Afonol: 29<br>• Glawog: 0 | • Eiddo preswyl<br>• Priffordd (yr A477) | • Ni ddarparwyd gwybodaeth | • CNC, Llywodraeth Cymru, Tirfeddianwyr Lleol, Ymddiriedolaethau Elusennol, CSC, CNC | • Dymunol (hirdymor) |

### 10.2.6 Camau Gweithredu a Nodiwyd

Ar ôl nodi'r ardaloedd risg llifogydd ledled cymuned Llanddowror, datblygwyd rhestr o gamau gweithredu isod yn  10-11 i fynd i'r afael â'r perygl llifogydd, gan ei reoli a'i leihau.

*Tabl 10-11 Rhestr Hir o Gamau Gweithredu Posibl yn Llanddowror*

| Ardal | Camau Gweithredu Posibl | Math o Weithred | Disgrifiad | Cwblhawyd / Tymor Byr / Canolig / Hirdymor | Amcangyfrif o'r costau |
|---|---|---|---|---|---|
| 4061 | Rheoli Llifogydd Naturiol | Atal | Gallai chwilio am gyfleoedd i archwilio technegau Rheoli Llifogydd Naturiol yn y dalgylch uchaf megis argaeau sy'n gollwng a blocio ceunentydd wanhau dŵr ffo a lleihau'r pwysau i lawr yr afon. | Hirdymor | £££ |
| | Cydnerthedd Gwrthsefyll Llifogydd Eiddo | Parodrwydd | Grymuso preswylwyr i dderbyn cyfrifoldeb am eu perygl llifogydd eu hunain drwy archwilio mesurau Cydnerthedd Gwrthsefyll Llifogydd Eiddo. | Hirdymor | £ |

## 10.3 Llansteffan—4254


### 10.3.1 Disgrifiad o'r Ardal Gymunedol

Pentref a chymuned yn yr ABA Gorllewinol, yn ne-orllewin Sir Gaerfyrddin, yw Llansteffan (Ffigur 10-5). Eistedda Llansteffan ar aber Afon Tywi. Yn 2021, oddeutu 887 o bobl oedd cyfanswm poblogaeth Llansteffan[33].

Nant Jac yw'r prif gwrs dŵr yn y gymuned, ond mae cyrsiau dŵr cyffredin llai eraill sy'n llifo ar draws y gymuned ac yn gollwng yn Ferry Point a Bae Scott. Mae 1 o bob 177 o bobl mewn perygl o lifogydd afonol ac mae 1 o bob 32 o bobl mewn perygl o lifogydd glawog yn Llansteffan. Gwledig ac arfordirol yw'r ardal i raddau helaeth, ac mae trefoli o amgylch pentref Llansteffan. Y B4312 yw'r prif lwybr trafnidiaeth sy'n pasio drwy'r gymuned. Mae ychydig o adeiladau rhestredig yn yr ardal gymunedol, ym mhentref Llansteffan yn bennaf.

---

[33] Llansteffan (Community, United Kingdom)—Population Statistics, Charts, Map and Location (citypopulation.de)




*Ffigur 10-5 Ardal Gymunedol Llansteffan*

## 10.3.2 Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol

Nid oedd hanes o lifogydd sylweddol yn Llansteffan tan Storm Gertit ar 30 Rhagfyr 2023 a Storm Henk ar 2 Ionawr 2024. Yn ystod y digwyddiad hwn, bu llifogydd mewnol mewn dros 20 eiddo, rhai ohonynt at ddyfnder o 600mm (2 droedfedd). Cynhaliwyd [adroddiad ymchwiliad Adran 19] llawn a phriodolwyd yr achos i lawiad hirfaith a dalgylch dirlawn a arweiniodd at Nant Jac yn gorlifo glannau y cwrs dŵr. Ar 18 Rhagfyr 2024, gorlifodd glannau Nant Jac eto, a bu llifogydd mewn 10 eiddo.

Dengys Tabl 10-12 isod, rhwng 2018 a 2024, y bu 66 achos o lifogydd a adroddwyd i'r tîm FRM yn CSC. Mae'r mwyafrif o'r rhain yn gysylltiedig â'r digwyddiadau a nodir uchod. Mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd o'i chymharu â'r cymunedau risg uchel eraill, ond yn gymharol i gymunedau eraill sydd wedi cael llifogydd sylweddol yn ddiweddar.

Rydym hefyd yn ymwybodol bod y gymuned wedi adrodd pum digwyddiad i CNC gan fod Nant Jac isaf yn brif afon ac adroddwyd materion sy'n ymwneud â draenio priffyrdd i dîm Priffyrdd CSC.

*Tabl 10-12 Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol yn Llansteffan*

| Math o Ddigwyddiad | Nifer yr Achlysuron | Digwyddiadau a adroddwyd i asiantaethau partner |
|---|---|---|
| Amhreswyl Allanol | 0 | - |
| Preswyl Allanol | 17 | 4 |
| Amhreswyl Mewnol | 2 | - |
| Preswyl Mewnol | 47 | 1 |

### 10.3.3 Perygl Llifogydd mewn Ardal Gymunedol

Cyflwynir data sy'n ymwneud â nifer yr eiddo sydd mewn perygl o lifogydd afonol neu lawog ledled ardal gymunedol Llansteffan isod yn 10-13. Oherwydd eu bod yn dangos bod eiddo ledled Llansteffan mewn mwy o berygl o lifogydd glawog, bydd CSC yn rheoli'r perygl llifogydd yn y gymuned hon yn bennaf. Fodd bynnag, mae dyletswydd ar CNC i reoli'r perygl llifogydd o'r brif afon ac ar DCWW i gefnogi'r broses.

*Tabl 10-13 Cyfanswm y Cyfeiriadau sydd mewn Perygl o Lifogydd Glawog ac Afonol yn Llansteffan*

| Math o Lifogydd | Nifer yr Eiddo sydd mewn Perygl |
|---|---|
| Llifogydd Glawog | 26 |
| Llifogydd Afonol | 16 |

Mae derbynyddion y llifogydd diweddaraf yn cynnwys eiddo ar y Grîn, eiddo ger y Nant Jac ac eiddo ar hyd y Stryd Fawr. Mae'r prif gyswllt trafnidiaeth, y B4312, mewn perygl o lifogydd glawog. Cyflwyna Tabl 10-14 nifer y derbynyddion sy'n bresennol yn Llansteffan sydd mewn perygl o lifogydd.

*Tabl 10-14 Derbynyddion yn Llansteffan*

| Derbynnydd | Perygl Afonol | Perygl Glawog |
|---|---|---|
| Hyd y Ffyrdd (km) | 787 | 563 |
| Hyd y Rheilffyrdd (km) | 0 | 0 |
| Amgylcheddol (n) | 2 | 2 |
| Tir Amaethyddol ($m^2$) | 42232 | 34044 |
| Eiddo Preswyl | 3 | 10 |
| Eiddo Amhreswyl | 0 | 3 |
| Gwasanaethau Allweddol (n) | 0 | 3 |
| Dyraniad Preswyl | 0 | 1 |
| Adeiladau Rhestredig (n) | 25* | |

| Derbynnydd | Perygl Afonol | Perygl Glawog |
|---|---|---|
| **Mae'r cyfrif yma yn archwilio nifer yr adeiladau rhestredig sy'n bresennol ledled yr ardal gymunedol y nodwyd eu bod yn ardal risg uchel. Nid yw'r cyfrif yn awgrymu bod cyfanswm yr adeiladau mewn perygl o lifogydd afonol a llifogydd glawog—ond yn hytrach eu bod mewn perygl cyffredinol o lifogydd.* | | |

### 10.3.4 Gwaith FRM yn yr ardal ers FRMP-1

Cyflwynir gwaith FRM a wnaed yn Llansteffan ers FRMP-1 isod yn  10-15.

*Tabl 10-15 Gwaith FRM a wnaed yn Llansteffan ers FRMP-1 CSC.*

| Ardal Benodol (Ardal Uned Bolisi) | Camau Gweithredu FRM (FRMP-1) | Cynnydd |
|---|---|---|
| Y Grîn, Llansteffan | Gosod pympiau ar siambr ar y Grîn (gan ddibynnu ar lefelau y traeth). | Heb ei weithredu oherwydd nad oedd y gymuned yn agored i hynny ar y pryd. |

### 10.3.5 Ardaloedd Risg Llifogydd


***Disgrifiad o'r Ardal***

Mae un ardal risg llifogydd a nodwyd yn Llansteffan, a labelir fel 4254-A (Ffigur 10-6). Canolir Ardal 4254-A o amgylch pentref Llansteffan. Mae Ardal 4254-A yn gymysgedd o fannau preswyl, gwyrdd ac arfordirol. Mae cwrs dŵr cyffredin/prif afon Nant Jac yn rhedeg ar hyd ffin ogleddol yr ardal risg llifogydd hon. Mae'r ardal mewn perygl o lifogydd glawog ac afonol. Ceir gwybodaeth mwy penodol am y perygl llifogydd yn yr ardaloedd hyn yn  10-16.

***Gwaith Amddiffyn rhag Llifogydd***

Gwnaed gwaith llifogydd sylweddol ar ôl Storm Henk a Storm Gerit, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Arolwg cynhwysfawr o'r rhwydwaith draenio â theledu cylch cyfyng.
- Cyfarfodydd gyda CNC a DCWW.
- Gwerthusiad o wal priffyrdd Nant Jac.
- Gosod telemetreg i ddarparu data am lefelau dŵr a pherygl llifogydd.
- Datblygu a deddfu cynllun rheoli asedau cadarn o arllwysfeydd y traeth.
- Darparu rhwystrau llifogydd.
- Cyfarfodydd cymunedol a sesiynau unigol gyda phreswylwyr lleol.




*Ffigur 10-6  Ardal Risg Llifogydd 4254*

*Tabl 10-16 Crynodeb o Ardaloedd Risg Llifogydd Llansteffan*

| Ardal Risg Llifogydd | Gwybodaeth am Amddiffynfeydd rhag Llifogydd ac Asedau | Cyfeiriadau mewn Perygl | Derbynyddion Allweddol | Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol | Partneriaid FRM Allweddol | Ymgysylltu â'r Gymuned |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4254-A | • Cyfartalog (yn dda ar y Grîn) | • Afonol: 15<br>• Glawog: 22 | • Preswylwyr a phriffordd<br>• Ysgol Gynradd Llansteffan<br>• Gorsaf bwmpio DCWW<br>• Siopau bach a thraeth (twristiaid) | • Ni ddarparwyd gwybodaeth | • DCWW, CSC, CNC, LLFA, Priffyrdd, Llywodraeth Cymru, Tirfeddianwyr Lleol, LLFA, Ymddiriedolaethau Elusennol | • Cychwynnwyd ar ôl llifogydd gaeaf 2023/24 |

### 10.3.6 Camau Gweithredu a Nodiwyd

Ar ôl nodi'r ardaloedd risg llifogydd ledled cymuned Llansteffan, datblygwyd rhestr o gamau gweithredu isod yn 10-17 i fynd i'r afael â pherygl llifogydd, gan ei reoli a'i leihau.

*Tabl 10-17 Rhestr Hir o Gamau Gweithredu Posibl yn Llansteffan*


| Ardal | Camau Gweithredu Posibl | Math o Weithred | Disgrifiad | Cwblhawyd / Tymor Byr / Canolig / Hirdymor | Amcangyfrif o'r Costau |
|---|---|---|---|---|---|
| 4254 | Rheoli a Chynnal a Chadw Asedau | Atal/Diogelu | Busnes fel arfer—cynnal a chadw asedau allweddol yn rheolaidd, arllwysfeydd y traeth gan mwyaf ond gan gynnwys draenio priffyrdd, rhwydweithiau carthffosiaeth, arllwysfeydd a chyrsiau dŵr. | Ar y Gweill | ££ |
| | Cydnerthedd Gwrthsefyll Llifogydd Eiddo | Parodrwydd | Grymuso preswylwyr i dderbyn cyfrifoldeb am eu perygl llifogydd eu hunain drwy archwilio mesurau Cydnerthedd Gwrthsefyll Llifogydd Eiddo a datblygu grŵp llifogydd cymunedol. | Byr | £ |
| | Rheoli Llifogydd Naturiol | Atal | Gallai gweithredu prif gynlluniau Rheoli Llifogydd Naturiol ledled dalgylch uchaf Nant Jac a chyrsiau dŵr cyffredin eraill megis plannu coetiroedd, blocio ceunentydd, argaeau sy'n gollwng a allai arafu leihau llifoedd brig ar y cyrsiau dŵr hyn. | Byr | £££ |
| | Peirianneg Caled | Diogelu | Gweithredu newidiadau i'r arllwysfeydd sy'n gwasanaethu'r Morfa. | Byr | £££ |
| | Mapio a modelu llifogydd yn well | Adolygu | Gallai ymgymryd â modelu hydrolegol a hydrolig manwl ddarparu mwy o fewnwelediadau i fecanweithiau llifogydd a threfnau llif ar gyfer y gymuned hon er mwyn addasu camau gweithredu'n well. | Byr | ££ |

| Ardal | Camau Gweithredu Posibl | Math o Weithred | Disgrifiad | Cwblhawyd / Tymor Byr / Canolig / Hirdymor | Amcangyfrif o'r Costau |
|---|---|---|---|---|---|
| | Peirianneg Caled | Diogelu | Cefnogi'r Awdurdod Priffyrdd i archwilio'r posibilrwydd o wella draenio priffyrdd a chynyddu capasiti asedau. | Canolig | £ |
| | Cydnerthedd Gwrthsefyll Llifogydd Eiddo | Diogelu ac atal | Cynnal adolygiad strategol o'r perygl llifogydd yn yr ardal a datblygu rhestr hir o ddewisiadau ar gyfer rheoli perygl llifogydd ymhellach. Ochr yn ochr â hyn, datblygu achos busnes er mwyn ceisio cyllid i weithredu unrhyw ddewisiadau posibl. | Byr i ganolig | ££ |

## 10.4 Sanclêr—4049

### 10.4.1 Disgrifiad o'r Ardal Gymunedol

Tref yn yr ABA Gorllewinol, yn ne-orllewin Sir Gaerfyrddin, yw Sanclêr (Ffigur 10-7). Yn 2021, oddeutu 3,220 o bobl oedd cyfanswm poblogaeth Sanclêr[34]. Mae sawl afon yn llifo drwy'r ardal gymunedol hon, sef Afon Cynin, Afon Dewi Fawr ac Afon Taf. Mae 1 o bob 215 o bobl mewn perygl o lifogydd afonol ac mae 1 o bob 140 o bobl mewn perygl o lifogydd glawog yn Sanclêr. Gwledig yw'r ardal i raddau helaeth, ac mae trefoli o amgylch y dref. Mae'r A40, yr A477 a'r A4066 yn pasio drwy'r ardal gymunedol. Mae ychydig o adeiladau rhestredig yn yr ardal gymunedol, ar hyd y brif ffordd drwy Sanclêr.




*Ffigur 10-7 Ardal Gymunedol Sanclêr*

---

[34] [Sanclêr (Community, United Kingdom)—Population Statistics, Charts, Map and Location (citypopulation.de)](citypopulation.de)

### 10.4.2 Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol

Yn hanesyddol, bu llifogydd sylweddol yn Sanclêr yn 2018, 2023 a 2024. Dengys Tabl 10-18 mai dim ond 10 digwyddiad llifogydd a adroddwyd i dîm FRM CSC rhwng 2018 a 2024 yn Sanclêr. O'n 28 o ardaloedd blaenoriaeth, mae cymuned Sanclêr ymhlith yr isaf o ran adrodd materion llifogydd. Mae DCWW wedi cofnodi 5 o ddigwyddiadau llifogydd yn ystod yr un cyfnod.

*Tabl 10-18 Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol yn Sanclêr*

| Math o Ddigwyddiad | Nifer yr Achlysuron | Digwyddiadau llifogydd a adroddwyd i sefydliadau partner |
|---|---|---|
| Amhreswyl Allanol | 1 | - |
| Preswyl Allanol | 5 | 5 |
| Amhreswyl Mewnol | 1 | - |
| Preswyl Mewnol | 3 | - |

### 10.4.3 Perygl Llifogydd mewn Ardal Gymunedol

Cyflwynir data sy'n ymwneud â nifer yr eiddo sydd mewn perygl o lifogydd afonol neu lawog ledled ardal gymunedol Sanclêr isod yn 10-19. Gan fod yr eiddo ledled Sanclêr mewn mwy o berygl o lifogydd afonol, CNC fydd yn arwain y gwaith lliniaru perygl.

*Tabl 10-19 Cyfanswm y Cyfeiriadau sydd mewn Perygl o Lifogydd Glawog ac Afonol yn Sanclêr*

| Math o Lifogydd | Nifer yr Eiddo sydd mewn Perygl |
|---|---|
| Llifogydd Glawog | 17 |
| Llifogydd Afonol | 30 |

Cyflwyna **Error! Not a valid bookmark self-reference.** nifer y derbynyddion sy'n bresennol yn Sanclêr sydd mewn perygl o lifogydd.

*Tabl 10-20 Derbynyddion yn Sanclêr*

| Derbynnydd | Perygl Afonol | Perygl Glawog |
|---|---|---|
| Hyd y Ffyrdd (km) | 1103 | 582 |
| Hyd y Rheilffyrdd (km) | 17 | 81 |
| Amgylcheddol (n) | 3 | 2 |
| Tir Amaethyddol ($m^2$) | 820016 | 232776 |
| Eiddo Preswyl | 3 | 7 |
| Eiddo Amhreswyl | 1 | 0 |

| Derbynnydd | Perygl Afonol | Perygl Glawog |
|---|---|---|
| Gwasanaethau Allweddol (n) | 0 | 0 |
| Canol y Dref | Canol Tref Sanclêr | |
| Dyraniad Preswyl | 1 | 2 |
| Cyflogaeth Arfaethedig | 0 | 1 |
| Adeiladau Rhestredig (n) | 18* | |

**Mae'r cyfrif yma yn archwilio nifer yr adeiladau rhestredig sy'n bresennol ledled yr ardal gymunedol y nodwyd eu bod yn ardal risg uchel. Nid yw'r cyfrif yn awgrymu bod cyfanswm yr adeiladau mewn perygl o lifogydd afonol a llifogydd glawog—ond yn hytrach eu bod mewn perygl cyffredinol o lifogydd.*

### 10.4.4 Gwaith FRM yn yr ardal ers FRMP-1

Ni wnaed unrhyw waith ac ni chymerwyd unrhyw gamau FRM yn Sanclêr ers FRMP-1.


### 10.4.5 Ardaloedd Risg Llifogydd

***Disgrifiad o'r Ardal***

Mae un ardal risg llifogydd a nodwyd yn Sanclêr, a labelir fel 4049-A yn Ffigur 10-8. Lleolir Ardal 4049-A ar ochr orllewinol tref Sanclêr. Preswyl i raddau helaeth yw Ardal 4049-A. Mae Afon Cynin yn llifo drwy'r ardal risg llifogydd hon. Mae'r ardal mewn perygl o lifogydd glawog i raddau helaeth. Ceir gwybodaeth mwy penodol am y perygl llifogydd yn yr ardaloedd hyn yn  10-21.

***Gwaith Amddiffyn rhag Llifogydd***

Nid oes unrhyw waith ar y gweill ar hyn o bryd.



*Ffigur 10-8 Ardal Risg Llifogydd 4049-A*

*Tabl 10-21 Crynodeb o Ardaloedd Risg Llifogydd Sanclêr*

| Ardal Risg Llifogydd | Gwybodaeth am Amddiffynfeydd rhag Llifogydd ac Asedau | Cyfeiriadau mewn Perygl | Derbynyddion Allweddol | Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol | Partneriaid FRM Allweddol | Ymgysylltu â'r Gymuned |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4049-A | • Canolig | • Afonol: 30<br>• Glawog: 9 | • Preswylwyr<br>• Priffordd (y B4299, yr A3066)<br>• Adeiladau Rhestredig/Canol y Dref<br>• Yr A40<br>• Ysgol (Ysgol Griffith Jones)<br>• Gorsaf Reilffordd Sanclêr<br>• Prif Linell De Cymru<br>• Canolfan Hamdden<br>• Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Sanclêr<br>• Llyfrgell Gyhoeddus Sanclêr<br>• Adeiladau rhestredig (ee, Island House)<br>• Manwerthu a masnachol ar raddfa fach | • Mân lifogydd lleol | • CNC<br>• Llywodraeth Cymru<br>• LLFA<br>• CSC<br>• Priffyrdd<br>• DCWW<br>• Tirfeddianwyr Lleol<br>• Ymddiriedolaethau Elusennol | • Dymunol (hirdymor) |

### 10.4.6 Camau Gweithredu a Nodiwyd

Ar ôl nodi'r ardaloedd risg llifogydd ledled cymuned Sanclêr, datblygwyd rhestr o gamau gweithredu isod yn  10-22 i fynd i'r afael â pherygl llifogydd, gan ei reoli a'i leihau.

*Tabl 10-22 Rhestr Hir o Gamau Gweithredu Posibl yn Sanclêr*

| Ardal | Camau Gweithredu Posibl | Math o Weithred | Disgrifiad | Cwblhawyd / Tymor Byr / Canolig / Hirdymor | Amcangyfrif o'r Costau |
|---|---|---|---|---|---|
| 4049 | Cydnerthedd Gwrthsefyll Llifogydd Eiddo | Parodrwydd | Grymuso preswylwyr i dderbyn cyfrifoldeb am eu perygl llifogydd eu hunain drwy archwilio mesurau Cydnerthedd Gwrthsefyll Llifogydd Eiddo a datblygu grŵp llifogydd cymunedol | Hirdymor | £ |
| | Rheoli a Chynnal a Chadw Asedau | Parodrwydd | Chwilio am gyfleoedd i weithio gyda'r Awdurdod Priffyrdd a DCWW a datblygu 'uwch fap' o'r systemau draenio tanddaearol. | Hirdymor | ££ |

## 10.5 Hendy-gwyn ar Daf—4029


### 10.5.1 Disgrifiad o'r Ardal Gymunedol

Tref a chymuned yn yr ABA Gorllewinol, yng ngorllewin Sir Gaerfyrddin, yw Hendy-gwyn ar Daf (Ffigur 10-9). Yn 2021, oddeutu 1,907 o bobl oedd cyfanswm poblogaeth Hendy-gwyn ar Daf[35].

Mae sawl afon yn llifo drwy'r ardal gymunedol hon, sef Afon Gronw ac Afon Taf. Mae 1 o bob 13 o bobl mewn perygl o lifogydd afonol ac mae 1 o bob 38 o bobl mewn perygl o lifogydd glawog yn Hendy-gwyn ar Daf.

Gwledig yw'r ardal i raddau helaeth, ac mae trefoli o amgylch y dref. Mae'r A40, yr A477 a'r A4066 yn pasio drwy'r ardal gymunedol. Mae gorsaf drenau Hendy-gwyn ar Daf a Phrif Linell De Cymru yn rhedeg drwy'r ardal gymunedol hon. Mae un adeilad rhestredig yn yr ardal gymunedol.

[35] Hendy-gwyn ar Daf (Community, United Kingdom)—Population Statistics, Charts, Map and Location (citypopulation.de)




*Ffigur 10-9 Ardal Gymunedol Hendy-gwyn ar Daf*

## 10.5.2 Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol

Yn hanesyddol, bu llifogydd sylweddol yn Hendy-gwyn ar Daf yn 2012. Pwysleisia Tabl 10-23 mai dim ond 6 digwyddiad llifogydd a adroddwyd i dîm FRM CSC rhwng 2018 a 2024 yn Hendy-gwyn ar Daf. Cafodd CNC 1 adroddiad llifogydd a chafodd DCWW 20 o adroddiadau yn ystod yr un cyfnod.

*Tabl 10-23 Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol yn Hendy-gwyn ar Daf*

| Math o Ddigwyddiad | Nifer yr Achlysuron | Digwyddiadau llifogydd a adroddwyd i sefydliadau partner |
|---|---|---|
| Amhreswyl Allanol | 2 | - |
| Preswyl Allanol | 0 | 21 |
| Amhreswyl Mewnol | 0 | - |
| Preswyl Mewnol | 4 | - |

### 10.5.3 Perygl Llifogydd mewn Ardal Gymunedol

Cyflwynir data sy'n ymwneud â nifer yr eiddo sydd mewn perygl o lifogydd afonol neu lawog ledled ardal gymunedol Hendy-gwyn ar Daf isod yn 10-24.

Gan fod eiddo ledled Hendy-gwyn ar Daf mewn llawer mwy o berygl o lifogydd afonol, dylai CNC reoli'r perygl llifogydd yn y gymuned hon yn bennaf. Fodd bynnag, mae gwerthusiad strategol o berygl llifogydd ynghyd ag arolwg manwl o'r draenio yng nghanol tref Hendy-gwyn ar Daf wedi pwysleisio bod Hendy-gwyn ar Daf yn safle 100 ledled Cymru gyfan ar gyfer perygl llifogydd afonol ac yn safle 281 ar gyfer perygl glawog. Mae hyn yn rhoi'r ardal yn y 5% uchaf a'r 13% uchaf yn y drefn honno ar gyfer perygl llifogydd.

*Tabl 10-24 Cyfanswm y Cyfeiriadau sydd mewn Perygl o Lifogydd Glawog ac Afonol yn Hendy-gwyn ar Daf*

| Math o Lifogydd | Nifer yr Eiddo sydd mewn Perygl (CaRR) | Gwerthusiad o berygl llifogydd CSC (2022) |
|---|---|---|
| Llifogydd Glawog | 15 | 15 eiddo ar 3.33% AEP<br>18 eiddo ar 1% AEP<br>53 eiddo ar 0.1% AEP |
| Llifogydd Afonol | 145 | |

Cyflwyna Tabl 10-25 nifer y derbynyddion sy'n bresennol yn Hendy-gwyn ar Daf sydd mewn perygl o lifogydd.

*Tabl 10-25 Derbynyddion yn Hendy-gwyn ar Daf*

| Derbynnydd | Perygl Afonol | Perygl Glawog |
|---|---|---|
| Hyd y Ffyrdd (km) | 1859 | 483 |
| Hyd y Rheilffyrdd (km) | 452 | 34 |
| Amgylcheddol (n) | 19 | 13 |
| Tir Amaethyddol ($m^2$) | 1908424 | 135880 |
| Eiddo Preswyl | 50 | 5 |
| Eiddo Amhreswyl | 15 | 1 |
| Gwasanaethau Allweddol (n) | 2 | 0 |
| Canol y Dref | Canol Tref Hendy-gwyn ar Daf | |
| Safleoedd SFCA Ychwanegol | 1 | 3 |
| Dyraniad Preswyl | 0 | 1 |

| Derbynnydd | Perygl Afonol | Perygl Glawog |
|---|---|---|
| Ardaloedd Cyflogaeth Arfaethedig | 0 | 1 |
| Adeiladau Rhestredig (n) | 1* | |
| **Mae'r cyfrif yma yn archwilio nifer yr adeiladau rhestredig sy'n bresennol ledled yr ardal gymunedol y nodwyd eu bod yn ardal risg uchel. Nid yw'r cyfrif yn awgrymu bod cyfanswm yr adeiladau mewn perygl o lifogydd afonol a llifogydd glawog—ond yn hytrach eu bod mewn perygl cyffredinol o lifogydd.* | | |

### 10.5.4 Gwaith FRM yn yr ardal ers FRMP-1

Yn 2022, llwyddodd CSC yn ei gais i Lywodraeth Cymru am gyllid i gynnal adolygiad o'r hanes llifogydd ac asesiad o'r mecanweithiau llifogydd yn yr ardal ac i ddatblygu achos busnes er mwyn gwerthuso gwahanol ddewisiadau lliniaru llifogydd. Ar y cam Achos Busnes Amlinellol y mae'r gwaith hwn ar hyn o bryd.


### 10.5.5 Ardaloedd Risg Llifogydd

***Disgrifiad o'r Ardal***

Mae un ardal risg llifogydd a nodwyd yn Hendy-gwyn ar Daf, a labelir fel 4029-A yn Ffigur 10-10. Lleolir Ardal 4029-A yng nghanol y gymuned. Mae Ardal 4029-A yn gymysgedd o fannau preswyl a masnachol. Mae'r rheilffordd yn pasio drwy'r ardal risg llifogydd hon yng nghyfeiriad y dwyrain-gorllewin. Mae Afon Taf hefyd yn llifo drwy'r risg perygl llifogydd hon. Mae'r ardal mewn perygl o lifogydd glawog i raddau helaeth. Ceir gwybodaeth mwy penodol am y perygl llifogydd yn yr ardaloedd hyn yn  10-26.

***Gwaith Amddiffyn rhag Llifogydd***

Mae achos busnes amlinellol ar y gweill—gweler uchod.




*Ffigur 10-10 Ardal Risg Llifogydd 4029*

*Tabl 10-26 Crynodeb o Ardaloedd Risg Llifogydd Hendy-gwyn ar Daf*

| Ardal Risg Llifogydd | Gwybodaeth am Amddiffynfeydd rhag Llifogydd ac Asedau | Cyfeiriadau mewn Perygl | Derbynyddion Allweddol | Digwyddiadau Llifogydd Hanesyddol | Partneriaid FRM Allweddol | Ymgysylltu â'r Gymuned |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4029-A | • Cyfartalog—Canol y dref<br>• Gwael—Priffyrdd | • Afonol: 144<br>• Glawog: 10 | • Ysgol Dyffryn Taf<br>• Gorsaf Drenau Hendy-gwyn ar Daf<br>• Prif Linell Reilffordd De Cymru<br>• Prif ffordd yr A440<br>• Prif ffyrdd y B4328.<br>• Canol y Dref | • Ni ddarparwyd gwybodaeth | • DCWW<br>• Priffyrdd<br>• Perchnogion Busnes Lleol<br>• CNC<br>• Tirfeddianwyr Lleol | • Dymunol, tymor byr (yn unol â'r Achos Busnes Amlinellol) |

### 10.5.6 Camau Gweithredu a Nodiwyd

Ar ôl nodi'r ardaloedd risg llifogydd ledled cymuned Hendy-gwyn ar Daf, datblygwyd rhestr o gamau gweithredu isod yn 10-27 i fynd i'r afael â pherygl llifogydd, gan ei reoli a'i leihau.

*Tabl 10-27 Rhestr Hir o Gamau Gweithredu Posibl yn Hendy-gwyn ar Daf*

| Ardal | Camau Gweithredu Posibl | Math o Weithred | Disgrifiad | Cwblhawyd / Tymor Byr / Canolig / Hirdymor | Cost |
|---|---|---|---|---|---|
| 4029 | Ôl-osod SDCau | Atal | Ôl-osod SDCau er mwyn darparu gwanhad a manteision ehangach mewn ardaloedd trefol, yn enwedig y rhai sydd â hanes o lifogydd dŵr wyneb megis Trefechan. | Canolig | £££ |
| | Rheoli a Chynnal a Chadw Asedau | Atal/Diogelu | Gwella dealltwriaeth o asedau CSC (gan gynnwys draenio) yng nghanol y dref drwy adolygu data ac arolygon. Ymgysylltu â CNC er mwyn deall cynllun cynnal a chadw ar gyfer amddiffynfeydd rhag llifogydd, er enghraifft y wal llifogydd a'r argloddiau ym Mharc Dr Owen a'r ardaloedd i'r de. | Ar y Gweill | ££ |
| | Peirianneg Caled | Diogelu | Posibilrwydd o amddiffynfeydd rhag llifogydd ar hyd Afon Taf a Chwm Waun Gron ger Trefechan er mwyn diogelu eiddo. | Hirdymor | £££ |
| | Rheoli Llifogydd Naturiol | Atal | Archwilio cyfleoedd am fesurau Rheoli Llifogydd Naturiol ar fferm sy'n eiddo i CSC i'r dwyrain o ganol y dref ac i'r gogledd o ddalgylch Taf. Gallai mesurau megis basnau gwanhau, argaeau sy'n gollwng, neu blannu coetir ddarparu rhywfaint o fudd. | Hirdymor | £££ |

# Atodiad A—Methodoleg

Roedd y fethodoleg yn cynnwys paratoi, dadansoddi a chyflwyno data er mwyn asesu a deall perygl llifogydd ledled cymunedau blaenoriaeth Sir Gaerfyrddin.

## Paratoi Data

Cafodd set ddata CaRR sy'n cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â nifer yr eiddo sydd mewn perygl o lifogydd afonol, glawog a llanw yng Nghymru ei hidlo yn gyntaf i gynnwys data sy'n ymwneud â chyfeiriadau sydd mewn perygl o lifogydd afonol a/neu lawog yn unig gyda maint sy'n cyfateb i ddigwyddiad rhwng 1% a 3.3% Tebygolrwydd Gormodiant Blynyddol (AEP).

Yna cafodd data yn y CaRR eu hidlo ymhellach i gynnwys gwybodaeth yn ymwneud â'r perygl o lifogydd ledled Sir Gaerfyrddin yn unig. Yna defnyddiwyd y data CaRR wedi eu hidlo ar y cyd â data digwyddiadau llifogydd CSC a data derbynyddion a gafwyd rhwng 2018 a 2024.

Cymharwyd data cyfanswm poblogaeth cymunedau y Cyfrifiad â data 'poblogaethau mewn perygl' afonol a glawog o'r CARR i ganfod cyfran y preswylwyr sydd mewn perygl o wahanol fathau o lifogydd.

## Cymunedau Blaenoriaeth

Roedd y set ddata derfynol yn cynnwys y newidynnau canlynol a ddefnyddiwyd wrth benderfynu ar safle cymunedau sydd mewn perygl o lifogydd afonol a glawog yn Sir Gaerfyrddin:

- Nifer y cyfeiriadau sydd mewn perygl o lifogydd glawog
- Nifer y cyfeiriadau sydd mewn perygl o lifogydd afonol
- Nifer y cyfeiriadau sydd mewn perygl o lifogydd afonol a glawog (cyfunol)
- Nifer y digwyddiadau
- Sgôr perygl afonol (senario heb ei amddiffyn)
- Sgôr perygl glawog (senario heb ei amddiffyn)
- Sgôr perygl afonol a glawog cyfunol (mewn senario heb ei amddiffyn)

Yna defnyddiwyd y newidynnau uchod i restru lefel y perygl sy'n bresennol ym mhob cymuned yn Sir Gaerfyrddin. Er mwyn sicrhau y cynrychiolir cymunedau yn gyfartal ym mhob ABA, rhestrwyd cymunedau ym mhob ABA ar sail eu sgôr perygl cyfunol

cyffredinol o'r uchaf i'r isaf. Gan fod y sir wedi ei rhannu'n 7 Ardal Basn Afon, defnyddiwyd rheol fras lle nad oedd mwy na 5 cymuned fesul ABA a hyd at uchafswm o 35 cymunedau yn gyffredinol, i nodi'r cymunedau mewn perygl.

Yna dewiswyd y tair i chwe chymuned orau ym mhob ABA i ffurfio'r 28 o gymunedau blaenoriaeth sydd mewn perygl mawr o lifogydd yn Sir Gaerfyrddin.

Defnyddiwyd nifer cyfartalog y digwyddiadau llifogydd afonol a glawog cyfunol a adroddwyd ledled Sir Gaerfyrddin i ddangos yr adroddiadau llifogydd ym mhob cymuned.

### Ardaloedd Risg Llifogydd

Nodwyd ardaloedd risg llifogydd ym mhob cymuned flaenoriaeth. Mae'r rhain yn ardaloedd yr ystyrir eu bod mewn perygl penodol mewn cymuned. Fe'u diffiniwyd trwy ddefnyddio clystyrau o eiddo sydd mewn perygl o lifogydd afonol a glawog ar sail presenoldeb rhychwantau llifogydd a llwybrau llif arbennig. Defnyddiwyd gwybodaeth leol am dderbynyddion allweddol, hanes llifogydd a gwybodaeth am asedau hefyd i gynorthwyo'r broses o ddiffinio ardaloedd risg llifogydd. Mae ffigurau wedi eu cynhyrchu fesul cymuned a fesul ardal risg llifogydd, y gellir eu gweld yn Adrannau 4–10, yn dangos rhychwant y llifogydd a'r eiddo sydd mewn perygl.

Mae rhai cymunedau hefyd mewn perygl o lifogydd sy'n deillio o ddŵr daear. Pan fo hynny'n hysbys, cyfeirir at hyn yn adran berthnasol yr adroddiad.

# Atodiad B

# Atodiad C